

# Asesiad o Berfformiad

2018 / 2019

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| Cynnwys | Lliw Adran |
|---|---|
| Rhagair<br>Crynodeb o'r Flwyddyn<br>Diben yr Adroddiad<br>Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adfywio a Datblygu Economaidd | |
| Cyngor Effeithiol | |
| Cymunedau Cryf ac Amgylcheddol Ddeallus | |
| Addysg | |
| Sut ydym yn olrhain yr hyn a wnawn<br>Datganiad Llesiant<br>Gwybodaeth Cyswllt a Rhoi Adborth | |

# Rhagair

Does unman yn debyg i Flaenau Gwent. Ym mhen uchaf Cymoedd Gwent, mae Blaenau Gwent yn rhoi amgylchedd unigryw ac uchel i fyw, gweithio a chwarae ynddo. Gyda threftadaeth sydd wedi'i seilio'n gadarn ar orffennol diwydiannol, rydym yn lle sy'n newid i ymateb i gyfleoedd economaidd newydd.

Mae Gweledigaeth Cymoedd Technoleg, Parc Rhanbarthol y Cymoedd a Bargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ynghyd â chysylltiadau trafnidiaeth newydd yn cynnwys Ffordd Blaenau'r Cymoedd a gaiff ei gorffen yn y dyfodol agos a chysylltiadau rheilffordd i Gaerdydd yn dod â dyfodol disglair. Ynghyd â'r lleoliad gwych, tir Parc Cenedlaethol cyfagos, mae ein pobl a chymunedau yn gwneud Blaenau Gwent yn wych. Mae ein pobl wedi dylanwadu ar y llwyfan lleol, cenedlaethol a rhyngwladol mewn celf, chwaraeon a gwleidyddiaeth am genedlaethau lawer - gan roi Blaenau Gwent ar y map am yr holl resymau cywir.

Rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'i bartneriaid yw manteisio i'r eithaf ar yr asedau sydd gennym, gwneud mwy gyda llai a gwneud hynny'n well. Mae'n iawn ein bod yn cydnabod yr heriau sy'n ein hwynebu. Mae dirywiad diwydiant trwm yn parhau i effeithio ar ragolygon cyflogaeth a chyfleoedd rhyng-genhedlaeth. Rydym yn wynebu problemau gydag anghydraddoldeb mewn iechyd a chyfoeth, y cynnydd mewn siopa ar-lein a'r effaith ar ganol ein trefi, a materion cymdeithasol sy'n effeithio ar ein teuluoedd a'n pobl ifanc.

Fel Cyngor wynebwn alw cynyddol am rai o'n gwasanaethau gyda gostyngiadau i'n cyllidebau. Ond rydym yn mynd i'r afael â'r problemau hyn ynghyd â'n partneriaid, busnesau a'r gymuned leol. Rydym yn edrych ar sut y gwariwn ein harian i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer ein preswylwyr, rydym yn cefnogi busnesau newydd a phresennol, rydym yn edrych ar ein hasedau i gyflawni ffrydiau incwm newydd, a rydym yn dileu rhwystrau i alluogi preswylwyr i gael mynediad i'r hyn maent ei angen. Drwyddi draw, rydym yn edrych ymlaen at ddyfodol cadarnhaol.

Gweledigaeth Blaenau Gwent -
**Treftadaeth Falch**
**Cymunedau Cryf**
**Dyfodol Disgleiriach**

**Treftadaeth Falch** Mae Llwybr Ebwy Fach yn cysylltu 14 o ofodau gwyrdd cymunedol sy'n cynnig amrywiaeth o amwynderau o Goedwig Rhiw Beaufort yn y gogledd i Lanhiledd yn y de - cyfanswm o bron 16 cilometr. Mae cyfrif nifer ymwelwyr 2018/19 yn dangos cynnydd o 195% mewn defnydd. http://ebbwfachtrail.org.uk

**Cymunedau Cryf** Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda'r gymuned i greu Blaenau Gwent well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ers haf 2016 rydym wedi siarad gyda dros 2,000 o bobl ar draws Blaenau Gwent, o bob math o gefndir, hen ac ifanc, i ganfod y pethau sydd bwysicaf i bobl leol.

**Dyfodol Disgleiriach** Mae monitro a hyrwyddo ymgyfraniad pob grŵp o fyfyrwyr yn bwysig iawn yn ein hysgolion. Mae'r Senedd a sefydlwyd yn ddiweddar yn cynnwys myfyrwyr o bob grŵp i sicrhau y caiff pob grŵp ei gynrycholi a fod gan bob grŵp lais. Yn ogystal â'n Senedd, mae gennym hefyd nifer fawr o lysgenhadon hawliau myfyrwyr. Mae'r llysgenhadon hyn yn ceisio sicrhau bod ymdeimlad cryf o hawliau a chyfrifoldebau plant yn ein hysgolion yng nghyswllt cydraddoldeb, amrywiaeth, gwerthoedd Cymreig a chydlyniaeth gymunedol.

# Y Cynghorydd Nigel Daniels, Arweinydd y Cyngor a Michelle Morris, Rheolwr Gyfarwyddwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Crynodeb o'r Flwyddyn 2018/19

Mae'r Cyngor yn coleddu egwydddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y cyfeirir ati fel 'y Ddeddf') ac yn dechrau addasu'r ffordd y mae'n gweithio.

Fel rhan o hyn rydym yn cydweithio i addasu diwylliant y sefydliad a sefydlu ethos y Ddeddf ym mhopeth a wnawn.

Fel rhan o'r broses hon rydym wedi ystyried yr wybodaeth a gynhwysir yn adroddiad y Comisiynydd, 'Llesiant yng Nghymru, y Daith hyd Yma'. Fodd bynnag, sylweddolwn ein bod yn dal ym mlynyddoedd cynnar gweithredu'r Ddeddf a bod mwy eto i'w wneud yn y blynyddoedd i ddod.

Yn yr Asesiad o Berfformiad 2018/19 rydym yn bwrw golwg yn ôl ar weithrediad blwyddyn 1 o Amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, ond hefyd weithrediad y Ddeddf. Rydym wedi dechrau addasu arferion ac astudiaethau achos a rhoddir enghreifftiau ym mhob rhan o'r ddogfen i ddangos y gwaith cadarnhaol yr ydym yn dechrau ei wneud fel Cyngor.

Fel rhan o weithgareddau gwella'r Cyngor ac er mwyn rhoi tryloywder i'r cyhoedd, mae'r Cyngor wedi paratoi trosolwg o'r gweithgaredd yn ystod blwyddyn 1 gweithredu'r Cynllun.

Caiff gweithgaredd gwasanaeth nodedig o'r flwyddyn 2018/19 ei ddynodi ym mhob rhan o'r ddogfen. Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at rai o'r meysydd allweddol o weithgaredd yn ogystal â'r gwaith mwy arloesol a gyda ffocws ar ganlyniadau a wnaethom fel Cyngor.





**Islaw rhoddir rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn dan bob un o Amcanion Llesiant y Cyngor.**

# Cyngor Effeithiol

Roedd y Cyngor yn unfrydol wrth gymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2018/22. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ddogfen strategol bwysig iawn i'r Cyngor sy'n nodi'n glir ein blaenoriaethau am y pedair blynedd nesaf a sut y byddwn yn targedu ein hadnoddau cyfyngedig er mwyn cefnogi'r amcanion hyn.

Cafodd y Cynllun ei lunio yn dilyn cyfres o sesiynau gwirio a herio gydag aelodau ac uwch swyddogion o'r Cyngor pryd y gwnaethant sefydlu set a gytunwyd o Amcanion Llesiant ar gyfer y meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y dyfodol yw Addysg; Gwasanaethau Cymdeithasol; Cymunedau Cryf ac Amgylcheddol Ddeallus; Datblygu Economaidd ac Adfywio a bod yn Gyngor Effeithiol.




Gweledigaeth graidd y Cynllun Corfforaethol yw:

- Treftadaeth Falch
- Cymunedau Cryf
- Dyfodol Disgleiriach

Dymunai aelodau gael gweledigaeth sy'n adlewyrchu treftadaeth gyfoethog a diwydiant gorffennol yr ardal, y mae ein cymunedau yn falch tu hwnt ohonynt, ond sydd hefyd yn dangos ein hymrwymiad i symud ymlaen drwy groesawu technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg fydd yn paratoi ein cymunedau yn well ar gyfer y dyfodol ac yn eu tro yn arwain at ddyfodol llewyrchus ar gyfer Blaenau Gwent.

Mae'r arweiniaeth wleidyddol yn awyddus fod blaenoriaethau'r cynllun yn gydnaws gyda'r hyn a ddywedodd pobl leol wrthym sy'n bwysig iddynt yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn neilltuol, fe waethant ddweud eu bod eisiau cymunedau cryf a glân a gweld ein heconomi yn tyfu ar gyfer lles cenedlaethau'r dyfodol. Mae Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau yn flaenoriaethau wrth i ni weithio i wella safonau yn ein hysgolion fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn cyflawni eu potensial llawn a rydym yn parhau i ofalu am y bobl fwyaf fregus yn ein cymuned rhag galw cynyddol am y gwasanaethau hyn. mgynghoriad ar y gyllideb, oedd yn cynnwys:

- Rhaglen Ymgysylltu â'r Cyhoedd - fe wnaethom ofyn i bobl leol beth a gredent ddylai fod yn flaenoriaethau gwario'r Cyngor yn y dyfodol a'u barn ar y Dreth Gyngor.
- Undebau llafur - fe wnaeth y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol gwrdd gydag undebau llafur i'w diweddaru ar gynllunio'r gyllideb.
- Penaethiaid ysgol - cynhaliwyd cyfarfodydd tebyg gyda phenaethiaid ysgolion i'w hysbysu a dechrau ymgynghori ar y gyllideb a'i heffaith ar gyllideb ysgolion.

Eleni fe wnaethom ddathlu sefydlu Elisha Parsons, Maer Ieuenctid newydd Blaenau Gwent a Charlotte Clark, y Dirprwy Faer. Siaradodd y ddwy fenyw ifanc yn angerddol am eu swyddi newydd a'u huchelgais ar gyfer y flwyddyn. Siaradodd Samuel Taylor, y Maer oedd yn gadael, hefyd am uchafbwyntiau'r flwyddyn.



Mae gennym fodel rôl a llysgennad gwych yn Samuel Taylor, cyn Faer Ieuenctid Blaenau Gwent. Ar adeg mor gynnar yn ei yrfa bu'n aelod o Senedd Ieuenctid y Deyrnas Ieuenctid, gan wneud dwy araith yn Nhŷ'r Cyffredin dros ostwng yr oed pleidleisio ac yn erbyn toriadau i'r GIG.

Enillodd ei araith ar bleidleisio Wobr Paul Boskett. Bu hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc ac fel rhan o hyn teithiodd i Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yng Ngenefa i roi araith. Mae Samuel yn angerddol am wneud yn siŵr fod gan pobl ifanc lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac mae'n gobeithio cael gyrfa mewn gwleidyddiaeth. Dechreuodd taith Samuel fel aelod o Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent, a hwylusir gan y Cyngor.



## Gwasanaethau Cymdeithasol

Cawsom ein cydnabod eleni gan Lywodraeth Cymru am ein hymrwymiad i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant ym Mlaenau Gwent. Mae'r cynllun yn cynnig hyd at 30 awr o ofal plant yr wythnos wedi'i ariannu i deuluoedd mewn gwaith ac roeddem yn un o nifer fach o gynghorau Cymru a ddewiswyd i beilota hyn yn ôl yn 2017.

Mae dros 300 o blant a theuluoedd wedi manteisio o'r cynllun yn y fwrdeistref. Canmolodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad ein tîm Blynyddoedd Cynnar i ddarparu'r cynnig a chefnogi teuluoedd. Rydym eisoes yn clywed am yr effaith gadarnhaol a gafodd y cynnig ar deuluoedd Blaenau Gwent gan alluogi rhai rhieni i ddychwelyd i'r gwaith.




## Addysg

Llongyfarchiadau i'n disgyblion cyfnod allweddol 4 a choleg a gafodd eu canlyniadau Lefel A a TGAU yn ystod y flwyddyn. Sicrhaodd disgyblion yn Hafan Dysgu Blaenau Gwent gyfradd pas gyffredinol o 98.72%, yr uchaf o gampysau Coleg Gwent, ac yn yr arholiadau TGAU roedd yn wych gweld gwell canlyniadau yn ein holl ysgolion uwchradd. Mae'r gwelliant hwn yn ein rhoi mewn sefyllfa gref ar gyfer y dyfodol ac i gyflawni ein blaenoriaeth ar gyfer gwell deilliannau a chodi uchelgais pob plentyn a pherson ifanc ym Mlaenau Gwent.

Bu Bethany Paull, disgybl yn Ysgol Arbennig Pen-y-cwm yng Nglynebwy, yn llwyddiannus iawn yn y Gemau Olympaidd Arbennig yn Abu Dhabi. Yn ogystal â chludo baner yn y gemau i'r Tîm Prydeinig, fe wnaeth Bethany hefyd gystadlu mewn pump disgyblaeth Gymnasteg a roedd yn llwyddiannus iawn - gan ddod gartref gyda nifer o fedalau Aur ac Arian.



## Cymunedau Amgylcheddol Ddeallus

Mae'r Cyngor a'i breswylwyr wedi gweithio'n galed iawn i weithredu'r cynlluniau ailgylchu sydd eu hangen i gefnogi'r targedau ailgylchu a osododd Llywodraeth Cymru ar bob awdurdod lleol. Yn 2018/19 llwyddodd Blaenau Gwent i ragori ar y targed ailgylchu ar gyfer y flwyddyn drwy ailgylchu 59.28% o'i wastraff. Cafodd hyn ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru a gytunodd i osgoi'r ddirwy o £135,000 a gafodd y Cyngor yn y flwyddyn flaenorol 2017/18.
Mae ymgysylltu gyda'r gymuned wedi dangos fod preswylwyr eisiau byw mewn ardal y maent yn falch ohoni ac sy'n lân a thaclus. Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n benodol yn y maes gwaith hwn a bu'n llwyddiannus wrth weld perfformiad yn cynyddu o 88.3% ar gyfer strydoedd o safon uchel neu dderbyniol i 94.1%.



## Datblygu Economaidd ac Adfywio

Cyhoeddodd Ken Skates AC, Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi, gyllid o £25 miliwn i Flaenau Gwent fel rhan o brosiect Cymoedd Technoleg Mae'r cyllid hwn yn rhan o £100 miliwn a ymrwymwyd i Flaenau Gwent dros y 10 mlynedd nesaf. Nod y prosiect yw dod â 1,500 o swyddi i'r ardal.
Bydd y buddsoddiad yn ysgogi creu swyddi a buddsoddiad sector cyhoeddus a sector preifat yn yr ardal gan hybu datblygu technolegau uwch, gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiant o'r math diweddaraf.

Newyddion arall cyffrous eleni fu sefydlu Canolfan Genedlaethol Ymelwa Digidol yng Nglynebwy. Mae hon yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer diogelwch digidol a seibr, sydd yn greiddiol i brosiect Cymoedd Technoleg. Mae Thales, y cwmni technolgeg byd-eang sy'n darparu datrysiadau ar gyfer y marchnadoedd awyrofod, amddiffyn, cludiant, gofod a diogelwch, yn gefnogol i'r ganolfan.

Mae Thales yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Cyngor a Phrifysgol De Cymru i sefydlu canolfan i weithredu fel catalydd ar gyfer hyfforddiant addysgol a chyfleusterau ymchwil digidol a seibr.





Ynghyd â Chyngor Dinas Durham, fe wnaethom gyflwyno cais ar y cyd a sicrhau cyllid ar gyfer cam cyntaf cystadleuaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ganfod datrysiadau arloesol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar adeg o gyllidebau is. Anelwn weithio gyda Durham a chwmnïau technoleg i edrych ar ddefnyddio cerbydau presennol, tebyg i loriau ailgylchu, i gasglu data deallus answdd uchel ar deithiau y maent eisoes yn eu gwneud. Gallai hyn fod yn ddynodi tyllau yn y ffordd i broblemau seilwaith a thramgwyddau parcio, gyda'r cyfan wedi eu cynllunio i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol ac effeithlon.




Mae gweithgaredd nodedig arall o'r flwyddyn yn cynnwys:

## Rhyddid y Fwrdeistref - Llongyfarchiadau Mark Williams MBE

Dyfarnwyd Rhyddid Bwrdeistref Sirol i Flaenau Gwent i Mark Williams MBE, sydd wedi ennill pencampwriaeth snwcer y byd deirgwaith.

Mae Mark, a gafodd ei eni yn Cwm ac sy'n dal i fyw'n lleol, wedi cael gyrfa glodwiw ym maes chwaraeon sydd wedi cynnwys ennill pencampwriaeth snwcer y byd deirgwaith, yn 2000, 2003 a 2015.

Mae hefyd yn un o ddim ond tri o chwaraewyr i ennill y 'Goron Driphlyg' yn yr un tymor. Dyma'r enw a roddir i'r tri thwrnameint snwcer pwysicaf - Pencampwriaeth y Deyrnas Unedig, y Meistri a Phencampwriaeth y Byd.

Cyflwynwyd yr anrhydedd i Mark gan y Cyng Mandy Moore, Cadeirydd Cyngor Blaenau Gwent. Ef yw'r person gyntaf o fyd chwaraeon o'r ardal i dderbyn y fraint.

Mae Mark yn fodel rôl gwych ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc yma ym Mlaenau Gwent ac yn dangos y gallwch gyflawni eich breuddwydion os ydych yn gweithio'n caled ac yn credu ynddoch eich hunan.



## Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2019

Eleni lansiwyd cynllun newydd ar dlodi mislif ym Mlaenau Gwent. Daeth yn amlwg hyd yn oed yn 2019 fod rhai menywod yn ei chael yn anodd cael mynediad i gynnyrch sylfaenol glanweithdra menywod, yn bennaf oherwydd amgylchiadau ariannol. Gan weithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, mae'r Cyngor yn gweithio i ganfod maint y broblem ar draws Gwent ac i weithio i fynd i'r afael â hyn.

Mae ein hadran Addysg eisoes yn gweithio gydag ysgolion yn yr ardal a'r Gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau y bydd cynnyrch am ddim ar gael yn y dyfodol agos yn ein holl ysgolion, canolfannau ieuenctid a drwy'r gwasanaeth allgymorth ieuenctid. Mae hyn yn bosibl oherwydd cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Ciplun yn unig yw hyn o'r gwaith da a wnaethpwyd drwy gydol y flwyddyn. Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ym mhob rhan o'r ddogfen ac ar wefan y Cyngor.




Mae'r dyfodol yn sicr yn edrych yn ddisglair yma ym Mlaenau Gwent wrth i ni symud ymlaen gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i groesawu technolegau newydd ac oes newydd i fusnes.

# Diben yr Adroddiad

Diben yr adroddiad yw cyflwyno perfformiad y Cyngor ar ddiwedd cyfnod adrodd 2018/19. Mae hyn yn nodi'r gweithgareddau a mesurau allweddol a ddefnyddiwyd i fonitro ein perfformiad ar gyfer blwyddyn gyntaf Cynllun Corfforaethol 2018/22 y Cyngor.

Yn 2018 rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth  i bum maes i ganolbwyntio arnynt dros y cyfnod 2018/22:


- Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Addysg;
- Cymunedau Amgylcheddol Ddeallus;
- Datblygu Economaidd ac Adfywio; a
- Chyngor Effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r dilynol er mwyn cyflawni'r gofynion deddfwriaethol statudol:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** mae'r adroddiad yn defnyddio'r blaenoriaethau o fewn Cynllun Corfforaethol y Cyngor fel ei Amcanion Llesiant.
- **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009:** mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio'r blaenoriaethau o fewn Cynllun Corfforaethol y Cyngor fel ei Amcanion Gwelliant.

Mae gan yr holl feysydd hyn gamau gweithredu a mesurau cefnogi a gaiff eu monitro fel rhan o broses cynllunio busnes y Cyngor. Mae Cynllun Corfforaethol 2018/22 yn gydnaws yn strategol gyda Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae hefyd yn dynodi sut mae pob maes yn cefnogi cynnydd yr Amcanion Llesiant.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015




Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau' Dyfodol (Cymru) 2015 ynddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd sy'n anelu i wella llesiantcymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Caiff gweledigaeth y ddeddfwriaeth ei mynegi yn y saith nod cenedlaethol ar gyfer llesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n dweud fod yny **'rhaid iddynt ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'**. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cynnwys y pump ffordd ddilynol o weithio, a ddarlunir islaw.



**Integreiddio**



**Hirdymor**



**Ymgyfraniad**



**Atal**



**Cydweithredu**

# Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent ym mis Ebrill 2016 fel rhan o Ddeddf Llesant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'n bartneriaeth o gyrff cyhoeddus allweddol sydd â, drwy gydweithio, chyfrifoldeb enfawr i greu lle yr ydym eisiau byw ynddo nawr ac yn y dyfodol. Fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fe wnaethom gytuno ar ein Cynllun Llesiant ym mis Ebrill 2018 a chafodd ei gyhoeddi ddydd Gwener 4 Mai 2018 yn unol â chanllawiau statudol.

Roedd ein cynllun yn ganlyniad rhaglen gynhwysfawr o ymgyfraniad a chydweithredu i ddatblygu cynllun cydlynus ar gyfer darparu llesiant. Mae'n rhoi blaenoriaeth i bump amcan llesiant allweddol a osodir islaw, i'w datblygu, er mwyn sicrhau newidiadau cadarnhaol ar gyfer pobl leol a chymunedau:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Mae Blaenau Gwent eisiau i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd...** | Sicrhau fod blynyddoedd cynnar cenedlaethau'r dyfodol yn iach, hapus, yn rhydd o anaf ac yn barod i lwyddo |
| 2 | **Mae Blaenau Gwent eisiau cymunedau diogel a chyfeillgar...** | Creu cymunedau mwy diogel lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac sydd â chysylltiadau cymdeithasol da, yn gyfrifol yn gymdeithasol a gyda bywyd diwylliannol da |
| 3 | **Mae Blaenau Gwent eisiau gofalu am a gwarchod ei amgylcheddau naturiol...** | Creu amgylchedd egniol sy'n byw mewn cytgord gyda'i amgylcheddau naturiol, yn defnyddio adnoddau mewn ffordd deg a chynaliadwy. |
| 4 | **Mae Blaenau Gwent eisiau llunio llwybrau newydd i ffyniant...** | Man lle mae pobl yn ffynnu a chyflawni eu potensial dysgu llawn a gydol oes. |
| 5 | **Mae Blaenau Gwent eisiau annog a galluogi pobl i ddewis ffyrdd iach o fyw yn y lleoedd y maent yn byw, dysgu, gweithio a chwarae ynddynt ...** | Man lle mae pobl yn byw'n hirach gyda gwell iechyd, man lle mae ymddygiad da yw'r 'norm'. |

# Ein rôl arweinol mewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Blaenau Gwent

Fel yr awdurdod lleol ar gyfer ardal Blaenau Gwent, rydym yn ymroddedig i'n cyfrifoldebau i roi cefnogaeth effeithlon i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel y nodir yn y canllawiau statudol.

Gwnawn hyn drwy fuddsoddi mewn capasiti staffio neilltuol. Bu gan ein staff rôl sylfaenol mewn sicrhau fod y Bwrdd wedi cytuno a chyhoeddi Cynllun Llesiant erbyn mis Mai 2018, gan sicrhau fod y Bwrdd yn cyflawni ei ofyniad statudol.

Cafodd y cynllun ei ddatblygu fel canlyniad i raglen ymgysylltu gynhwysfawr a gaiff ei rhedeg gan y Cyngor ar ran y Bwrdd. Ffocws y rhaglen hon, Y Blaenau Gwent a Garem, oedd cynnwys pobl leol, grwpiau cymunedol a phartïon eraill â diddordeb.

Fe wnaeth y rhaglen ymgysylltu barhau i gam darpariaeth y cynllun 2018/19 i sicrhau bod ymgysylltu yn ffocws o weithredu'r Bwrdd. Mae'r Cyngor yn arwain ar dri phrosiect penodol a ddynodwyd yn y Cynllun Llesiant i helpu cyflawni Amcanion Llesiant y Bwrdd, sef Rhaglen 1,000 Diwrnod Cyntaf Blynyddoedd Cynnar, Cynyddu Cyfleoedd i'r Eithaf ar gyfer Ffyniant a Blaenau Gwent ar Symud.

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD





# Beth nesaf ar gyfer 2019/20

Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cefnogaeth weinyddol i sicrhau fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent yn cyflawni ei ofynion statudol, yn cynnwys hwyluso cynhyrchu drafft adroddiad blynyddol cyntaf y Bwrdd.

Ymhellach bydd staff y Cyngor yn weithgar wrth gyflwyno cynhadledd flynyddol gyntaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019, yn ogystal â chefnogaeth barhaus ar gyfer prosiectau penodol i helpu cyflawni Amcanion Llesiant y Bwrdd, yn cynnwys yr Hyb Diogelwch Cymunedol a gytunwyd yn ddiweddar a threfniadau Cymunedau Cyfeillgar o Ran Oedran.

# Rhai sy'n gadael gofal ddim yn gorfod talu treth gyngor erbyn hyn



Parti gardd blynyddol Gwasanaeth Lleoli Blaenau Gwent - cyfrannwyd y gwobrau gan Continental Cyf

Gosodwyd hysbysebion tu mewn i fysiau am y Tîm Lleoli ym mis Gorffennaf 2018 fel rhan o ymgyrch wedi'i thargedu ar gyfer Gofalwyr Maeth Arbenigol un-i-un




Bydd gofalwyr maeth arbenigol yn gofalu am y rhai mwyaf bregus

## Gweithgareddau Allweddol

Mae'r cyfraddau o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal fesul **1,000 poblogaeth** 65 oed a throsodd ar ei **lefel isaf erioed**

Gweithredwyd y cynnig gofal plant yn llwyddiannus gyda **468** o blant wedi'u cymeradwyo a **62** o ddarparwyr wedi cofrestru i ddarparu.

**Gostwng** y nifer ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r nifer o blant sy'n derbyn gofa gan yr awdurdod.

## Yr hyn a ddywedoch wrthym...





"Ein dyfodol" mwy o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc"

**"Gwasanaethau gwell ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl"**

**"Canolfan Bert Denning yn ased leol wirioneddol i bobl gydag anableddau"**

# Gwasanaethau Cymdeithasol






## Penawdau

**Adre'n Gyntaf**
Dechreuodd Adre'n Gyntaf, prosiect newydd rhanbarthol rhyddhau o'r ysbyty, yn Ysbyty Nevill Hall. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor a chymorth IAA i 'ddrws blaen' ysbytai aciwt (wardiau Damweiniau ac Argyfwng, wardiau asesu meddygol) gyda'r nod o osgoi cleifion rhag gorfod mynd i ysbyty sy'n feddygol ffit i ddychwelyd adref a hyrwyddo canlyniadau personol.


**Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru**
Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru ei adroddiad archwilio ar gyfer Cyngor Blaenau Gwent yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd yn Chwefror a Mawrth 2018. Edrychodd yr Arolygwyr ar effeithlonrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol a threfniadau i helpu a gwarchod plant a'u teuluoedd. Roedd perfformiad cyffredinol y Cyngor yn gadarnhaol ond mae cydnabyddiaeth o'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor mewn darparu'r gwasanaeth ar adeg o bwysau ariannol ac adnoddau.

**Gostyngiad Diogel yn Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal**
Mae Gwasanaethau Plant wedi dechrau gweld gostyngiad yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ac yn nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt. Gall hyn fod fel canlyniad i dargedu gwasanaethau ataliol yn y ffordd gywir a gweithredu'r Strategaeth Gostyngiad Diogel yn Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.

# Pam fod hyn yn bwysig

Rydym eisiau annog a chefnogi pobl i ddewis ffordd o fyw iach i alluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i ffynnu. Mae ymchwil wedi profi fod pobl sy'n arddangos ymddygiad iechyd cadarnhaol o enedigaeth drwy eu bywyd yn arwain at fwy o annibyniaeth a phobl yn rhydd o gyflyrau iechyd cymhleth yn ddiweddarach yn eu bywyd a gostwng costau i wasanaethau cyhoeddus. Yn ei dro gallai hyn ostwng y galw ar wasanaethau a sicrhau fod y gwasanaethau a ddarperir yn ansawdd uchel, effeithol ac yn ymateb i anghenion pobl leol.

Gyda llai o gyllid a galw cynyddol ar wasanaethau, ni all y Cyngor wneud popeth a wnaeth yn y gorffennol. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar y camau gweithredu hynny fydd â'r effaith fwyaf. Mae diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth ar gyfer y Cyngor wrth ochr trawsnewid uchelgais preswylwyr a gwerthfawrogi tegwch a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn. Yn ei gyfanrwydd nod yr Amcan hon fydd cefnogi pobl agored i niwed o bob oed i fanteisio i'r eithaf, cynnal a chadw eu hannibyniaeth.




# Sut y gwnaethom berfformio

Drwy gydol 2018/19 bu cynnydd sylweddol mewn gweithredu'r blaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ond cydnabyddir fod angen mwy o waith o hyd i weithredu'r nodau ac amcanion yn llawn.

Erbyn 31 Mawrth 2019, ystyriodd y Cyngor y perfformiad a'r gweithgaredd ar bob Amcan Llesiant er mwyn dynodi llwyddiant pob maes. Ym mlwyddyn 1 cafodd perfformiad yr Amcan Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol ei werthuso fel bod yn llwyddiannus gan fod 95% o'r camau gweithredu yn wyrdd (ar y targed) a 5% yn oren (tu ôl i'r targed). Wrth ystyried tueddiadau gyda'r dangosyddion perfformiad, bu gwelliant mewn chwech, pump wedi gostwng ac un wedi aros yn ei unfan.

Mae'r swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau ar agenda'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn edrych ar fynd i'r afael â'r meysydd sydd â budd hirdymor, gan sicrhau fod anghenion pobl o bob oed a chenedlaethau'r dyfodol yn ganolog wrth ddylunio a darpariaeth gwasanaeth.

# Trosolwg 2018/19


Ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol gwnaed cynnydd da i'r ffordd yr ydym yn cyflwyno ein darpariaeth o gyngor i ddinasyddion sy'n cysylltu â'n gwasanaethau. Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar gyfer oedolion a hefyd blant wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod 2018/19, gan alluogi 'drws blaen' Gofal Cymdeithasol i ddiwallu dinasyddion a phartneriaid sydd hefyd wedi sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Cafodd y Timau IAA eu hadolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru a bu adborth yn gadarnhaol yng nghyswllt sut mae'r tîm a phartneriaid wedi deall a chroesawu cael sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' a chydnabod sut mae hyn wedi helpu pobl  i weithio gydag eraill i sicrhau canlyniadau.

Sefydlogodd y nifer o blant sy'n derbyn gofal drwy gydol 2018/19 a bu hefyd ostyngiad yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Roedd nifer y plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2019 yn 222 o gymharu â 233 ym mis Mawrth 2018.

Ar gyfer diwedd blwyddyn 2018/19 roedd 56 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant o gymharu â 89 y llynedd. Cynhaliwyd 100% o Gynadleddau Amddiffyn Plant o fewn 15 diwrnod gyda 97.6% o fewn yr amserlen statudol. Ar gyfartaledd roedd plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant ym Mlaenau Gwent am gyfnod o 227.27 diwrnod, gostyngiad o'r llynedd pan oedd y ffigur yn 256.61.





Datblygwyd y Strategaeth Gostyngiad Diogel yn Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal i gefnogi gostyngiad parhaus yn y nifer a gostwng ymhellach y nifer o blant sy'n derbyn gofal. Mae'r Strategaeth wedi dechrau dangos sut mae'n atal problemau rhag gwaethygu i'r pwynt lle mae angen i blant dderbyn gofal neu roi eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae gwaith y tîm Cefnogi Pobl yn dystiolaeth dda o hyn a fu'n llwyddiannus wrth hyrwyddo ymyriadau cynnar i atal problemau rhag gwaethygu.

Mae'r Tîm yn gweithio'n llwyddiannus gyda phlant a theuluoedd ar 'ymyl gofal' a daeth tystiolaeth i'r amlwg o'r effaith a gaiff hyn ar wella canlyniadau ar gyfer ein teuluoedd a phobl ifanc mwyaf bregus. Yn ogystal â gwella canlyniadau ar gyfer plant, mae'r tîm Cefnogi Pobl wedi medru gwneud arbedion ac osgoi costau o fewn y gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol fel canlyniad i'r ymyriadau hyn, gydag arbedion cost blwyddyn lawn o £344,864 ac osgoi costau o hyd at £1,701,000.

Dangosodd adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar Wasanaethau Plant fod llawer o waith da yn mynd rhagddo i helpu cadw plant yn ddiogel a'u hamddiffyn, gan sôn yn arbennig am ymrwymiad staff o fewn y gwasanaeth. Mae'r adborth cadarnhaol a gafwyd yn cynnwys gweithio partneriaeth da gyda Teuluoedd yn Gyntaf, ysgolion ac asiantaethau partner eraill.



Roedd y Cyngor yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf i weithredu rhaglen Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2017 a daeth wedyn yn awdurdod lletya ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ym mis Medi 2018.

Ar 6 Chwefror 2019 hysbyswyd y Cyngor y bu 'model achos busnes gwell' yn llwyddiannus gyda £4.1 miliwn yn cael ei ddyfarnu i bum cynllun i wella neu ehangu darpariaeth gofal plant a chefnogi cyd-leoliad y cynnig gofal plant a meithrinfa Cyfnod Sylfaen.



Gwnaed cryn dipyn o gydweithio dros y 12 mis diwethaf. Defnyddiodd y Bwrdd Partneriaeth Blant arian o'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) i sefydlu:

Tîm MyST ('My Support Team') ar y cyd rhwng Blaenau Gwent a Sir Fynwy;

Parhau i ymestyn yr hyfforddiant ymlyniad ar gyfer staff; a

Y rhaglen sgiliau byw ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

Mae cynllun Ymgysylltu Gofalwyr a Meddygon Teulu wedi galluogi pob un o'r 11 meddygfa teulu ar draws Blaenau Gwent i gynnig cymorth a chyngor i ofalwyr mewn meddygfeydd teulu. Datblygwyd hyn mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn defnyddio cyllid ICF. Mae'r cymorth a roddwyd yn cynnwys:

- Sgwrs ddechreuol am eu sefyllfa bresennol;
- Rhoi taflenni gwybodaeth am y gwahanol wasanaethau sydd ar gael;
- Cyfeirio at sefydliadau/gwasanaethau perthnasol, tu mewn a thu allan i'r fwrdeistref;
- Rhoi cymorth ymarferol dechreuol a/neu barhaus;
- Rhoi cymorth emosiynol dechreuol a/neu barhaus; a
- Gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau neilltuol ar ran yr unigolyn.

Dangosodd y canlyniadau o holiaduron adborth dinasyddion y Ddeddf 2018/19 fod ymateb cadarnhaol gan oedolion i'r cwestiwn 'dywedodd pobl iddynt gael yr wybodaeth gywir pan oeddent eu hangen a'u bod wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a chymorth', gyda 84.1% yn cytuno gyda'r datganiad (cynnydd o 80% y llynedd), "Mae fy ngweithiwr cymdeithasol wedi bod yn gefnogol iawn a pharod i gynorthwyo am fy mhecyn gofal ac yn y blaen".


Ynghyd â llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae Cyngor Blaenau Gwent yn wynebu problemau ariannol difrifol a bu'n rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fel holl wasanaethau'r Cyngor, wneud toriadau i sicrhau fod yr awdurdod yn sicrhau gyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19.

Cafodd y cynnydd cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal effaith niweidiol ar sefyllfa'r gyllideb gyda Gwasanaethau Plant yn gorwario gan £765,000 yn 2018/18.

Derbyniodd y Gyfarwyddiaeth £0.53 miliwn a ychwanegwyd at gyllideb sylfaen Gwasanaethau Plant ar gyfer y pwysau hyn o fewn 2018/19, ac er bod gwaith sylweddol wedi'i ddechrau gyda gweithredu strategaeth Gostyngiad Diogel yn Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, mae'r cynnydd wedi arwain at orwariant o £961K ar ddiwedd Mawrth 2019 yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag mae Gwasanaethau Oedolion wedi llwyddo i danwario gan arwain at gyfanswm tanwariant o £220K ar gyfer y Gyfarwyddiaeth.



Yr her ar gyfer 2019/20 fydd parhau i reoli'r galw a gwneud mwy gyda llai. Byddwn yn cynnal nifer o adolygiadau o fewn rhai o'r gwasanaethau a ddarparwn yn fewnol. Byddwn yn parhau i ymchwilio ymhellach ar y cyfleoedd ar gyfer cydweithio lle bydd hynny'n gwella llesiant Blaenau Gwent ac mai dyma'r peth iawn i'w wneud.



## Asesiad Chwarae

Rhoi cyfle i bobl lenwi holiadur i asesu faint o amser a lle sydd gan blant a phobl ifanc i chwarae neu gymdeithasu yn eu hardal leol.

**404** o blant a phobl ifanc wedi llenwi holiadur gyda a **234** arall o oedolion yn cymryd rhan.

**Ymateb o ardaloedd**

| | |
|---|---|
| Abertyleri **15%** | Glynebwy **30%** |
| Blaenau **10%** | Tredegar **40%** |
| Brynmawr **5%** | Cyfanswm **100%** |

Mae rhaglen 'Cymru Iachach' yn cyflwyno rhaglen drawsnewidiol newydd £100 miliwn. Mae'n cynnwys y disgwyliad fod newid trawsnewidiol yn sicrhau 'system ddiwniad o iechyd a gofal cymdeithasol'. Roedd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno 'Cynnig Trawsnewidiol' i Lywodraeth Cymru yn nodi cynigion sut y byddai Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn cefnogi datblygiad parhaus 'system ddiwniad' o ofal, cymorth a llesiant, mewn ymateb i gynllun hirdymor newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol 'Cymru Iachach'. Roedd cyfanswm y cynnig ar gyfer Gwent yn £13.4m o gyllid cyfyngedig newydd dros gyfnod o ddwy flynedd.

Cafodd pedwar maes eu dewis, yn deillio o'r meysydd blaenoriaeth o fewn y Cynllun Ardal a chyfeiriadau a ystyriwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys:

- Datblygu gwasanaethau ymyrraeth cynnar ac atal;
- Datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol;
- Ailddylunio gwasanaethau iechyd emosiynol a meddwl i blant a'r glasoed;
- Datblygu model rhyddhau integredig 'Adre yn Gyntaf'.

***Cydweithio*** Mae pob awdurdod lleol ac asiantaeth partner yn parhau i gydweithio ar ddiogelu drwy Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru (SEWSCB) a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent (GwASB). Mae'r ddau grŵp wedi datblygu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd fydd yn rhoi sicrwydd o effeithlonrwydd trefniadau gweithio rhyng-asiantaeth i GwASB a SEWSCB am drefniadau gweithio rhyng-asiantaeth wrth ddiogelu plant a phobl ifanc. Bydd y fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn gyrru ymarfer a gwella gwasanaeth a sicrhau fod gwaith yn cadw ei ffocws ar y canlyniadau gorau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed ar draws y rhanbarth..

***Ymgysylltu*** - roedd yr wybodaeth a gasglwyd o holiaduron adborth dinasyddion ein Deddf yn gadarnhaol yng nghyswllt nifer y dinasyddion sy'n teimlo eu bod yn byw mewn cartref oedd yn cefnogi eu llesiant. Roedd yr ymateb i hyn yn gadarnhaol iawn gyda 90.5% yn cytuno gyda'r datganiad, cynnydd o 81% y llynedd. Dywedodd un dinesydd: "Mae addasiadau i'r byngalo fel canllawiau ar waliau a chawod cerdded i mewn wedi gwneud bywyd yn haws. Mae'r pedwar gofalwr y dydd yn hanfodol".

***Atal/Integreiddio*** Bu'r ddau dîm IAA yn llwyddiannus yn hyrwyddo model o atal ac integreiddio:
- Y Tîm Gwasanaethau Oedolion sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid ym Mwrdd Iechyd Pirfysgol Aneurin Bevan a'r trydydd sector.
- Mae Gwasanaethau Plant wedi manteisio o weithio agos ar draws y Timau Atal, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, ac, yn fwy diweddar, Heddlu Gwent.

*Astudiaeth Achos*

# Tîm Cefnogi Newid

### Hanes personol

Bu teulu Plentyn E yn hysbys i'r Awdurdodd Lleol ers 2006, oherwydd problemau camddefnyddio sylweddau. Roedd yr Awdurdod Lleol yn ymwneud gyda'r teulu ar sail Plentyn mewn Angen a hefyd sail Amddiffyn Plentyn. Cyhoeddodd yr Awdurdod Lleol drafodion gofal ym mis Awst 2014.

### Y sefyllfa ac anghenion presennol

Pan ddaeth y trafodion gofal i ben ym mis Ionawr 2015, cafodd Plentyn E ei lleoli gyda'i mam-gu ar ochr ei thad dan Orchymyn Gwarcheidwaith Arbennig gyda Gorchymyn Goruchwylio am un flwyddyn i alluogi'r Adran i fonitro, cefnogi a chynnig cyngor. Ym mis Chwefror 2017 daeth yr Awdurdod Lleol yn gysylltiedig unwaith eto pan wnaeth Plentyn E nifer o honiadau difrifol am gamdriniaeth corfforol ac emosiynol yn ei mam-gu a'i hewythr ar ochr ei thad. Yn dilyn ymchwiliadau ac asesiad Gofal Plant, dechreuwyd Trafodion Gofal a rhoddwyd Gorchymyn Gofal i'r awdurdod lleol ym mis Tachwedd 2017. Arhosodd Plentyn E mewn gofal maeth tan fis Hydref 2018 pan chwalodd y lleoliad.

### Y cymorth a gafwyd

Dymunai Plentyn E ddychwelyd adref at ei mam. Yr adeg honno nid oedd ei mam wedi defnyddio cyffuriau am 2 flynedd. Felly cynhaliwyd asesiad rhianta o'r fam oedd yn gadarnhaol. Cymerodd y tîm Cefnogi Newid ran i gyflwyno rhaglen ddwys o waith a chymorth rhianta yn edrych ar anghenion a datblygiad unigol, arferion a ffiniau a rheoli ymddygiad plentyn E gan hyrwyddo hunaniaeth a hunanbarch Plentyn E a gwaith cadw'n ddiogel. Fe wnaeth y fam hefyd gefnogi Grŵp Rhianta Cefnogi Pobl lle dysgodd strategaethau mewn rheoli ymddygiad y gall ei gweithredu. Cafodd gwaith uniongyrchol gyda Phlentyn E hefyd ei orffen i sicrhau fod ei dymuniadau a'i theimladau yn hysbys.

### Y canlyniad

Fel canlyniad cafodd E ei hailsefydlu'n llwyddiannus adre gyda'i mam. Mae gan y fam ddeallwriaeth dda o anghenion Plentyn E ac yn medru eu cyflawni, ac mae Plentyn E yn ymateb yn gadarnhaol i fod adref. Cafodd adroddiad ysgol rhagorol yn ddiweddar ac mae'n ymddangos yn hapus ac wedi setlo. Mae'r adborth gan y fam yn gadarnhaol. Dywedodd y bu'r gwaith yn gymorth iddi a'r grŵp yn fanteisiol o safbwynt addysgol a hefyd wrth roi cyfleoedd iddi gwrdd gydag eraill mewn sefyllfa hapus. Mae Plentyn E yn hapus i fod adre ac wrth ei bodd bod gyda'i mam a'i chwaer. Yn ogystal â'r canlyniad cadarnhaol ar gyfer y teulu, mae'r arbedion ar gyfer yr awdurdod lleol yn £782.25 yr wythnos neu £40,677 y flwyddyn mewn ffioedd maethu.

### Cynlluniau'r dyfodol:

Bydd Plentyn E a'i mam yn parhau i gael ei chefnogi gan yr awdurdod lleol ar sail hirdymor dan Reoliadau Lleoli gyda Rhieni.

*Case Study*

# Cymru Well Wales - Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf

Mae plentyndod cynnar yn gam hollbwysig mewn bywyd a all benderfynu llawer o lesiant person ar gyfer y dyfodol. Mae'r 1000 diwrnod cyntaf o ddatblygiad plant yn gosod y llwyfan ar gyfer iechyd, dysgu a chyflawniad gydol oes at berthnasau (yn cynnwys bywyd teuluol) a'r hyn a drosglwyddir i genedlaethau'r dyfodol. Felly, caiff sicrhau fod gan bobl fynediad cyfartal i'r gwasanaethau iawn ar yr adeg iawn ei ystyried fel blaenoriaeth allweddol wrth sicrhau y caiff canlyniadau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd eu cynyddu i'r eithaf.

I gefnogi hyn a gan weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Cyngor ac yn neilltuol Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym yn ymroddedig i ddeall mwy am ein gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn cynnwys eu hansawdd a dynodi bylchau. Felly ym mis Ebrill 2018 fe wnaethom ymuno â Cymru Well Wales - Rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf a chymryd camau i sefydlu grŵp cynllunio aml-asiantaeth i fynd â'r gwaith ymlaen.

Dechreuodd ein gwaith gyda digwyddiad rhanddeiliaid Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Glynebwy ym mis Gorffennaf 2019. Daeth y digwyddiad â dros 91 o gynrychiolwyr angerddol a brwdfrydig ynghyd o 13 sefydliad partner sy'n darparu gwasanaethau a chymorth i blant a theuluoedd.

Mae'r sesiynau yn codi cwr y llen ar lle gellid gwneud y gwelliannau mwyaf mewn darparu gwasanaethau; helpu i ddynodi meysydd o arfer da y gellid eu mabwysiadu ar draws Blaenau Gwent; ac ystyried sut y gellid cynllunio a chydweithio'n well.

Mae argymhelliad allweddol, a amlinellir islaw, yn dynodi'r hyn sydd angen ei wneud dros y tymor byr, y tymor canol a'r hirdymor er mwyn cynyddu i'r eithaf y canlyniadau ehangach ar lesiant ar gyfer plant a theuloedd:

- Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Phlant i gefnogi a goruchwylio **datblygu Cymuned Ymarfer.** Rhwydwaith dwywaith y flwyddyn ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i gefnogi, hyrwyddo a galluogi ymgyfraniad, integreiddiad, atal, cydweithredu drwy ddatrys problemau a rhannu arfer da.



# Sut y perfformiodd 'Gwasanaethau Cymdeithasol' 2018/19

Fel rhan o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gwahoddir pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yng nghyswllt darparu gofal a chymorth. Eleni, anfonwyd holiaduron at oedolion a gofalwyr. Oherwydd y gyfradd ymateb isel yn y gorffennol gan blant, penderfynwyd na chynhelid arolwg eleni. Mae'r gyfradd ymateb isel gan blant yn nodweddiadol ar draws Cymru a chafodd ei chydnabod gan Lywodraeth Cymru fel ysgogwr ar gyfer adolygu. Felly, mae'r ffordd y mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc i gael ei adolygu yn unol ag adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf. Rhoddir ystyriaeth yn awr i'r ffordd orau i annog cyfranogiad a chasglu sylwadau yn y ffordd fwyaf effeithlon.

## Ymatebion gan oedolion

Yng nghyswllt Gwasanaethau Oedolion, anfonwyd 644 holiadur at oedolion 18 oed a throsodd a derbyniwyd 152 ymateb: mae hyn yn is na'r llynedd pan gafwyd 249 ymateb. Mae hyn yn gyfwerth â chyfradd ymateb o 23.6%, sydd ychydig yn is na'r gyfradd ymateb o 25% a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.

O'r ymatebion:

- Dywedodd 90.5% o ymatebwyr eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant, sy'n gynnydd o'r llynedd pan oedd y ffigur yn 81%. Dywedodd 86% eu bod yn hapus gyda'r gefnogaeth gan berthnasau, ffrindiau a chymdogion, sy'n gynnydd o 4% o'r llynedd.
- Teimlai 52% o ymatebwyr y gallent wneud y pethau oedd yn bwysig iddynt a dywedodd 33.7% y gallent wneud hynny weithiau, cyfanswm o 86% wedi dweud ie neu weithiau. Roedd y ffigur yn 2017/18 yn 84%.
- Mae 62.8% yn teimlo'n rhan o'r gymuned sy'n welliant o'r llynedd pan mai dim ond 41% oedd y ffigur.
- Mae 84% yn teimlo'n ddiogel tu mewn a thu allan i'r cartref, cynnydd o 9% o'r llynedd.
- Mae 82.7% yn gwybod gyda phwy i gysylltu am eu Gofal Cymdeithasol a chymorth, 5.3% yn llai na'r llynedd. Roedd gan 81.7% yr wybodaeth gywir pan oeddent eu hangen ac wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a chymorth. Roedd hyn yn debyg i'r llynedd pan oedd y ffigur yn 80%. Mae 84.1% yn hapus gyda'r gofal a chymorth a gânt, sy'n ostyngiad bach o 1.9% o'r llynedd.

- Gall 97.5% gyfathrebu yn eu dewis iaith, sy'n debyg i'r llynedd, a theimlai 92.5% eu bod yn cael eu trin gyda pharch ac urddas, o gymharu â 94% y llynedd.
- O'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl, dywedodd 66% eu bod yn dewis byw yno. Y llynedd atebodd 74% yn y ffordd hon.
- Gofynnwyd i rai 18-24 os oeddent yn cael y cyngor, help a chefnogaeth oedd eu hangen i'w baratoi ar gyfer bywyd fel oedolion, dywedodd 90.6% eu bod a 9.3% wedi ymateb nad oeddent. Mae hyn yn welliant o'r llynedd pan ymatebodd 75% eu bod a 25% nad oeddent.

## Ymatebion Gofalwyr

Anfonwyd holiaduron at ofalwyr oedd â chynllun gofal a chymorth ar y cyd gyda'r person y gofalir amdano. Derbyniwyd 32 ymateb o'r 75 holiadur a anfonwyd. Dim ond 22 holiadur a anfonwyd y llynedd a 10 gafodd eu dychwelyd, teimlai 69% o ofalwyr eu bod wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau am sut y darperid y gofal a'r cymorth y person y gofalant amdanynt; y llynedd roedd hyn yn 86%.

Yn ystod 2018/19, parhaodd Blaenau Gwent i weithredu'r newidiadau diwylliannol a gweithredol gofynnol y mae'r Ddeddf eu hangen er mwyn sicrhau y caiff pob gwasanaeth gofal cymdeithasol eu llunio'n unigol gan y bobl sy'n eu defnyddio. Mae hyn wedyn yn cynnwys gwella sut mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu'n effeithlon gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, teuluoedd a sefydliadau partner tra'n annog pawb i roi adborth y gellir ei ddefnyddio i lunio a gwella gwasanaethau.

Ar bob Amcan Llesiant, mae'r Cyngor wedi dynodi nifer o fesurau perfformiad i ddangos pa mor dda mae darpariaeth yr Amcanion Llesiant yn mynd. Caiff y rhain eu rhannu yn ôl dangosyddion lleol a chenedlaethol. Lle'n bosib, mae'r Cyngor wedi cymharu'r dangosyddion lleol gyda pherfformiad y llynedd. Caiff y dangosyddion cenedlaethol eu galw yn Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus ac mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yn eu hanfon yn flynyddol i Data Cymru. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd a gellir ei chymharu ar draws Cymru.



**Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus** – Ni chaiff dangosyddion Gwasanaethau Cymdeithasol eu cynnwys gan nad yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi penderfynu cyhoeddi data perfformiad gan eu bod yn newydd ac angen gwiriadau dilysu ar draws pob awdurdod. Ni fedrir cymharu'r data hwn ar draws Cymru.

| Mesur Perfformiad | Perfformiad BG 18/19 | Perfformiad BG 17/18 | Perfformiad BG 16/17 | |
|---|---|---|---|---|
| Y canran o asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol | 74.2% | 90.8% | 84.5% |  |
| Y canran o blant a gefnogwyd i barhau i fyw gyda'u teulu | 61.5% | 62.0% | 68.4% |  |
| Y canran o blant a dderbyniodd ofal a ddychwelod adre o ofal yn ystod y flwyddyn | 13.2% | 8.5% | 13.8% |  |
| Y canran o blant a gafodd eu hailgofrestru ar Gofrestri Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol | 1.9% | 0.7% | 0.0% |  |
| Nifer cyfartalog dyddiau ar gyfer yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn | 277.3 | 256.6 | 170.99 |  |
| Canran y plant a gyflawnodd y dangosydd pynciau craidd ar Gyfnod Allweddol 2 | 55.0% | 65.4% | 57.5% |  |
| Canran y plant a gyflawnodd y dangosydd pynciau craidd ar Gyfnod Allweddol 4 | 10.8% | 14.8% | 16.7% |  |

*^Caiff y mesur ei gynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol*

**Ni fedrir cymharu pob mesur gan y gall y ffordd y cânt eu cyfrif o newid flwyddyn ar flwyddyn.*

***Gallwch weld mwy o wybodaeth perfformiad yn www.mylocalcouncil.info*

| Mesur Perfformiad | Perfformiad BG 18/19 | Perfformiad BG 17/18 | Perfformiad BG 16/17 | |
|---|---|---|---|---|
| Canran y plant a welodd ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis o ddechrau derbyn gofal | 55.3% | 34.7% | 54.0% |  |
| Canran plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu | 74.6% | 60.6% | 70.0% |  |
| Canran plant sy'n debyn gofal sydd wedi profi 1 neu fwy newid ysgol yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd yn destun trefniadau trosiannol, yn y flwyddyn i 31 Mawrth | 10.5% | 6.0% | 23.6% |  |
| Canran plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth a gafodd dri neu fwy lleoliad yn ystod y flwyddyn | 8.6% | 9.9% | 12.3% |  |
| Canran yr holl ymadawyr gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar 12 mis ar ôl gadael gofal | 50.0% | 68.8% | 40.0% |  |
| Canran yr holl ymadawyr gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar 24 mis ar ôl gadael ysgol | 76.9% | 80.0% | 40.0% |  |
| Canran ymadawyr gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn | 14.1% | 6.1% | 27.0% |  |

*^Caiff y mesur ei gynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol*

**Ni ellir cymharu pob mesur gan y gall y ffordd y
cânt eu cyfrif newid flwyddyn-ar-flwyddyn.*

***Gallwch weld mwy o wybodaeth perfformiad yn:*
*www.mylocalcouncil.info*

| Mesur Perfformiad | Perfformiad BG 18/19 | Perfformiad BG 17/18 | Perfformiad BG 16/17 | |
|---|---|---|---|---|
| Canran ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn amserlen statudol | 93.30% | 90.47% | 100.0% |  |
| Cyfradd oedi trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 poblogaeth 75 oed a throsodd | 1.16 | 2.55 | 1.38 |  |
| Canran oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai 6 mis yn ddiweddarach | 72.55% | 93.33% | 80.95% |  |
| Canran oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi heb becyn gofal a cymorth 6 mis yn ddiweddarach | 91.26% | 76.04% | 69.81% |  |
| Cyfnod cyfartalog y caiff pobl hŷn (65 oed neu drosodd) eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl (dyddiau) | 830.67 | 904.02 | 806.03 |  |
| Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl | 84.48 | 84.49 | 82.15 years | - |
| Canran oedolion nad ydynt wedi derbyn cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac heb gysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn | 83.44% | 83.66% | 89.95% |  |

*^Caiff y mesur ei gynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol*

**Ni fedrir cymharu pob mesur gan y gall y ffordd y cânt eu cyfrif o newid flwyddyn ar flwyddyn.*

***Gallwch weld mwy o wybodaeth perfformiad yn www.mylocalcouncil.info*

| Mesurau Cynllun Corfforaethol |
|---|
| 27.7% o asesiadau cymesur wedi arwain at asesiad mwy cynhwysfawr o ofal a chymorth, i lawr o'r llynedd pan oedd y gyfradd yn 43%. |
| 12.2% o atgyfeiriadau gwasanaethau plant wedi eu cyfeirio at wasanaethau ataliol. |
| Y gyfran o achosion gwasanaethau plant a gefnogwyd gan wasanaethau ataliol wedi cynyddu o 57% y llynedd i 61.3% eleni. |
| Nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng gan 11 i 222. |
| Nifer ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi gostwng gan 33 i 56. |
| Y canran o asesiadau cymesur a arweiniodd at asesiad mwy cynhwysfawr ar gyfer gofal a chymorth i oedolion wedi cynyddu o 58% i 64.2%. |
| Gostyngiad yn y canran o oedolion a ddywedodd eu bod yn hapus gyda'r gofal a chymorth a dderbyniant o 86.8% i 84.5%. |
| Fel y dynodir uchod, ni chafodd y plant sy'n hapus gyda'r gofal a chymorth a dderbyniant ei fonitro eleni oherwydd y gyfradd ymateb isel a gafwyd gan blant yn y gorffennol. Mae'r gyfradd ymateb isel gan blant yn nodweddiadol ar draws Cymru a chafodd ei chydnabod gan Lywodraeth Cymru fel ysgogwr ar gyfer adolygiad. |
| 67.9% o ofalwyr yn teimlo y medrant barhau yn eu rôl gofalu o gymharu â 80% y llynedd. |
| 7.4% o atgyfeiriadau gwasanaethau oedolion wedi eu cyfeirio at wasanaethau ataliol o gymharu â 8.7% y llynedd |
| Y gyfran o atgyfeiriadau gwasanaethau oedolion a gefnogwyd gan y gwasanaethau ataliol yn 31.2% o gymharu â 29.4% y llynedd |
| Mae cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gwella o 2.55 y llynedd i 1.16 eleni |
| Cafodd 93.30% o ymholiadau amddiffyn oedolion eu cwblhau o fewn amserlenni statudol o gymharu gyda 90.47% y llynedd |
| Canran pobl (16+ oed) yn byw mewn aelwydydd amddifadus ym Mlaenau Gwent yn 2017/18 yn 18%, sy'n welliant o'r llynedd pan oedd y ffigur yn 19% |
| Ni chafodd dangosydd perfformiad i ddynodi'r nifer o drefniadau cydweithio a phartneriaethau gyda Gwasanaethau Cymdeithasol ei ddatblygu hyd yma |


*^Caiff y mesur ei gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol*

**Ni chaiff pob mesur ei gymharu gan y gall y ffordd y cânt eu cyfrif eu newid flwyddyn-ar-flwyddyn.*

***Gallwch weld mwy o wybodaeth perfformiad yn [www.mylocalcouncil.info](www.mylocalcouncil.info)*

# Gweithgaredd Allweddol ers mis Ebrill 2019

Mae mwy o gapasiti rheolwyr gwasanaeth ers mis Ebrill 2019 wedi galluogi craffu manwl ar weithdrefnau a phrosesau o fewn y tîm IAA. Roedd y craffu hwn yn dynodi'r angen i newid y ffordd y ddosbarthwyd atgyfeiriadau a rhoddwyd proses newydd ar waith.




Mae gwaith partneriaeth yn parhau gyda'r Heddlu dan y rhaglen Gweithredu Cynnar gyda'n Gilydd. Y dangosyddion cynnar yw bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar amseroldeb prosesau amddiffyn plant a sicrhau y caiff gwybodaeth ei chasglu a'i ystyried ym mhob penderfyniad. Mae cynlluniau pellach yn mynd rhagddynt i ystyried os y dylai addysg fod â rôl yn y gwasanaeth IAA.

Bydd archwiliad mewnol yn cychwyn ym mis Medi 2019 o fewn y Gwasanaeth Diogelu gyda thema 'Llais y Plentyn'. Caiff yr archwiliad ei gwblhau gyda golwg ar helpu'r adran i ddeall lefel cyfranogiad plant a phobl ifanc yn eu hadolygiadau statudol cytundeb lefel gwasanaeth a defnyddio'r wybodaeth i gyfeirio unrhyw newidiadau sydd eu hangen i sicrhau y caiff lleisiau plant eu clywed ac y gweithredir ar hynny.




Mae'r strategaeth Diogelu Plant sy'n Derbyn Gofal wedi dechrau dangos sut mae'n atal problemau a gaiff eu hwynebu gan blant a theuluoedd rhag gwaethygu i bwynt lle mae'r plant yn dod i dderbyn gofal neu fod eu henwau'n mynd ar y rhestr amddiffyn plant. Mae gwaith y tîm Cefnogi Pobl yn dystiolaeth dda o'r gwaith hwn. Cynhaliwyd gwerthusiad allanol llawn o waith y tim a argymhellodd sefydlu'r tîm ar sail hirdymor. Mae'r gwerthusiad yn dangos tystiolaeth fod y tîm yn gwneud gwahaniaeth go iawn i blant a theuluoedd Blaenau Gwent.


Hefyd fel rhan o'r Strategaeth Diogelu Plant sy'n Derbyn Gofal,, sefydlwyd tîm MyST ('My Support Team') gyda'r nod o ddod â phlant yn ôl i'r ardaloedd lleol o leoliadau preswyl i leoliadau maeth. Mae'r tîm yn gweithio ar hyn o bryd gyda thri o blant Blaenau Gwent ac mae tri arall ar eu rhestr aros. Mae'r plant ar y rhestr aros yn rhai sydd mewn gofal preswyl ar hyn o bryd gyda chynllun i symud i ofal maeth, fodd bynnag ni ddaethpwyd o hyd i leoliad maeth addas hyd yma.



Roedd cynllun gweithredu Arolygiaeth Gofal Cymru a sefydlwyd ym mis Mehefin 2019 yn cynnwys naw maes ar gyfer gwella a gwnaethpwyd llawer o waith i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Cafodd tri maes eu trin yn llawn erbyn hyn. Mae'r chwe maes arall yn datblygu'n dda a dylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd chwarter 2 2019.

Caiff datblygiadau tai newydd ar draws Blaenau Gwent eu hystyried i gefnogi rhai sy'n gadael gofal a phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys fflatiau un ystafell gwely yn yr hostel i'r digartref yn Nhredegar a fflatiau un ystafell wely yng Nglynebwy. Ym mis Hydref 2018 cytunodd y Cyngor i bawb sy'n gadael gofal ym Mlaenau Gwent gael eu heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor.





Drwy gydol y flwyddyn cafodd y datblygiadau strategol ehangach eu noddi gan y Bwrdd Partneriaeth Integredig eu dynodi ar gyfer blaenoriaeth yn ystod 2019/20. Mae hyn yn cynnwys:

- Datblygu tîm IAA integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dechrau'r ffrwd gwaith Cymunedau Trugarog i weithio fel rhan o'r dulliau gweithredu integredig i IAA o fewn meddygfeydd teulu.
- Cadarnhau a sefydlu rhaglen eiriolaeth estynedig (Rhanbarth Gwent) - caiff hyn ei gwblhau a'i lansio yn gynnar yn 2019/20.
- Adolygiad terfynol o'r gwasanaeth rhyddhau o ysbyty yn cynnwys ehangiad posibl Adre'n Gyntaf a dull gweithredu rhanbarthol ar gyfer rhyddhau - trefnwyd gweithdy Gwent ar gyfer mis Gorffennaf 2019.
- Parhad o newidiadau diwylliannol drwy gynlluniau ar draws Gwasanaethau Oedolion megis prosesau sicrwydd ansawdd newydd a swydd newydd uwch ymarferydd yn IAA i ddylanwadu ar y prosesau rheoli gofal.
- Cwblhau'r Strategaeth Atal ac ailgyflunio'r Timau IAA.Atal. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau yn ystod chwarter 1 gydag adolygiad o strwythur staffio IAA, penodi staff cymorth ychwanegol a chysylltiadau gyda'r ffrydiau gwaith Cymunedau Trugarog.
- Comisiynu gwasanaeth gofal yn y cartref newydd mewn cysylltiad gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, disgwylir y bydd yn weithredol ym mis Medi 2019.
- Partneriaeth Gwent yn gweithio i ddatblygu dull gweithredu ar draws Gwent i gomisiynu lleoliadau gofal cartref. Bydd hyn yn cynnwys cytundeb Adran 33 a threfniadau cyllideb wedi'i chronni.



*Gwobrau Anelu'n Uchel 2019*
*Enillydd Declan Hughes, Prentis y Flwyddyn. Cwmni: Continental Tyres. Cyflwynwyd gan Eluned Morgan AC, Llywodraeth Cymru*

Dros y 3 blynedd ddiwethaf mae'r Gwasanaeth Cydlynu Cyflogaeth wedi creu

**111 swydd ym Mlaenau Gwent**

ar gyfer gweithgynhyrchu, peirianneg, adeiladu a mewnol

Mae nifer y prentisiaid yn y **rhaglen Anelu'n Uchel** yn cynyddu

Mae canran y gofod llawr a ddefnyddir yn holl unedau busnes y Cyngor sydd ar gael wedi gwella gyda defnydd o

**90%**

## Yr hyn a ddywedoch wrthym...

"Gwell opsiynau trafnidiaeth"



"Mynediad i swyddi uwch"



"Cartrefi ansawdd gwell"



*Dim ar gael yn y Gymraeg

Global technology company Thales is setting up a £20m research and development centre in Ebbw Vale. Find out more: bit.ly/2Rqk4PE @thalesgro #Thales #TechValleyProject #TechCentre #WelshGovernment @bgeffect #investinbg #EbbwVale #BGCBC @UniSouthWales @WalesBusiness




**£25m yn cefnogi cynllun i greu swyddi technoleg uwch**




# Adfywio a Datblygu Economaidd



**Cynlluniau am gartref a safle gyrru-trwodd Costa Coffee**

**Gallai cynllun unedau busnes greu 100 o swyddi yng Nglynebwy**

*Dim ar gael yn y Gymraeg

Y Prentis are recruiting #apprentice groundworkers. Find out more about the one-year #apprenticeship course.



**Y Prentis** @YPrentis
We're recruiting apprentice groundworkers! To find out more about the one-year apprenticeship course or to apply click here: bit.ly/2APQYiw The deadline for applications is Friday 1 February #Apprenticeships ...

## Gweithgareddau Allweddol

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Cardiff Capital Region

Mae'r Cyngor yn bartner gweithgar ym Margen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, rhaglen £12 biliwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a 9 awdurdod arall. Disgwylir y bydd y rhaglen yn darparu 25,000 o swyddi newydd ar draws y rhanbarth ac yn ysgogi £4 biliwn o fuddsoddiad sector preifat.

**Noswaith Wobrwyo Anelu'n Uchel 2018**

Noswaith arall wych yng Ngwobrau Anelu'n Uchel gyda phrentisiaid a chyflogwyr o'r Rhaglen Rhannu Prentisiaeth Anelu'n Uchel yn bresennol. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Glynebwy ar 29 Tachwedd 2018 gyda dros 120 o bobl yn bresennol yn cynnwys prentisiaid, cyflogwyr a phartneriaid lleol. Derbyniodd deuddeg prentis a thri chyflogwr wobrau mewn amrywiaeth o gategoriau.

**Cartrefi Newydd i Blaenau Gwent**


united welsh

Bydd cymdeithas tai wobrwyol United Welsh yn creu 23 o gartrefi ar hen safle'r Ysgol Babanod yn Sirhywi. Derbyniodd y gymdeithas tai bron £2.1m o gyllid gan Lywodraeth Cymru o'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol. Gan weithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Pendragon, bydd United Welsh yn datblygu 4 fflat un ystafell wely, 2 fflat dwy ystafell wely,13 ty dwy ystafell a 4 ty 3 ystafell wely, ar gost o dros £2.8m.

## Pam fod hyn yn bwysig

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein cymdogaethau fel eu bod yn lleoedd y mae pobl yn falch i fyw ynddynt. Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu economaidd ac adfywio er mwyn dod â swyddi, twf a chyfle i bobl a busnesau lleol.

Mae cynyddu cyflogadwyedd yn gwneud cyfraniad sylfaenol i ostwng a threchu tlodi a gwella statws economaidd yr ardal. Mae cefnogi pobl i gael a chadw cyflogaeth yn gostwng dibyniaeth ar wasanaethau cymorth yn gysylltiedig â llesiant cymdeithasol a thlodi.




## Sut y gwnaethom berfformio

Ar ddechrau 2018/19 cadwyd cynnydd ar flaenoriaethau Datblygu Economaidd ac Adfywio, fodd bynnag, gyda phenodiad Pennaeth Gwasanaeth newydd, mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r blaenoriaethau dros weddill y Cynllun Corfforaethol. Erbyn 31 Mawrth 2019, roedd y Cyngor wedi ystyried perfformiad a gweithgaredd ar bob Amcan Llesiant er mwyn dynodi llwyddiant pob maes. Ym mlwyddyn 1 cafodd y perfformiad ar gyfer Datblygu Economaidd ac Adfywio ei werthuso fel bod yn bennaf llwyddiannus gan fod 15% yn las (wedi cwblhau), 46% o'r camau gweithredu yn wyrdd (ar y targed) a 39% yn oren (tu ôl i'r targed). Wrth ystyried tueddiad o gymharu gyda'r dangosyddion perfformiad, bu gwelliant mewn dau ac nid oes gan ddau unrhyw dueddiad cymharu.


Mae Datblygu Economaidd ac Adfywio yn cefnogi nifer o raglenni rhanbarthol sy'n mynd rhagddynt o fewn yr ardal yn cynnwys Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cymoedd Technoleg a Thasglu'r Cymoedd.

# Trosolwg 2018/19

Mae'r Cyngor yn parhau i gryfhau rheolaeth a chyfleoedd amrywiaeth o unedau diwydiannol, swyddfeydd a thir masnachol ar draws Blaenau Gwent gyda:

**26 cais eiddo llwyddiannus wedi eu prosesu** yn cefnogi 2018/19 **170 swydd amser llaen**

**106 busnes wedi'u lletya ar hyn o bryd** o fewn y portffolio gyda **521 o swyddi wedi'u lletya**




**Unedau a ddefnyddir ar hyn o bryd**

(160 o 184)

Drwy gydol 2018/19, mae Blaenau Gwent wedi cefnogi tri ehangiad busnes cynhenid, sydd wedi cefnogi portffolio eiddo diwydiannol y Cyngor, a cefnogwyd gan Safle Glanio Mewnfuddsoddiad yn Hyb Menter y Swyddfeydd Cyffredinol.

---

Mae CITB (Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant adeiladu), yn gysylltiedig ag 'Aspire to Be' a 'Go Construct' wedi datblygu dau gynllun newydd a gaiff eu cyllido fel ymateb i anghenion gweithlu y diwydiant adeiladu, gan gysylltu'n uniongyrchol gydag ysgolion, drwy raglenni ac adnoddau adeiladu. Roedd Blaenau Gwent yn rhan o gynllun peilot llwyddiannus, yn darparu:

Rhaglen hyfforddiant bum diwrnod Minecraft i ddatblygu a sefydlu dysgu seiliedig mewn ysgolion yn arwain at gyfres o gystadlaethau rhwng ysgolion ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Rhoddodd diwrnod ffocws STEM hyfforddiant am ddim i ysgolion a chyflwyno amrywiaeth o gynlluniau gwers ac adnoddau mewn cyd-destun i athrawon. Bydd yr holl adnoddau yn gysylltiedig gyda'r cwricwlwm newydd ond bydd ganddynt ffocws ar yrfaoedd o fewn y sector adeiladu.

**Dim ar gael yn y Gymraeg*




Cynhaliwyd Gwobrau Busnes cyntaf Blaenau Gwent ym mis Mai 2018. Nod y Gwobrau oedd cydnabod llwyddiant unigolion entrepreneuraidd a busnesau bach a chanolig ym Mlaenau Gwent. Cafodd y Gwobrau eu croesawu gan fusnesau gyda 54 cais ar draws y categorïau dilynol gyda 22 busnes wedi eu dynodi ar gyfer y rownd derfynol (rhoddir y nifer ar y rhestr fer ym mhob categori mewn cromfachau):

- Busnes Bach y Flwyddyn (3)
- Busnes Bach neu Ganolig y Flwyddyn (5)

- Menter Gymdeithasol y Flwyddyn (3)
- Rhagoriaeth mewn Arloesedd a Thechnoleg (3)
- Busnes Gweithgynhyrchu y Flwyddyn (3)
- Rhagoriaeth mewn Masnach Ryngwladol (2)
- Busnes Manwerthu neu Wasanaeth y Flwyddyn (3)
- Busnes y Flwyddyn Blaenau Gwent

Cafodd y noswaith ei chanmol gan fusnesau lleol a Llywodraeth Cymru yn cynnwys Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi, noddwyr a rhanddeiliaid eraill. Bu'r digwyddiad yn llwyddiannus tu hwnt wrth gynyddu proffil busnesau Blaenau Gwent yn lleol a rhanbarthol.

Bu rhaglen prentisiaeth SAP yn llwyddiannus wrth sicrhau:

- 4 carfan ers mis Medi 2015, gyda 67 prentis mewn amrywiaeth o fusnesau;
- 100% o'r rhai a adawodd y rhaglen wedi cael eu cyflogi, 64% gan gyflogwyr lletya;
- 83% wedi cwblhau fframweithiau a 55% wedi symud ymlaen i HNC;
- Cyflwyno cynnig carfan 5 i Lywodraeth Cymru; a
- Ymgysylltu parhaus o fewn ysgolion.



Bu'r Cyngor yn gweithio ar ddatblygu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau i'w gymeradwyo yn 2019/20 yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghoriad llawn gyda rhanddeiliaid. Mae'r Cynllun yn cydnabod fod dull angerddol a chydweithio yn hanfodol i sicrhau llwyddiant. Yn gydnaws gyda pholisi cenedlaethol a rhanbarthol cyfredol, ynghyd â chyfleoedd buddsoddi posibl fel y Fargen Ddinesig a Cymoedd Technoleg, mae'r cynllun yn cynnig pum maes blaenoriaeth y caiff cynllun gweithredu mewnol ei ddatblygu ohonynt gyda rhanddeiliaid allweddol:

- Busnes a Chyflogwyr;
- Sgiliau ac Addysg Bellach;
- Cyflogadwyedd a Chynhwysiant Cymdeithasol;
- Addysg ac Ysgolion; a
- Datblygu a Seilwaith.

Mae'r cynllun yn anelu i leoli Blaenau Gwent wrth ddiwallu anghenion sectorau allweddol yn cynnwys Uwch Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu, Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, Adeiladu, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ac Economi Ddynol Sylfaenol.

*Dim ar gael yn y Gymraeg




O fewn y meysydd blaenoriaeth a ddynodwyd, caiff ymyriadau penodol yn mynd i'r afael â gofynion mewn STEM a Thechnoleg ac Awtomeiddio eu datblygu, yn cynnwys cyfleoedd i gynyddu sgiliau yn y gweithle a hyrwyddo prentisiaethau fel llwybr arall a chredadwy i gyflogaeth.



Rhwng 2016 a 2019 bu prosiectau mewnfuddsoddi ac ehangu sylweddol ar draws Blaenau Gwent. Mae hyn wedi cynnwys 21 mewnfuddsoddiad, yn cynnwys Thales (buddsoddiad o £20m) a chaiff 11 o gynlluniau ehangu busnesau cynhenid eu cefnogi. Er mwyn cefnogi busnesau ymhellach, mae Blaenau Gwent wedi lansio 'Hyb Busnes' sy'n wasanaeth cymorth ar-lein am ddim i fusnesau. Mae'r Cyngor hefyd yn edrych ar ymgysylltu busnesau drwy gynnal digwyddiadau a gwasanaethau. Cynhaliwyd 8 digwyddiad yn 2018/19, gyda dros 400 o fusnesau yn cymryd rhan.




Yn 2018/19 bu 19 cais llwyddiannus i Gronfa Effaith BG sy'n cynnig cymorth i fusnesau newydd. Rhagwelir y bydd y cynlluniau newydd hyn yn creu 28 swydd ym Mlaenau Gwent. Dyfarnwyd 8 cais gan Gronfa Kick Start Plus yn ystod 2018/19 gyda 8 o swyddi yn cael eu creu a diogelu 12 swydd arall. Mae'r Prosiect Cydlynu Cyflogaeth wedi cefnogi 21 cwmni gyda chyfleoedd cyflogaeth diddorol. Mae hyn wedi cynnwys 103 unigolyn newydd a gafodd eu dynodi a 54 a gafodd eu lleoli'n uniongyrchol mewn swyddi.

Effect Blaenau Gwent

Boxworks - bydd 23 cynhwysydd cludo ar longau yn gweithredu fel hyb technegol ar gyfer busnesau seiliedig ar wybodaeth yn y diwydiannau creadigol, technolegau digidol, ymchwil a datblygu, ynni, technegol a gwasanaethau busnes proffesiynol. Bydd y 'podiau menter' hyn yn unigryw ac arloesol gan adlewyrchu newid yng nghynnig cynnyrch y Cyngor o gymharu gyda gweithdai/unedau diwydiannol traddodiadol a swyddfeydd. Bydd yr unedau hefyd yn gweithredu fel hyb ar gyfer busnesau i ddatblygu ac yna symud i swyddfeydd gwerth uwch.



**2018/19**

wedi gweld darpariaeth lwyddiannus y Rhaglen Grant Tai Gymdeithasol yn gyfanswm o

**£3,525,565.46**

yn cyfrannu at gostau datblygu chwe chynllun fydd yn darparu 163 cartref fforddiadwy.

- Mae'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygiad Golwg y Bryn ym Mrynserth gyda d **100 o gartrefi (30 fforddiadwy).**

Yn 2018/19 cafodd y Prosbectws Tai ei gymeradwyo ac mae digwyddiad lansio ar y gweill ar gyfer chwarter 1 2019/20 er mwyn ymgysylltu prynwyr tai a darpar adeiladwyr tai a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael.

Mae gan y Cyngor ymrwymiad i reoli rhaglen darpariaeth tai wedi'i chynllunio'n dda i ganiatau cyflenwad da o lety addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gyda'r nod o:

- Diwallu anghenion aelwydydd bregus
- Gwella ansawdd a safonau cartrefi
- Gwella'r cyflenwad o gartrefi newydd i'w prynu a'u rhentu

**Er mwyn mynd i'r afael â'r Rhaglen Darparu Tai mae amrywiaeth o fesurau yn eu lle i ateb yr heriau allweddol hyn:**

- Lansio'r Prosbectws Tai, fel dull ar gyfer ymgysylltu â'r sector tai ac yn anelu i roi sylw i'r buddion niferus o ddatblygu o fewn Blaenau Gwent, yn cynnwys manteisio ar gyfleoedd adfywio ehangach fel Bargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, seilwaith trafnidiaeth drwy Metro a gwneud Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol, Parth Menter, Cymoedd Technoleg a Thasglu'r Cymoedd.
- Rheoli Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol i gefnogi cyflenwi darpariaeth tai fforddiadwy.
- Ymchwilio cyfleoedd gweithio ar y cyd i ysgogi cyfleoedd datblygu, yn cynnwys datblygiadau newydd, cyfleoedd hunan-adeiladu ac unedau gwag.
- Adolygu'r Strategaeth Tai a datblygu cynllun darpariaeth yn amlinellu'r ffocws strategol a chyfleoedd datblygu yn y dyfodol.

## Teithio Llesol

Rhoi cyfle i bobl roi sylwadau ar lwybrau teithio llesol arfaethedig a chyfredol (cerdded, rhedeg a seiclo) o amgylch y Fwrdeistref

**25** digwyddiadau ymgysylltu
**292** arolwg cyhoeddus
**224** ar-lein
**68** arolwg papur ac 1 e-bost

**Ardaloedd eang ymateb**

| | |
|---|---|
| Abetyleri **8%** | Nantyglo & Blanau **6%** |
| Brynmawr **14%** | Tredegar **22%** |
| Glynebwy **36%** | Tu allan i BG **3%** |

*Astudiaeth Achos*

# Ysbrydoli Myfyrwyr STEM

Ym mis Chwefror 2019, mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru a nawdd ychwanegol gan Celtic Horizons, Linc Cymru, Tai Calon ac United Welsh, cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad Ysbrydoli Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) i roi sylw i ac arddangos yr ystod eang o lwybrau gyrfa STEM sydd ar gael i bobl ifanc heddiw, gan gynorthwyo wrth lywio dewisiadau pwnc.

Mynychodd dros 400 o fyfyrwyr Blwyddyn 8 a 9 o bob rhan o Blaenau Gwent y gweithgareddau STEM rhyngweithiol a aliniwyd i gyfleoedd gyrfa hysbys ac a ddarparwyd gan 38 o fusnesau a chyflogwyr.

Canfu'r myfyrwyr a fynychodd ddigwyddiad Ysbrydoli ef yn fanteisiol i wella eu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa STEM yn y dyfodol o fewn Blaenau Gwent ac ar draws Cymru.

Cafodd y cysylltiadau rhwng pynciau STEM a diwydiant eu harddangos yn glir ar hyd y digwyddiad, oedd hefyd yn rhoi sylw i fanteision prentisiaethau fel llwybr arall heblaw Addysg Uwch. Mae cyfleoedd i ehangu'r diwydiant yn cael eu hymchwilio yn y dyfodol.

*Dim ar gael yn y Gymraeg









# Sut y perfformiodd 'Datblygu Economaidd ac Adfywio' 2018/19

Mae'r Cyngor wedi dynodi nifer o fesurau performiad ar gyfer pob Amcan Llesiant i ddangos pa mor dda mae darparu'r Amcanion Llesiant yn mynd. Cawsant eu rhannu gan ddangosyddion lleol a chenedlaethol. Lle'n bosibl, mae'r Cyngor wedi cymharu'r dangosyddion lleol gyda pherfformiad y llynedd. Caiff y dangosyddion cenedlaethol, a gaiff eu galw yn Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, eu cyflwyno'n flynyddol i Data Cymru gan bob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd a gellir ei chymharu ar draws Cymru.

| Mesurau Cenedlaethol Atebolrwydd Cyhoeddus | |
|---|---|
| **13fed yng Nghymru** am ddod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd, mae hyn yn welliant o 3 safle o gymharu â'r llynedd. |  |
| **21ain yng Nghymru** am nifer cyfartalog dyddiau calendar a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. |  |
| **3ydd yng Nghymru** am benderfynu ceisiadau cynllunio o fewn y cyfnodau gofynnol. Perfformiodd yn dda am yr ail flwyddyn yn olynol, yn gysurus uwch na chyfartaledd Cymru. |  |
| **14eg yng Nghymru** am ganran apeliadau yn erbyn penderfyniadau cais cynllunio a wrthodwyd, o gymharu â dod yn 6ed yng Nghymru y llynedd. Mae nifer isel iawn o apeliadau (11 eleni) yn ei gwneud yn rhwydd i'r ffigur hwn amrywio. |  |

| Mesurau Cynllun Corfforaethol | |
|---|---|
| 73 o dai newydd wedi eu cwblhau eleni (65 ty a 6 fflat) o gymharu â 50 y llynedd (48 ty a 2 fflat) |  |
| Fe wnaeth y cyngor gefnogi 19 busnes newydd eleni o gymharu gyda 14 yn 2017/18 |  |
| Mae gofod llawr a ddefnyddiwyd yn unedau busnes y Cyngor wedi cynyddu i 93% eleni, 8% ychwanegol o gymharu â'r llynedd. |  |

*** Gallwch weld mwy o wybodaeth perfformiad yn www.mylocalcouncil.info*


**Ni fedrir cymharu pob mesur gan y gall y ffordd y cânt eu cyfrif newid flwyddyn ar flwyddyn*

| Mesurau'r Cynllun Corfforaethol |
| --- |
| 73 o dai newydd wedi eu hadeiladu eleni (65 ty a 8 fflat) o gymharu â 50 y llynedd (48 ty a 2 fflat) |
| Cefnogodd y cyngor 19 o fusnesau newydd eleni o gymharu gyda 14 yn 2018/19 |
| Mae gofod llawr unedau busnes y Cyngor a ddefnyddiwyd wedi cynyddu i 93% eleni, 8% ychwanegol o gymharu â'r llynedd |
| Ym Mlaenau Gwent roedd 73.5% (32,700) yn economaidd weithgar, sy'n welliant ar y llynedd pan oedd y ffigur yn 71% (31,700) |
| Gwryw 74.9% (16,700) |
| Benyw 72.2% (16,000) |
| Yr incwm blynyddol cyfartalog ym Mlaenau Gwent yw £25,116<br>Enillion fesul wythnos gweithwyr llawn-amser £483.20<br>Enillion fesul awr gweithwyr llawn-amser £12.03<br>Ffynhonnell: Ystadegau Swyddogol Marchnad Lafur NOMIS |
| Canran busnesau newydd a gefnogir sy'n parhau i fasnachu ar ôl 12 mis 87.5% |
| 31 o unedau tai fforddiadwy wedi eu cyflenwi yn 2018/19 |
| 10 prentisiaeth wedi dechrau rhaglen ddysgu yn 2018 |
| Cyfanswm nifer prentisiaethau oedd yn dysgu ym Mawrth 2019 yn 56 |
| Canran prentisiaid sydd wedi cwblhau fframwaith o Garfan 1 yn 89% |
| Canran prentisiaid o garfan 1 a gaiff eu cyflogi 78% |
| Canran prentisiaid sydd wedi symud ymlaen i fframwaith uwch o ddysgu yn 50% |
| Caiff dangosydd ar fewnfuddsoddiad ei ystyried fel rhan o raglen Pontio'r Bwlch |
| Caiff dangosydd ar effeithiolrwydd ynni ei ystyried fel rhan o raglen Pontio'r Bwlch |
| Mae dangosydd ar seilwaith digidol yn cael ei ystyried ar gyfer y dyfodol |

***You can view more performance information at www.mylocalcouncil.info* **Not all measures can be compared as the way they are counted can change year-on-year.*

# Gweithgaredd Allweddol ers Ebrill 2019

*Dim ar gael yn y Gymraeg




Cafodd Prosbectws Tai Darganfod Blaenau Gwent ei lansio'n llwyddiannus ym mis Mai 2019 gan yr Aelod Gweithredol dros Adfywio. Roedd dros 20 o gynrychiolwyr o'r sector tai yn bresennol yn y digwyddiad yn cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Cwmnïau Preifat Cyfyngedig, Busnesau Bach a Chanolig ac ymgynghorwyr cynllunio. Mae'r lansiad wedi ysgogi ymholiadau am dir gan ddarpar ddatblygwyr.

*Dim ar gael yn y Gymraeg




Cafodd Strategaeth Menter Blaenau Gwent ei drafftio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Menter (sector preifat). Defnyddiwyd UKCE bewing i fesur cyfraddau sefydlu a goroesi. Caiff y gefnogaeth a roddir i fusnesau newydd a busnesau eraill ei gynyddu drwy waith partneriaeth gydag asiantaethau ac arbenigwyr cymorth busnes.

Cafodd Prosbectws Ynni Blaenau Gwent ei ddrafftio. Bydd angen i hyn gael ei gytuno yn y Cyngor cyn y gellir ei ddosbarthu i'r farchnad i ddynodi cyfleoedd buddsoddi. Mae Blaenau Gwent gyda phedwar awdurdod cyfagos wedi sicrhau hyd at £450,000 o gyllid drwy'r Swyddfa ar gyfer Cerbydau Allyriad Isel (ISAV) ar gyfer gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn 30 safle o fewn ardaloedd y pump awdurdod lleol. Mae'r gwaith hefyd wedi dechrau ar gyflenwi rhaglen £4.1 miliwn i osod mesurau effeitholrwydd ynni mewn adeiladu ledled portffolio'r Cyngor. Yr adeiladau a gynhwysir o fewn y rhaglen yw adeiladau corfforaethol, ysgolion, adeiladau'r Ymddiriedolaeth Hamdden a goleuadau strydoedd.





***Cydweithio*** **drwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a G10, Tasglu Cymoedd a VRP yn mynd rhagddo**



***Long Term*** **erbyn 2033, bydd Cynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent yn cefnogi cyflenwi rhwydwaith o gymunedau cysylltiedig, cynaliadwy ac egniol yn y cymoedd sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau preennol a chenedlaethau'r dyfodol.**



Mae'r Prosbectws Tai yn rhoi dull ar gyfer hyrwyddo amrywiaeth o safleoedd datblygu tai o fewn Blaenau Gwent. Mae'n ffordd o ymgysylltu'n rhagweithiol gyda datblygwyr mewn ymdrech i ysgogi datblygiadau tai lleol a mynd i'r arael â'r heriau sy'n ein wynebu ar hyn o bryd.

Yn 2019 mae'r Cyngor wedi cymryd rhan wrth gynnal gwaith sylweddol ar y Cymal Cymdeithasol sydd wedi cynnwys mynd ati i ddynodi cyfleoedd budd cymunedol o fewn contractau'r Cyngor ac mae hyn wedi cynnwys gwaith ar:

**Cerrig Aneurin Bevan:**

- Creu un cyfle cyflogaeth—1 contract 16 awr;
- 12 hyfforddai TAFFY;
- Dau gerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (hyfforddiant a phrawf);
- 12 hyfforddiant codi a chario; a
- 10 busnes lleol yn rhan o'r gadwyn cyflenwi, yn gyfanswm gwerth o £14,868.42.

**Cwm Tawel:**
Compost am ddim i ysgolion a grwpiau cymunedol e.e. sesiynau bioamrywiaeth Ysgol Gynradd Cwm yn gwella tir ysgolion drwy greu gwelyau hadau blodau wyllt.

**Ymgysylltu gyda landlordiaid cymdeithasol sy'n gweithredu'n lleol i gyflenwi buddion cymunedol**

- **Linc**
  Llys Glyncoed; dau gyfle cyflogaeth newydd, dau ymweliad gan Goleg Gwent i'r safle, pum digwyddiad cymunedol yn cynnwys dau ddiwrnod rhyng-genhedlaeth a gynhaliwyd gyda chyfleuster gofal ychwanegol ac ysgolion cynradd lleol; a

- **Gwaun Helyg**
  un prentis (Y Prentis), oriau a wirfoddolwyd i gefnogi gwaith bio-amrywiaeth, gwelliannau i feysydd pêl-droed lleol.

Cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid Blaenau Gwent ym mis Gorffennaf 2019 oedd yn cynnwys sesiwn yn canolbwyntio ar edrych i'r dyfodol—cynyddu cyfleoedd i'r eithaf ar gyfer ffyniant, gydag Adfywio yn rhan. Bydd y digwyddiad i randdeiliaid cyflogaeth a sgiliau a gynhelir ym mis Medi 2019 yn dilyn ac yn ategu'r flaenoriaeth yma a bydd yn cynorthwyo wrth ddatblygu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Blaenau Gwent.

## Gweithgareddau Allweddol

Mae gan y Cyngor gyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20 o

# £145m

gydag arbedion wedi eu cytuno o £3.4m

Mae'r canran o Adroddiadau/ Ceisiadau Gwasanaeth a dderbyniwyd drwy ddulliau digidol wedi cynyddu

Dros y 12 mis diwethaf mae'r Cyngor wedi cysylltu gyda dros

# 7,000 o bobl

drwy arolygon a chyfranogiad wyneb i wyneb

# 240,956

o bobl wedi ymweld â'r wefan llynedd, cyfanswmo

**1.35m** pedrychiad tudalen

# Toriadau i nifer y cynghorwyr a gaiff gefnogaeth

## Yr hyn a ddywedoch wrthym...






Peidiwch anghofio am y bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd




*Gallwn roi gwybodaeth bwysig am newidiadau i wasanaethau'r cyngor fel maent yn digwydd i breswylwyr drwy ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol.*

**Blaenau Gwent CBC** @BlaenauGwentCBC · Dec 4
Due to emergency electrical repairs the benefits customer services at the civic centre is unavailable and the cash desk is closed until further notice. Apologies for any inconvenience. We will keep you updated when we have more information.

**Blaenau Gwent CBC** @BlaenauGwentCBC · Dec 7
We are at Ebbw Vale Market today (10.30am – 12.30pm) and Abertillery Tesco (4.30pm – 6.30pm) to talk about the Council's Budget for 2019/20 and the no side waste enforcement scheme.

# Cyngor Effeithlon



### *Elisha Parsons*

Maer Ieuenctid Blaenau Gwent 2018-19



*Dim ar gael yn y Gymraeg

**NEWS IN BRIEF**

**Council award**

BLAENAU Gwent Council has received an award from the Welsh Local Government Association (WLGA) in recognition of the support it provides to councillors.

The council has met or exceeded the requirements for the award which include IT provision and support, development including training opportunities and code of conduct.

The award was presented to chairwoman Mandy Moore at a full meeting of the council on Thursday.

*Dim ar gael yn y Gymraeg

**Universal Credit**

BLAENAU Gwent council is continuing to provide support for anyone affected by the roll-out of Universal Credit, which came to the borough on Wednesday, July 18.

Information is available at blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/universal-credit or by calling 01495 353398 or emailing benefits@blaenau-gwent.gov.uk

***Gweithredir y Credyd Cynhwysol ym Mlaenau Gwent ar 18fed Gorffennaf – ydych chi'n barod?***

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

UC Universal Credit Credyd Cynhwysol

**Beth yw Credyd Cynhwysol?**

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal newydd i bobl oedran gweithio sydd ar incwm isel neu'n ddi-waith ac mae'n disodli:

***Budd-dal Tai, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant.***

**A fydd yn effeithio arnaf i?**

Gallwch hawlio Credyd Cynhwysol os ydych chi:

- ***Rhwng 18 a 65 oed.***
- ***Ar incwm isel neu'n ddi-waith.***
- ***Ddim mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn .***

**Beth sydd Angen i mi ei Wneud?**

Bydd angen y canlynol arnoch chi:

- ***Mynediad i gyfrifiadur a chyfrif e-bost***
- ***Cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd ar gyfer eich taliadau.***

**Sut Allwn Ni Eich Helpu?**

Gall y Tîm Cymorth Cynhwysol eich helpu chi i sefydlu cyfrif e-bost ac i'ch cefnogi i hawlio Credyd Cynhwysol. Gallwn hefyd gynnig ***Cymorth Digidol a Chymorth Cyllidebu Personol*** i'ch helpu i wneud y mwyaf o'ch incwm misol

**PEIDIWCH AG ANGHOFIO EICH TRETH GYNGOR A'CH PRYDAU YSGOL AM DDIM**

Bydd angen i chi wneud cais ar wahân ar gyfer Lleihau'r Dreth Gyngor **A** Phrydau Ysgol am Ddim oherwydd **NI FYDDANT** yn cael eu talu gan eich taliadau Credyd Cynhwysol. Os ydych chi'n credu y gallech fod â hawl i gymorth i dalu'ch Treth Gyngor ac ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, cysylltwch â ni.

**Ydych Chi'n Denant Preifat?**

Mae'r gyfraith bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord gael ei gofrestru ac mae asiantau a landlordiaid hunan-reoli yn cael eu trwyddedu. Os ydych chi'n rhentu'ch cartref gan landlord preifat, bydd y gyfraith hon yn effeithio arnoch chi.

Gall Rhentu Doeth Cymru eich helpu gyda: Gwiriadau Eiddo, Adroddiadau Anhysbys a Chanllawiau Tenantiaid.

I ddarganfod mwy, ewch i https://www.rentsmart.gov.wales neu ffoniwch ***03000 133344 neu*** cysylltwch â'r **Ganolfan Cyngor Tai**, 20 Church Street, Glyn Ebwy. NP23 6BG. ***Ffôn: 01495 354600.***

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rachael Davies, Glen Major neu Simon Shorthouse o'r Tîm Cymorth Cynhwysol ar 01495 353398**

**neu e-bostiwch** benefits@blaenau-gwent.gov.uk

*A better place to live and work— lle gwell I fyw a gweithio*

## Penawdau

**Maer Ieuenctid newydd i Flaenau Gwent**
Ym mis Tachwedd cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad sefydlu i groesawu'r Maer Ieuenctid newydd, Elisha Parsons o Lynebwy.

**Cynnig i ostwng nifer cynghorwyr**
Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi croesawu cynnig gan y Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau i ostwng nifer y cynghorwyr a wardiau etholiadol yn y bwrdeistref sirol. Os yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r cynnig, byddai nifer yr aelodau etholedig yn gostwng o 42 i 33, a wardiau etholiadol o 16 i 14.


**Credyd Cynhwysol**
Gweithredwyd y Credyd Cynhwysol ar draws Blaenau Gwent ym mis Gorffennaf 2008, a thrwy gyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gallodd yr Awdurdod Lleol gefnogi preswylwyr oedd yn gorfod gwneud hawliad llwyddiannus. Cafodd dros 500 o bobl oedd angen Cymorth Cyllidebau Personol a Chymorth Digidol gyda Chymorth eu cefnogi hyd at 31 Mawrth 2009, llawer mwy na'r targedau a ragwelwyd.

**Cyllideb y Cyngor**
Cytunodd y Cyngor ar ei Gyllideb ar gyfer 2019/20 gan fuddsoddi a gwarchod gwasanaethau rheng flaen tebyg i ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol, a throi goleuadau stryd ar briffyrdd yn ôl ymlaen tan ganol-nos. Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2018/19 yn dangos amrywiad anffafriol o £71k o gymharu â chyfanswm cyllideb o £145m, mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Gwobr WLGA i Flaenau Gwent**
Derbyniodd Cyngor Blaenau Gwent wobr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) am Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Cafodd y Cyngor ei gydnabod am y gefnogaeth y mae'n ei rhoi i aelodau etholedig i'w galluogi i gyflawni eu swyddi'n effeithlon ac wedi cyflawni neu ragori ar ofynion WLGA.

# Pam fod hyn yn bwysig

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn rhoi ffocws ar gyfer sicrhau newid gwirioneddol a pharhaus i'n Bwrdeistref. Mae hefyd yn llwyfan ar gyfer trawsnewid Blaenau Gwent i fod yn gyngor mwy hyderus a galluog. Ein huchelgais yw sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer pobl Blaenau Gwent a seiliwyd yr uchelgais honno ar gynlluniau cadarn a chynaliadwy, gan sicrhau y gellir dal y Cyngor i gyfrif am yr hyn y mae wedi addo ei sicrhau. Mae cynyddu effaith ein hadnoddau i'r eithaf yn greiddiol i'r flaenoriaeth hon. Mae hyn yn cynnwys deall ein costau, rheoli gwariant, cynyddu ein hincwm i'r eithaf ac alinio ein hadnoddau gydag anghenion ein preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr i adeiladu Blaenau Gwent ar gyfer y dyfodol.




# Sut y gwnaethom berfformio

Bu cynnydd gydol 2018/19 at weithredu blaenoriaethau Cyngor Effeithiol ond cydnabyddir fod mwy o waith ar ôl i weithredu'r nodau ac amcanion yn llawn.

Erbyn 31 Mawrth 2019, roedd y Cyngor wedi ystyried perfformiad a gweithgaredd ar bob Amcan Llesiant er mwyn dynodi llwyddiant pob maes. Ym mlwyddyn 1 cafodd perfformiad Cyngor Effeithol ei werthuso fel bod yn bennaf lwyddiannus gan fod 67% o'r camau gweithredu ar wyrdd, 29% yn oren (tu ôl i'r targed) a 4% yn goch (pryderon sylweddol). Wrth ystyried tueddiadau chwarterol ar y dangosyddion perfformiad, bu gwelliant mewn 5 a gostyngiad mewn 1.

Mae edrych ar ddull i weithio mewn ffordd gost effeithlon ac effeithiol ar draws y Cyngor yng nghanol y flaenoriaeth Cyngor Effeithol. Gelwir y prosiect uchelgeisiol hwn yn 'Pontio'r Bwlch' ac mae'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r rhaglen weithgaredd yma'n edrych ar gyngor sydd â ffordd fwy fasnachol o ddarparu ei wasanaethau. Gwelir cynnydd y prosiect dros weddill y Cynllun Corfforaethol.

Fe wnaeth perfformiad ariannol y Cyngor wella yn 2018/19. Gellir gweld hyn mewn cyllideb refeniw gytbwys a lefel gynyddol o gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn adlewyrchu rheolaeth ariannol gryfach ar draws y sefydliad sy'n hanfodol i ddod yn Gyngor mwy effeithiol.

# Trosolwg 2018/19

Mae'r Cyngor wedi gweithio i gryfhau ei arweinyddiaeth drwy gynnal adolygiad o gapasiti Uwch Reolaeth. Mae hyn wedi arwain at rai newidiadau i'r strwythur rheoli, yn cynnwys penodi Prif Swyddog Masnachol newydd, sydd â'r rôl o gefnogi'r Cyngor i ddod yn fwy uchelgeisiol yn fasnachol.

Cynhaliwyd adolygiad llawn o gapasiti a chyfrifoldebau uwch reolwyr drwy gydol 2017/18 a 2018/19. Arweiniodd hyn at arbediad cost o £500k a gostyngiad yn nifer yr uwch swyddogon rheoli. Rhoddodd yr adolygiad hefyd gyfle i ystyried lle byddai ffocws blaenoriaethau'r Cyngor yn y dyfodol.

Gall cynnwys buddion cymunedol priodol o fewn contractau caffaeliad cyhoeddus ysgogi buddion sylweddol i gyrff y sector cyhoeddus, yr economi lleol a'r cymunedau a wasanaethant. Mae buddion cymunedol eisoes yn rhan o bolisi caffael y Cyngor a cheisir cyfleoedd drwy gymalau cymdeithasol o fewn dogfennau contract perthnasol.

Mae gan y Cyngor hanes o sicrhau a hwyluso buddion cymunedol, yn arbennig ar brosiectau adeiladu mawr e.e. Y Gweithfeydd a Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif.



Mae'r Cyngor wedi gwella ei reolaeth ariannol ac mae wedi sicrhau Cyllideb Refeniw gytbwys ar gyfer 2018/19 a hefyd gynnydd mewn Cronfeydd Cyffedinol wrth Gefn. Mae rheolaeth ariannol gryfach yn awr yn amlwg ar draws pob gwasanaeth.



Mae'r Strategaeth Ymgysylltu 'Ein Dull Ymgysylltu' yn nodi ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu a chefnogi'r Cynllun Corfforaethol (2018-2022) yn cynnwys ymrwymiad i barhau rhaglen o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae'r strategaeth yn amlinellu manteision ymgysylltu effeithlon ar gyfer y Cyngor a hefyd y rhai sy'n ymgysylltu gyda ni, wedi eu seilio ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru gyday **6 ymrwymiad allweddol:**

**Cynllunio   Cadw pethau'n syml   Cynnwys   Adborth   Galluogi   Dysgu**

Cafodd datblygiad y strategaeth ei lywio gan ganfyddiadau Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2018. Prif ganfyddiad adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru oedd:

> “Mae'r Cyngor yn ymroddedig a brwdfrydig am ymgysylltu gyda'r gymuned ac yn cydnabod maint yr her.”

Yn unol â chyflwyno Strategaeth Datblygu Sefydliadol y Cyngor, cyflwynwyd cynllun buddion gweithwyr cyflogedig yn 2018. Mae'r cynllun yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnig cyflogaeth y Cyngor ac, mewn amgylchiadau, yn rhoi cyfle i wneud arbedion cost uniongyrchol fel canlyniad i gyfraniadau yswiriant cenedlaethol is ar gyfer y gweithiwr cyflogedig a'r cyflogwr fel ei gilydd.

Cynhaliwyd arolwg o staff y Cyngor (ac eithrio athrawon) i fesur barn y Cyngor fel cyflogwr a hefyd i ddynodi meysydd lle gellid gwneud gwelliannau.

Yn 2018 cynhaliodd y Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau yng Nghymru ymgynghoriad i adolygu'r trefniadau etholiadol ar draws Cymru. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ystyried y cynllun a chynigion.

Cynnig y Cyngor a roddwyd i Lywodraeth Cymru oedd gostwng nifer y cynghorwyr o 42 i 34, nifer y wardiau etholiadol o 16 i 14, a diwygio ffiniau mwyafrif y wardiau etholiadol.

Seiliwyd y trefniadau diwygiedig ar ffigurau etholiadol a sicrhau gwell cydraddoldeb etholiadol. Os caiff y trefniadau newydd eu cymeradwyo'n ffurfiol, cânt eu gweithredu o 2022.

**726** o staff wedi cymryd rhan, **cyfradd ymateb o 45%,** wedi cynyddu o **33% yn 2016**.



Caiff cynlluniau gweithredu i drin unrhyw feysydd a ddynodwyd eu datblygu a gweithredu a bydd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar draws y Cyngor i drafod y canfyddiadau a chynnydd y dyfodol.



Gellir mesur y nifer sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn ôl nifer y gweithwyr cyflogedig sy'n cofrestru ar wefan Rewards staff Blaenau Gwent fel sy'n dilyn:

| Cyfnod | Nifer a gofrestrodd | % o'r gweithlu | Prif gyfanswm |
|---|---|---|---|
| Mis 1af | 1189 | 38.87% | 38.87% |
| 2il Chwarter | 354 | 11.57% | 50.44% |
| 3ydd Chwarter | 92 | 3.01% | 53.45% |
| **Cyfanswmar 31/03/2019** | **1635** | - | **53.45%** |

Dywedodd ychydig dros draean y staff a lenwodd yr arolwg staff eu bod yn defnyddio'r cynllun buddion staff i gael disgownt ar siopa, bwytai ac atyniadau gyda 15% o staff yn ei ddefnyddio'n rheolaidd (bob mis). Ar gyfer y rhai a ddefnyddiodd y cynllun, dywedodd, **71% ei fod yn dda neu'n rhagorol.**




Mae adroddiad "Uchelgais Cudd" Comisiynydd Plant Cymru yn argymell y dylid cynnig cefnogaeth i ymadawyr gofal hyd at 25 oed. Yn ychwanegol, mae adroddiadau ac ymgyrchoedd diweddar, yn arbennig gan y Gymdeithas Plant, wedi dynodi er bod amrywiaeth o anfanteision unigryw i ymadawyr gofal, eu bod yn neilltol o fregus yng nghyswllt dyled treth cyngor. Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo mabwysiadu Polisi Cymorth ar Ddisgresiwn ar y Dreth Gyngor sy'n galluogi cefnogaeth barhaus i ymadawyr gofal hyd at 100% o Dreth Gyngor ar ddisgresiwn.

Adeg yr adroddiad roedd 20 o ymadawyr gofal ym Mlaenau Gwent, y mae gan y Cyngor gyfrifoldebau rhianta corfforaethol drostynt oedd yn agored i dalu'r dreth gyngor, a gallent fod â hawl i wneud cais am y Cymorth ar Ddisgresiwn ar y Dreth Gyngor. Mae 12 yn derbyn cymorth o 100% ar hyn o bryd drwy'r Cynllun Gostwng y Dreth Gyngor y mae prawf modd arno. Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, mae cost net i'r Cyngor o ddyfarnu'r cymorth ar ddisgresiwn hwn i'r 8 arall tua £5,000 ar gyfer 2018/19.

Mae gwella presenoldeb yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac mae'n gysylltiedig gyda'r angen i greu arbedion a gwella darpariaeth gwasanaeth rheng flaen. Dynodwyd fod absenoldeb salwch yn risg allweddol ar draws y Cyngor a chydnabyddir y bydd lefelau cymharol uchel o absenoldeb salwch yn cael effaith niweidiol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau'n effeithlon. Er mwyn mynd i'r afael â hyn sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen Aelodau Etholedig. Dynododd y grŵp fod y polisi presennol yn addas i'r diben ond bod angen cynnwys rhai fân feysydd yn y polisi. Cymeradwywyd y Polisi Rheoli Presenoldeb diwygiedig ym mis Chwefror 2019.



Cyflwynodd Cyngor Blaenau Gwent gais i WLGA eleni i ystyried derbyn Siarter Cymru am Gefnogaeth a Datblygu Aelodau. Cafodd Blaenau Gwent gdarnhad ym mis Awst 2018 ei fod yn llwyddiannus. Yn y llythyr ysgrifennodd WLGA:

'Hoffai WLGA ganmol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent am eich cyflwyniad ardderchog i adnewyddu Siarter Cymru am Gefnogaeth a Datblygu. Mae'r wybodaeth a'r dystiolaeth a roddwyd yn dangos yn glir y cafodd yr holl feini prawf eu diwallu neu y rhagorwyd arnynt, gan ddangos fod y trefniadau gofynnol ar gyfer cefnogi a datblygu aelodau yn ei le'.

**Her Cyllideb**

Darparu'r gwasanaethau Cyngor pwysicaf i breswylwyr fel rhan o'r broses gosod Cyllideb ar gyfer 2019/20 a gyflwynir i'r Cyngor.

**7** digwyddiad galw heibio mewn canol trefi ledled y fwrdeistref

**603** o bobl wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau

*Astudiaeth Achos*


# Uwch Gyngor Plant

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Uwch Gyngor Plant yng Ngholeg Gwent, Glynebwy ym mis Hydref 2018. Cymerodd dau blentyn o bob un o ysgolion cynradd Blaenau Gwent ran yn y digwyddiad i nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn y digwyddiad, a gefnogwyd gan ganghennau lleol y Lleng Brydeinig Frenhinol a Chatrawd y Cymry Brenhinol, cymerodd y plant ran mewn amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys Gweithdy Pabi, a hwyluswyd gan Adran Celf Coleg Gwent, Dril Gorymdeithio ac ail-gread o'r Rhyfel Byd Cyntaf.







*Astudiaeth Achos*

# Dyfodol Gwent - Cynllunio ar gyfer ein dyfodol

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn cymryd rhan mewn prosiect ar y cyd o'r enw Dyfodol Gwent drwy Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent. Mae'r prosiect blaengar hwn yn helpu i ymateb y gofyniad gwasanaeth cyhoeddus i feddwl yn yr hirdymor.

Mae'r prosiect, a ddechreuodd yn 2017/18, yn defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru yn edrych i ddynodi bylchau yn ein gwybodaeth ar dueddiadau'r dyfodol a'u canlyniadau ar wasanaethau cyhoeddus yng Ngwent.

Yn dilyn proses dendro lwyddiannus, cynhyrchodd Ash Futures gyfres o astudiaethau achos ar dueddiadau dyfodol ac ystyriodd gyfres o sefyllfaoedd cyhoeddus lle gall gwasanaethau cyhoeddus fod angen ymateb iddynt yn y dyfodol.

Yn 2018/19, dechreuodd y prosiect gyda chynhadledd ranbarthol lwyddiannus. Rhoddodd Samuel Taylor, Maer Ieuenctid Blaenau Gwent, anerchiad i dros 80 o swyddogion gwasanaethau cyhoeddus o bob rhan o'r rhanbarth ar bwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

Yn dilyn hyn, cynhaliodd pob un o'r pump ardal awdurdod lleol weithdy lleol gyda'r bwriad o ledaenu'r wybodaeth a gasglwyd ac ystyried sut y gall pob ardal ymateb. Yn lleol roedd y ffocws ar gynyddu cyfleoedd ar gyfer ffyniant, ac fe'i cynhaliwyd ym mis Ionawr 2019.

Roedd y gweithdy yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid ac yn cynnwys cynrychiolydd o feysydd gwasanaeth allweddol o bob rhan o'r Cyngor yn cynnwys nifer o staff o Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio.

## Beth nesaf ar gyfer 2019/20

Mae'r prosiect yn parhau ar draws y rhanbarth gyda phob cofrestr risg cymunedol i helpu ymateb i rai o'r heriau allweddol. Ymhellach, caiff y meysydd gwasanaeth o bob rhan o'r Cyngor eu hannog i ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r prosiect i helpu datblygu strategaethau a pholisïau newydd, gyda'r Cynllun Datblygu Lleol yn enghraifft allweddol.



# Sut y perfformiodd 'Cyngor Effeithiol' yn 2018/19

Mae'r Cyngor wedi dynodi nifer o fesurau perfformiad ar gyfer pob Amcan Llesiant i ddangos pa mor dda mae darpariaeth yr Amcanion Llesiant yn mynd. Cafodd y rhain eu rhannu yn ôl dangosyddion lleol a chenedlaethol. Lle'n bosibl, mae'r Cyngor wedi cymharu'r dangosyddion lleol gyda pherfformiad y llynedd. Caiff y dangosyddion cenedlaethol, a elwir yn Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, eu cyflwyno ar sail flynyddol i Data Cymru gan bob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd a gellir ei chymharu ar draws Cymru.

*^Caiff y mesur ei gynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol*

**Ni fedrir cymharu pob mesur gan y gall y ffordd y cânt eu cyfrif newid flwyddyn ar flwyddyn*

***Gallwch weld mwy o wybodaeth perfformiad yn [www.mylocalcouncil.info](http://www.mylocalcouncil.info)*

## Mesurau Cenedlaethol Atebolrwydd Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| **21ain yng Nghymru** yng nghyswllt nifer dyddiau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn. | |

## Mesurau Cynllun Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Bu gorwariant bach yn y gwariant cyfalaf net eleni | |
| Darlun gwell ar gyfer ceisiadau gwasanaeth ar gyfer gwastaff ac ailgylchu, glanhau strydoedd, ffyrdd a goleuadau a gwasanaethau switsfwrdd gyda 25% yn defnyddio hunan-wasanaeth digidol | |
| Lefel Cronfeydd Cyffredinol wrth Gefn fel cyfran o wariant refeniw net yn 4.39% o gymharu gyda 4.29% y llynedd | |
| Roedd gwariant refeniw net o fewn 0.05% o'r gyllideb a gytunwyd eleni | |
| Mae ffioedd a thaliadau allanol fel canran o wariant crynswth wedi cynyddu | |

Yn 2018/19 derbyniodd y Cyngor:
- 86 cwyn
- 12.4 wyn fesul 10,000 o boblogaeth
- 59 neges yn canmol
- 8.5 neges yn canmol fesul 10,000 o boblogaeth

Mae cost i'r Cyngor fesul pen o boblogaeth yn cael ei ddatblygu

Ni chafodd dangosydd perfformiad i ddynodi'r canran o bobl sy'n cytuno fod eu cyngor lleol yn darparu gwasanaethau ansawdd uchel ei ddatblygu hyd yma.

# Gweithgaredd Allweddol ers mis Ebrill 2019



Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau sy'n ei wynebu yn y tymor byr, y tymor canol a'r hirdymor ac mae wedi datblygu rhaglen o Adolygiadau Busnes Strategol i ddelio gyda bylchau posibl rhwng y cyllid a'r gwariant disgwyliedig sy'n anelu i adeiladu cydnerthedd ariannol. Yn seiliedig ar themâu strategol bydd ein rhaglen Pontio'r Bwlch yn dynodi cyfleoedd am arbedion, osgoi costau posibl a ffrydau refeniw newydd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau sy'n ei wynebu yn y tymor byr, y tymor canol a'r hirdymor ac mae wedi datblygu rhaglen o Adolygiadau Busnes Strategol i ddelio gyda bylchau posibl rhwng y cyllid a'r gwariant disgwyliedig sy'n anelu i adeiladu cydnerthedd ariannol. Yn seiliedig ar themâu strategol bydd ein rhaglen Pontio'r Bwlch yn dynodi cyfleoedd am arbedion, osgoi costau posibl a ffrydau refeniw newydd.

**Mae gan y dull gweithredu bwyslais neilltuol ar:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu potensial cynhyrchu incwm a chymryd dull gweithredu amlwg fasnachol lle mae'n briodol gwneud hynny | Ymchwilio'r cyfle y gall trawsnewid digidol ei roi | Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau ac eiddo | Ystyried pa gamau y gallwn eu cymryd i ddylanwadu a gostwng galw | Edrych am gyfleoedd i gefnogi preswylwyr i wneud mwy drostynt eu hunain | Ymelwa ar y cyfleoedd i gryfhau gwytnwch ariannol drwy gefnogi twf yn y maes |



Cyflwynwyd polisi prynu gwyliau blynyddol yn ystod 2018/19 wrth gyflwyno'r Strategaeth Datblygu Sefydliadol a'r ymrwymiad i hyrwyddo iechyd a llesiant gweithwyr cyflogedig. Bwriedir i'r polisi hwn gynorthwyo gweithwyr cyflogedig i gydbwyso gwaith a bywyd cartref drwy roi mwy o hyblygrwydd yng nghyswllt amser wedi'i gynllunio i ffwrdd o'r gwaith.



Mae'n ddyddiau cynnar i brofi buddion sefydliadol y Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol; fodd bynnag efallai mai mantais mabwysiadu'r polisi hwn fu cyfraniad sicrhau arbedion cost i'r Cyngor, gostwng lefelau absenoldeb a gwella ysbryd a chymhelliant, gan alluogi gweithwyr cyflogedig y Cyngor i ymdopi â'u cydbwysedd gwaith-bywyd.

Cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o'r Cod Ymddygiad ar gyfer gweithwyr cyflogedig a chafodd ei gymeradwyo ym mis Mai 2019. Ysgrifennwyd y cod ar gyfer gweithredu busnes y Cyngor yn effeithlon a llesiant ei weithwyr cyflogedig. Disgwylir i bob gweithiwr cyflogedig weithredu yn unol â'r Cod - gall methiant i wneud hynny arwain at weithredu yn unol â Chod Disgyblaeth y Cyngor. Caiff y cod ei ddosbarthu ar draws y Cyngor drwy gydol y flwyddyn.



Rydym yn parhau i edrych am gyfleoedd i weithio'n wahanol drwy bartneriaeth a chydweithio ar draws Gwent a hefyd ar draws y sector cyhoeddus. Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi ymateb i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr adolygiad o bartneriaethau strategol. Disgwylir canfyddiadau o'r adolygiad ddechrau'r hydref a bydd yn cynorthwyo i lunio ffocws gwaith lleol.

Mae creu swydd Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfleoedd gwych i gydweithio gydag asiantaethau cyhoeddus eraill i hybu diwygio'r sector cyhoeddus. Drwy gydweithio, rydym yn dod â dysgu o sefydliadau sy'n arloeswyr digidol er enghraifft DVLA, ONS a rydym wedi gwneud cysylltiadau gyda Phrifysgol Caerdydd ac Academi Genedlaethol Meddalwedd.

Cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad Data Agored ym mis Medi 2019 ynghyd â Data Cymru i hyrwyddo rhannu data ar draws sefydliadau fel ffordd o wella dyluniad gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd. Mae hwn yn faes y bydd yr Cyngor yn edrych i mewn iddo yn y dyfodol.

Mae ffocws i weithio ar alinio ffrydiau gwaith perthnasol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthl gyda thrafodaethau busnes ar y Rhaglen Llesiant Integredig a lansiwyd yn ddiweddar dan y Gronfa Trawsnewid gan fod gan y Rhaglen hon ffocws poblogaeth gyfan.

Mae Pennaeth Gwasanaeth ar y gweithgor sy'n cefnogi llunio canllawiau statudol yng nghyswllt agweddau perfformiad a gwella'r Bil Llywodraeth Leol. Y Pennaeth Gwasanaeth yw'r arweinydd gwleidyddol ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd ac mae'n cadeirio'r grŵp cynllunio creiddiol sydd â chynllun gweithredu a chofrestr risg ac yn adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol. Mae Gadael yr Undeb Ewropeaidd ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.

Rhoddwyd cyllid WLGA i bob awdurdod lleol i gefnogi cynllun corffroraethol. Defnyddiwyd hyn drwy gyflogi Swyddog Polisi gyda phrofiad perthnasol sy'n aelod o Rwydwaith Cenedlaethol Cydlynwyr WLGA ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd. Trefnir adroddiad diweddaru yn y prosesau democrataidd ddechrau'r hydref.

CLILC • WLGA

Mae'r adran Refeniw wedi ffurfio cysylltiadau gwaith agos gyda Cyngor Ar Bopeth.
Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Cymorth Trethi Stryd Fawr a derbyniwyd cyllid grant darpariaethol o £310,000.00 gan Lywodraeth Cymru.
O hyn, dynodwyd 207 derbynnydd posibl a'u gwahodd i wneud cais am y cymorth gyda 14 cais yn chwarter 2019/20.

citizens advice

***Yn yr hirdymor*** **mae'r rhaglen Pontio'r Bwlch yn edrych ar ddarparu newid trawsnewidiol i ddiwylliant a sefydlogrwydd ariannol y Cyngor.**

# Preswylwyr nawr yn hapusach gyda glan weithdra trefi

## Gweithgareddau Allweddol

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi

**£160k**

mewn **Glanhau Strydoedd**
ar draws y fwrdeistref

Cymeradwyodd y Cyngor

**£2M**

**o fuddsoddiad**
yn y rhwydwaith priffyrdd a weithredwyd o 2018/19

Casglu llai o wastraff gweddilliol ar y **palmant** a **HWRC** yn helpu i wella cyfraddau ailgylchu

Blaenau Gwent wedi **rhagori** ar y targed ailgylchu o 58|%
ar gyfer 2018/19

Ar ôl buddsoddi arian ychwanegol yn ei gyllideb glanhau strydoedd yn dilyn adborth gan bobl leol, aeth Cyngor Blaenau Gwent i'r strydoedd flwyddyn yn ddiweddarach i ofyn os bu'n werth da am arian.





## Yr hyn a ddywedoch wrthym...

"Llai o sbwriel ar ein strydoedd"



"Ailgylchu yn rhwydd i deuluoedd"

"Dim tipio anghyfreithlon"



# Cymunedau Cryf ac Amgylcheddol Ddeallus



*Dim ar gael yn y Gymraeg


Blaenau Gwent CBC
@BlaenauGwentCBC
Following

Investing for cleaner streets.
Blaenau Gwent is committed to improving the cleanliness of the local area and has put additional resource into this priority over the last couple of years.
goo.gl/DaEYCt

10:02 am - 8 Jul 2018

Blaenau Gwent yn derbyn y cerbyd didoli ailgylchu cyntaf llwytho o'r cefn yn y Deyrnas Unedig

## Key Activities

**Gweithgareddau Allweddol**



Rhwydwaith Priffyrdd
Cymeradwyodd y Cyngor fuddsoddiad o £2 miliwn yn ei rwydwaith priffyrdd. Cafodd 107,151m2 o waith gosod wyneb ei gwblhau hyd yma gyda 12,524m2 arall ar y gweill i'w orffen yn 2019.

**Mwy o bobl yn hapus gyda chanol trefi mwy glân**




Ar ôl buddsoddi arian ychwanegol yn ei gyllideb glanhau strydoedd yn dilyn adborth gan bobl leol, aeth Cyngor Blaenau Gwent i'r strydoedd flwyddyn yn ddiweddarach i holi os bu'n werth da am arian. Dangosodd canlyniadau arolwg Golwg Strydoedd fod mwy o bobl - 56% o'r rhai a holwyd - yn awr yn hapus gyda glanweithdra eu canol tref leol ac yn credu fod hyn wedi gwella llawer dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Dim Gwastraff Ochr os Gwelwch yn dda - cynnydd mewn ailgylchu**


DIM Gwastraff Ochr Os gwelwch yn dda



Bu cam cyntaf polisi 'dim gwastraff ochr' y Cyngor yn gweithredu'n llwyddiannus mewn rhannau o Lynebwy ers dechrau Mehefin.
Nod y newid mewn polisi yw cynyddu cyfraddau ailgylchu a gostwng faint o wastraff bagiau du a gaiff ei gasglu.
Mae'r canlyniadau cyntaf yn addawol ac mae'r Cyngor wedi casglu bron 20% yn llai o wastraff bag du yn yr ardal na chyn dechrau'r polisi. Ar yr un pryd, mae'r canran o ddeunydd a gasglwyd i'w ailgylchu wedi cynyddu gan 5%.

## Pam fod hyn yn bwysig

our Mae gan Flaenau Gwent dreftadaeth gyfoethog ac mae ein hadeiladau a'n hardaoedd gwledig yn rhan o apêl Blaenau Gwent fel lle i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Dylid defnyddio ein hamgylchedd leol i helpu gwella iechyd a llesiant ein teuluoedd a chymunedau a chael ei wella i genedlaethau'r dyfodol barhau ei fwynhau. Mae hefyd wir ddymuniad i weld y cymunedau lle mae pobl yn byw yn cael eu cadw'n lân a thaclus ac y medrir eu defnyddio, gan greu ardaloedd y gall pobl fod yn falch ohonynt.




Cydnabyddir fod mwy o waith i'w wneud i weithredu'r nodau ac amcanion dros weddill y Cynllun Corfforaethol. Mae'r amgylchedd yn parhau'n flaenoriaeth uchel i'r gymuned. Mae'r Cyngor yn anelu i wella'r ardal fel ei bod yn lle i ymfalchïo pobl i fyw ynddo.

## Trosolwg 2018/19

Mae'r gwaith wedi mynd rhagddo ar wella a chynnal y seilwaith priffyrdd yn cynnwys:

Cwblhau 11.2 milltir o briffordd newydd gyda buddsoddiad o **£1.6M**

Gwelliant yng nghyfanswm % ffyrdd heb ddosbarthiad mewn cyflwr gwaels a welodd welliant o 17% cyn dechrau gwaith i 11.4% ar ôl gwaith. Mae hyn yn gyfartal â gostyngiad o 5.6% mewn ffyrdd heb ddosbarthiad mewn cyflwr gwael.

## Sut y gwnaethom berfformio

Drwy ganolbwyntio ar gyflawni'r prif flaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol, gallwn ddechrau trawsnewid Blaenau Gwent i fod yn ardal mwy llewyrchus a chroesawgar sy'n dathlu ei thraftadaeth ac yn chwarae ei rhan ar y llwyfan rhanbarthol a chenedlaethol. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hardaloedd fel eu bod yn lleoedd y mae pobl yn falch i fyw ynddynt.

Erbyn 31 Mawrth 2019 roedd y Cyngor wedi ystyried perfformiad a gweithgaredd ar bob Amcan Llesiant er mwyn dynodi llwyddiant pob ardal.

Ym mlwyddyn 1 cafodd y perfformiad ar gyfer Cymunedau Cryf ac Amgylcheddol Ddeallus ei werthuso fel bod yn bennaf lwyddiannus gan fod 63% o'r camau gweithredu yn wyrdd (ar y targed) a 37% yn oren (tu ôl i'r targed). Wrth ystyried tueddiadau gyda'r dangosyddion perfformiad, bu gwelliant mewn dau, gostyngiad mewn tri ac nid oes tueddiadau i'w cymharu gyda thri.

Bu cynnydd amrywiol drwy gydol 2018/19 yng ngweithrediad blaenoriaethau Cymunedau Cryf ac Amgylcheddol Ddeallus.

Cyflwynwyd ymgyrch ar draws y fwrdeistref ymhlith cartrefi i godi ymwybyddiaeth o orfodaeth gwastraff ochr er mwyn annog pobl i beidio rhoi eitemau y gellid eu hailgylchu yn eu gwastraff gweddilliol a chynyddu ailgylchu. Cysylltwyd gyda phreswylwyr i sicrhau fod ganddynt gapasiti digonol ar gyfer ailgylchu e.e. darparu cynwysyddion perthnasol ac os na, rhoddwyd cynwysyddion newydd/ ychwanegol iddynt.

Mae'r wardeiniaid yn parhau i helpu cymell ac annog preswylwyr i gymryd rhan lawn gyda'r gwasanaethau ailgylchu a chydymffurfio gyda'r polisi 'dim gwastraff ochr'.

Defnyddiwyd dull gweithredu mewn camau ond roedd yn ei le yn llawn erbyn diwedd 2018/19. Bydd y polisi'n cael ei orfodi o 2019 ymlaen.



## Yn 2018/19

**ailgylchodd Blaenau Gwent 59.29% o'i wastraff, gan gyflawni a rhagori ar darged Ailgylchu Llywodraeth Cymru o 58%.**

Wrth gyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi osgoi cosbau pellach ac i gydnabod y gwelliant yn ein perfformiad, cytunodd Llywodraeth Cymru i ildio'r ddirwy o £135k ar gyfer 2017/18.

Mae'r targed ailgylchu statudol yn cynyddu i 64% ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru yn 2019/20. Felly mae angen cefnogaeth barhaus preswylwyr a busnesau i ostwng faint o wastraff na fedrir ei ailgylchu a chynyddu faint o ddeunydd a ailgylchir ym Mlaenau Gwent.



Drwyddi draw bu cynnydd yn y gyfradd ailgylchu ym Mlaenau Gwent yn 2018/19 ac yn fwy amlwg felly ers cyflwyno gorfodaeth gwastraff ochr a didoli bagiau du yn y Ganolfan Gwastraff Cartrefi ac Ailgylchu (HWRC). Dengys dadansoddiad o dueddiadau fod bob amser ostyngiad mewn ailgylchu yn chwarter 3 bob blwyddyn, yn bennaf oherwydd llai o wastraff gwyrdd ac ailgylchu HWRC.

| | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Chwarter 1 | 59.47% | 56.58% |
| Chwarter 2 | 58.25% | 62.78% |
| Chwarter 3 | 53.44% | 58.89% |
| Chwarter 4 | 52.30% | *59.26% |
| **Blynyddol** | **56.00%** | ***59.29%** |

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Lleol yn talu am drin a gwaredu â gwastraff bagiau du. Wrth i breswylwyr ailgylchu mwy o wastraff, bydd llai o arian yn cael ei wario ar drin a gwaredu â gwastraff a'r incwm o werthu nwyddau ailgylchu yn cynyddu. Yn 2018/19, cafodd tua £320,000 ei arbed ar waredu â gwastraff bagiau du.

Defnyddiwyd yr arbedion a sicrhawyd ar waredu bagiau du i dalu am yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gyflwyno gorfodaeth gwastraff ochr ar y palmant a didoli bagiau du yn HWRC.



Drwy'r cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol, cafodd tua 90% o diroedd a phafiliynau cysylltedig eu trosglwyddo i grwpiau cymunedol. Mae gan y Cyngor ymrwymiad hirdymor fel landlord i'r cyfleusterau hyn i gefnogi grwpiau cymunedol ar ôl gwirfoddoli. Monitro'r cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol yw:

- 1 trosglwyddo rhydd-ddaliad cyflawn
- 21 wedi cwblhau - llofnodi trwydded/prydles;
- 16 yn gweithredu dan drwydded;
- 6 cais gweithredol ac ar y gweill;
- 1 busnes wedi methu a'r Awdurdod wedi dod ag ef yn ôl;
- 1 brydles wedi'i hildio a'i dychwelyd i'r Awdurdod.

## Gorfodaeth gwastraff ochr

Hysbysu pobl ar y polisi 'dim gwastraff ochr' newydd a gofyn am eu sylwadau ar y cynigion. Adborth i'w ddefnyddio i wneud gwelliannau i wasanaethau.

**22** digwyddiad Ymgysylltu wedi'u cynnal ledled y fwrdeistref gan ymgysylltu **3,000** o bobl.


**245** holiadur wedi'u llenwi gan y cyhoedd. Dros **1500** cais i'r cyngor am offer ailgylchu/gwastraff newydd.

**Buddsoddiad mewn glanhau strydoedd** ar draws y fwrdeistref wedi gweld perfformiad yn cynyddu o 88.3% ar gyfer strydoedd i safon uchel neu dderbyniol i 94.1%. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu gyda'r gymuned i helpu cadw'r fwrdeistref yn lân a, lle bo angen, ddefnyddio gorfodaeth i gadw tipio anghyfreithlon, baw cŵn a sbwriel dan reolaeth.



Gwnaed cais llwyddiannus i Cadw Cymru'n Daclus am gyllid grant a chaiff ei ddefnyddio i weithredu rhaglen estynedig o weithgaredd i wella ansawdd amgylcheddol Cymru a Blaenau Gwent. I gefnogi'r maes gwaith hwn, mae gan Flaenau Gwent 98 o Hyrwyddwyr Sbwriel wedi cofrestru'n swyddogol. Mae'r adran yn datblygu cylchlythyr Hyrwyddwyr Sbwriel i roi sylw i waith da gwirfoddolwyr yn ein cymuned.

**Blaenau Gwent â mynediad i ddigonedd o ofod gwyrdd** ac mae'r Cyngor yn parhau i symud yn gadarnhaol tuag at greu mwy o hygyrchedd i'r gofodau gwyrdd ac agored hyn. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol fel rhan o hyn fel dull o ddeall y gofynion mynediad a'r gwelliannau sydd eu hangen.



Rydym wedi rheoli mwy na 1.5 Ha o gynefinoedd coetir ar draws yr ardal. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol tebyg i Coetiroedd Sirhywi lle gwnaethom sicrhau £45k o incwm grant drwy Cynhwysiant Egnïol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (cynllun hyfforddiant gyda chanlyniadau rheoli coetir).

**Dan ein cyfrifoldeb statudol am Deithio Llesol,** cafodd Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y gymeradwyaeth hon, gallodd yr adran ddefnyddio £140k o gyllid grant ar gyfer datblygu a dylunio rhwydwaith.



Hefyd dan y cynllun hwn, mae 20km o lwybrau seiclo yn cael budd o welliannau mynediad a datblygir mwy o gynigion ceisiadau grant ar gyfer gwelliannau pellach i'r rhwydwaith (gwerth £1.55m).

## Golwg Strydoedd



Gofyn i bobl os ydynt wedi gweld gwelliant yng nglanweithdra'r strydoedd yn eu canol trefi a lle maent yn byw. Defnyddiwyd adborth i dargedu ardaloedd lle mae angen gwelliannau.

**7** digwyddiad ymgysylltu mewn canol trefi ar draws y fwrdeistref

**850** o bobl wedi ymgysylltu

**dros 300 arolwg** wedi eu cwblhau



***Ymgyfraniad*** Lle'n berthnasol, mae'r gwasanaeth yn sicrhau ymgynghoriad, ymgysylltu ac ymgyfraniad gyda'r cyhoedd, aelodau etholedig a phartïon a diddordeb fel rhan o ofynion darpariaeth y rhaglen Cynnal a Chadw Priffyrdd.



***Cydweithredu*** Cyflawni a rhagori ar dargedau incwm drwy gydweithredu ar Wasanaethau Technegol proffesiynol gydag awdurdodau lleol cyfagos, gan ganiatau incwm dros ben i gefnogi cyllidebau refeniw.

**Mae'r Cyngor wedi datblygu Blaengynllun Deddf Amgylchedd** er mwyn gwella a hyrwyddo bioamrywiaeth a hyrwyddo cryfder systemau eco ar draws Blaenau Gwent erbyn 2022. Er mwyn creu dull gweithredu rhagweithiol i gyflawni'r ddyletswydd, mae'r Cynllun yn ymwreiddio ystyriaeth bioamrywiaeth ac ecosystemau yng nghynlluniau busnes y Cyngor ac yn galluogi dull effeithiol ar gyfer adrodd a diwallu'r gofyniad i adrodd i Lywodraeth Cymru.



## *Astudiaeth Achos*

# Parod i'r Hinsawdd Gwent

Cysylltodd prosiect Parod i'r Hinsawdd Gwent - Casglu'r Profiad Byw gydag amrywiaeth o gymunedau ar draws Gwent i ddysgu am brofiadau pobl o newid hinsawdd. Defnyddiodd y prosiect amrywiaeth eang o dechnegau ymgysylltu a chymryd rhan i ysgogi sgyrsiau a chasglu barn sylwadau a barn pobl ar newid hinsawdd ac addasiadau hinsawdd. O fewn Blaenau Gwent, cysylltodd y prosiect gyda'r Uwch Gyngor Plant a'r Fforwm 50+.

Yng nghyfarfod yr Uwch Gyngor Plant ym mis Chwefror 2019 cymerodd disgyblion ran mewn gweithgareddau rhyngweithol yn ymchwilio pwy a dybient fydd yn gweld yr effaith fwyaf o newid yn yr hinsawdd:

Gan weithio mewn grwpiau fe wnaethant ddefnyddio technegau 'mapio meddwl' i ystyried gwahanol effeithiau hinsawdd a dynodi'r hyn a deimlent oedd y materion yr oedd mwyaf o frys arnynt. Wedyn gofynnwyd i blant ddychmygu dyfodol cadarnhaol ac ysgrifennu negeseuon i bobl Blaenau Gwent yn 2050 yn dweud wrthynt beth gafodd ei wneud i drin newid hinsawdd.

Yn olaf, gofynnwyd i'r plant ysgrifennu penawdau 15 gair ar Newid Hinsawdd, galw i weithredu ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniadau yn awr ac yn y dyfodol.

*Dim ar gael yn y Gymraeg
















*Astudiaeth Achos*

# Blaenau Gwent (BG) Ar Symud!

Cafodd prosiect BG ar Symud ei ariannu drwy gymorth grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Drwy greu 'Llwybr Ebwy Fach', llwybr teithio llesol rhwng Gwarchodfa Natur Coedwig Rhiw Sirhywi i Lofa'r Marine yn Cwm, mae'r prosiect yn anelu helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a mwy bodlon drwy wella mynediad i'r amgylchedd naturiol a'r awyr agored drwy gynyddu'r defnydd o'n hasedau naturiol drwy gerdded a seiclo.

Mae prosiect Blaenau Gwent ar Symud yn creu amodau i alluogi pobl o bob oed i deithio'n llesol a chynyddu lefelau o weithgaredd corfforaethol ar gyfer dibenion hamdden yn eu bywydau bob dydd. Drwy annog gweithgaredd corfforol a chynnal yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig, mae'r prosiect yn cyflwyno manteision lluosog ar gyfer llesiant corfforol a chymdeithasol drwy:

- Gwella iechyd corfforol a meddwl
- Cydlyniaeth gymunedol
- Cynyddu lefelau rhyngweithio cymdeithasol
- Gwarchod bioamrywiaeth
- Cynyddu ymwybyddiaeth leol o faterion newid hinsawdd a
- Gwella cyfleusterau a gwasanaethau lleol.




Er mwyn cyflawni'r manteision hyn, rydym yn cynyddu ymwybyddiaeth o Lwybr Ebwy Fawr, bioamrywiaeth leol ac unrhyw seilwatih amgylcheddol newydd a gwell. Yn ogystal ag arwain at fwy o ddefnydd o'r llwybr, disgwylir i hyn hefyd arwain at unrhyw ofodau gwyrdd cysylltiedig y mae'n rhoi porth iddynt. Caiff y dyluniadau ar gyfer unrhyw ddelweddau a gosodweithiau newydd ar hyd y llwybr eu llywio gan bobl leol, yn cynnwys plant ysgol a grwpiau cymunedol lleol.

Mae'r gwaith prosiect yn cynnwys cyflwyno gwell llwybrau, celfi stryd, arwyddion a phlannu ar hyd y llwybr - a gyflawnir ar y cyd gyda phartneriaid busnesau a phreswylwyr lleol drwy waith partneriaeth effeithlon a chyfleoedd gwirfoddoli. Tu hwnt i seilwaith gwyrdd, mae'r prosiect hefyd yn edrych ar ddatblygu cyfleoedd cynaliadwy ar gyfer pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ar hyd Llwybr Ebwy Fawr, megis casglu sbwriel, cerdded, seiclo, rhedeg a gweithgareddau natur eraill.

LLWYBR EBWY FAWR
EBBW FAWR TRAIL

# Sut y perfformiodd 'Cymunedau Cryf ac Amgylcheddol Gadarn' 2018/19

Ar gyfer pob Amcan Llesiant, mae'r Cyngor wedi dynodi nifer o fesurau perfformiad i ddangos pa mor dda mae darpariaeth yr Amcanion Llesiant yn mynd. Caiff y rhain eu rhannu yn ôl dangosyddion lleol a dangosyddion cenedlaethol. Lle'n bosibl, mae'r Cyngor wedi cymharu'r dangosyddion lleol gyda pherfformiad y llynedd. Caiff y dangosyddion cenedlaethol, a elwir yn Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, eu cyflwyno'n flynyddol i Data Cymru gan bob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Mae'r wybodaeth hon ar gale i'r cyhoedd a gellir ei chymharu ar draws Cymru.

| Mesurau Cynllun Corfforaethol | |
|---|---|
| Ein nod yw nad oes unrhyw berson yn byw mwy na 400m1 o'u hardal agosaf o ofod gwyrdd. Dengys ffigurau 2018/19 mai dim ond 65% o bobl sy'n ateb y maen prawf hwn. Mae 6.4 o bobl fesul Ha ym Mlaenau Gwent. |  |
| Mae'r canran gwastraff a gaiff ei ail-ddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2018/19 wedi gwella i 59.26%. |  |
| Mae faint o wastraff a gynhyrchwyd na chaiff ei ailgylchu fesul person wedi gostwng yn ystod 2018/19 o 52.64kg ar ddechrau'r flwyddyn i 43.15kg ar y diwedd. |  |
| Yn ystod 2018/19 bu 20 Trosglwyddo Achos Cymunedol yn gweithredu'n llwyddiannus o fewn Blaenau Gwent am 6 mis neu fwy. |  |

| |
|---|
| Mae'r canran o'r holl ffyrdd mewn cyflwr cyffredinol wael wedi gwella gan 5.6% i 11.4%^ |
| Roedd y gwariant net ar asedau priffordd yn £1,017,434^ |
| Cytunodd 34% o bobl bod eu strydoedd lleol yn lân (cytuno neu gytuno'n gryf)^ |

*^Cynhwysir y mesur o fewn y Cynllun Corfforaethol*

**Ni ellir cymharu pob mesur gan y gall y ffordd y cânt eu cyfrif newid flwyddyn ar flwyddyn*

***Gallwch weld mwy o wybodaeth perfformiad yn [www.mylocalcouncil.info](http://www.mylocalcouncil.info)*

| Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cenedlaethol | |
|---|---|
| **13eg yng Nghymru gyda** 94.7% o'n priffyrdd a arolygwyd o safon uchel neu dderbyniol o lanweithdra. Wedi gwella gan 3.2% a 6 safle ^ |  |
| **21ain yng Nghymru** am glirio tipio anghyfreithlon a adroddwyd i'r awdurdod gyda'r amserlen gyfartalog ar gyfer clirio ym Mlaenau Gwent yn 6.2 diwrnod, sydd bron 3 gwaith yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.2^ |  |
| **12fed yng Nghymru,** lawr o'r 2il am nifer yr ymweliadau i'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden lleol fesul 1,000 o boblogaeth. Mae hyn yn dangos gostyngiad mewn ymweliadua i ganolfannau hamdden o tua 1600. Dyma'r tro cyntaf i'r Awdurdod fod tu allan i'r 3 safle uchaf. |  |
| **4ydd yng Nghymru** ar gyfer cyflwr ein priffyrdd A ar 2.6%. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn sefydlog dros y 2 flynedd gyda chyfartaledd Cymru eleni yn 3.9%. |  |
| **19eg yng Nghymru** ar gyfer cyflwr ein priffyrdd B ar 5.6% gyda chyfartaledd Cymru eleni yn 4.5%. |  |
| **5ed yng Nghymru** ar gyfer cyflwr ein priffyrdd C gyda 0.6% o welliant eleni, bron 3 gwaith yn well na chyfartaledd Cymru. |  |
| **22ain yng Nghymru** ar gyfer canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio yn fras' gyda safonau glanweithdra bwyd. Mae hyn yn welliant o 0.7 ond yn golled o 2 safle. |  |

*^Cynhwysir y mesur o fewn y Cynllun Corfforaethol*

**Ni ellir cymharu pob mesur gan y gall y ffordd y cânt eu cyfrif newid flwyddyn ar flwyddyn*

***Gallwch weld mwy o wybodaeth perfformiad yn www.mylocalcouncil.info*

# Gweithgaredd Allweddol ers mis Ebrill 2019



Drwy raglen Pontio'r Bwlch y Cyngor, sefydlwyd un prosiect i ystyried sut i ostwng ôl-troed carbon yn effeithlon ar draws Blaenau Gwent. Fel rhan o hyn, mae cynllun gweithredu carbon isel yn cael ei ddatblygu gan y Cyngor, gan weithio gyda'n partneriaid, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn defnyddio dyfodol cadarnhaol o ran carbon. Mae'r Cyngor wedi cymryd rhan mewn dau brosiect pwysig i ystyried sut y gall gwasanaethau cyhoeddus ar draws Gwent gydweithio i ostwng ôl-troed carbon y rhanbarth. Roedd y cyntaf o'r prosiectau hyn yn cynnwys adolygiad o'r fflyd o gerbydau sydd gan bob gwasanaeth cyhoeddus ar draws yr ardal, a pha gyfleoedd sydd i ostwng effaith ein fflyd ar yr amgylchedd. Bu'r ail brosiect yn edrych ar y cyfleoedd ar draws Gwent i sefydlu mannau gwefru trydan, yn cynnwys dynodi safleoedd addas a lle mae cyllid ar gael yn genedlaethol i symud y prosiect ymlaen. Yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn edrych ar weithio gyda phartneriaid i ystyried canfyddiadau'r prosiectau gostwng carbon ac ystyried y camau gweithredu ac ar y cyd y gellir eu datblygu i helpu lliniaru ein allyriadau carbon fel darparydd gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn edrych ar yr agenda carbon isel fel rhan o raglen partneriaeth ehangach.

Fel rhan o'r Rhaglen Teithio Llesol, gwnaed cais i Barc Rhanbarthol y Cymoedd am well cyfleusterau ym Mharc Bryn Bach. Cadarnhawyd y dyfarnwyd cyllid o swm o **£500,000** ar gyfer ailddatblygu'r ardal chwarae a'r tŷ bynciau ym Mharc Bryn Bach.

Fel rhan o ddyletswydd Bioamrywiaeth ac Ecosystem Cydnerth yn sgil Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'r Cyngor wedi dynodi Hyrwyddwyr Amgylcheddol yn cefnogi pob cyfarwyddiaeth. Bydd yr Hyrwyddwyr Amgylchedd yn dynodi camau gweithredu allweddol ar gyfer y gyfarwyddiaeth i fynd â nhw rhagddynt fydd yn cefnogi gwella a diogelu'r amgylchedd. Caiff y meysydd hyn wedyn eu cynnwys o fewn proses cynllunio busnes y Cyngor fel y gellir cynnal monitro rheolaidd.



**Caiff Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Hydref 2019.** Un o egwyddorion dyletswydd rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol a nodir yn Neddf yr Amgylchedd yw y dylem fod yn hyblyg a chynllunio, monitro, adolygu a newid ein gwaith wrth i ni sicrhau gwell dealltwriaeth drwy well tystiolaeth a'n profiadua. Yn y ffordd hon gallwn gydweithio i sicrhau y gellir cymryd camau pellach i sefydlu'r ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth ym mhob swyddogaeth o'r Cyngor.

Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru i ystyried ail ganolfan ailgylchu gwastraff cartrefi yn Roseheyworth.

Cwblhawyd **gorfodaeth gwastraff ochr** ledled Blaenau Gwent. Caiff gwaith ei wneud yn awr i ystyried gweithredu'r polisi a rhoddir adroddiad ar y canfyddiadau drwy'r broses ddemocrataidd maes o law.

Mae'r gwasanaeth wedi parhau i fuddsoddi mewn gweithgaredd glanhau ar draws yr ardal gyda ffocws neilltuol ar dorri glaswellt a gweithgareddau tymhorol. Bydd ymgysylltiad parhaus gyda'r cyhoedd i annog ailgylchu gwastraff ac atal tipio anghyfreithlon.

Rydym yn parhau i weithio ar draws yr ardal gyda'n grwpiau cymunedol a phartneriaid mewnol ac allanol i wella ansawdd a mynediad gofod gwyrdd. Sicrhawyd cyllid i ddatblygu ein Cynlluniau Teithio Llesol Mapiau Rhwydwaith ymhellach dros y 12 mis diwethaf.

Gan gydweithio gydag awdurdodau lleol Gwent, datblygwyd dau gais mawr am gyllid a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn defnyddio cyllid Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant. Cawsant eu cymeradwyo mewn egwyddor.

Cafodd mwyafrif adeiladau heb fod yn weithredol eu gwaredu neu eu dymchwel. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio gyda'r grwpiau cymunedol sydd wedi prydlesu adeiladu a thiroedd drwy gynnig cyngor a chymorth technegol.

Cwblhawyd ysgol Six Bells gyda disgyblion yn symud i'r ysgol ym mis Medi 2019. Mae gwaith yn parhau gydag Addysg i ddatblygu Rhaglen Band B.

**95%**

o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol Tiroedd wedi eu cwblhau.

## Gweithgareddau Allweddol

**76%** ysgolion cynradd ac uwchradd categori **gwyrdd neu felyn** yn dangos gwelliant

**100%** dewis cyntaf rhieni am gyfnod 3 blynedd ar gyfer **dyraniadau lleoedd meithrin ac uwchradd.**

Nifer y **bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant** ar eu lefel isaf erioed

### *Dyfyniad gan Fyfyriwr:*

*"Fe wnes fwynhau'r digwyddiad, rwy'n teimlo ei fod yn gyfle gwych i ni ar gyfer y dyfodol a helpu gyda'n hopsiynau. Diolch i chi am eich help"*


## Yr hyn a ddywedoch wrthym ...


**"Mae addysg ar gyfer ein rhai ieuengaf yn hollbwysig"**



**"Rwyf eisiau bod yn filfeddyg"**

**"Rwyf eisiau bod yn wyddonydd fforensig"**





WalesOnline NEWS IN YOUR AREA

SHARE

**GCSE in Blaenau Gwent are up**

GCSE results in Blaenau Gwent have improved this year by 3.7 percentage points on last year. Cabinet member Cllr Clive Meredit said:

*"Congratulations to all our learners and everyone involved in this set of much improved results, including Governing Bodies, Headteachers, teachers, school based staff, parents and guardians.The efforts that have gone in to securing these improvements are not to be underestimated. Our young people are well prepared for the next stage of their learning journey and we wish them all the very best for their future.*

**Dim ar gael yn y Gymraeg*



Blaenau Gwent CBC **Dim ar gael yn y Gymraeg*

20 February

Deputy Youth Mayor for Blaenau Gwent, Charlotte Clark, is tackling the important issue of period poverty. She is promoting our new Period Equity Survey which will help us to understand the scale of period poverty in our area.

Please follow the link to take part https://bit.ly/2NfcKkE - your views make a difference. #BlaenauGwent #PeriodPoverty





Blaenau Gwent CBC **Dim ar gael yn y Gymraeg*

13 February

We would like to thank all the exhibitors and schools for making The STEM Inspiration Event 2019 such a success. This short video shows what some of the businesses had on display… look forward to seeing you all again next year.

#BlaenauGwentCBC #CareersWales #STEMinspirationBG #STEM #BlaenauGwent #BCBC #investinbg

# Addysg



## Cyngor yn amlinellu cynllun gwariant £11m ar gyfer ysgolion





## Penawdau

**Ysgolion ym Mlaenau Gwent yn sicrhau canlyniadau TGAU gwell yn 2018**

Mae'r Cyngor yn falch i gyhoeddi fod canlyniadau TGAU ym Mlaenau Gwent wedi gwella eleni. Dengys canlyniadau gynnydd o 3.7 pwynt canran ar y llynedd. Caiff y gwelliant mewn perfformiad ei osod mewn cefndir o newid cenedlaethol a diwygio addysg. Mae'r canlyniadau yn gadarnhaol iawn. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu dialog effeithlon gyda darparwyr Ôl 16 i sicrhau y caiff dysgwyr becynnau priodol yn dilyn canlyniadau.

**Dim newid i Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol**



Cytunodd Pwyllgor Gweithredol Cyngor Blaenau Gwent yn unfrydol i beidio symud ymlaen gyda chynigion i ostwng darpariaeth cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol yn y fwrdeistref sirol a pheidio dileu grantiau teithio ar gyfer myfyrwyr ôl 16. Gwnaeth y cynghorwyr y penderfyniad ar ôl ystyried adroddiad yn dangos diffyg llethol cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau gan dros 1,200 o bobl a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad cyhoeddus dilynol.

**Digwyddiad Ysbrydoli**


Mynychodd dros 400 o ddisgyblion Blwyddyn 8/9 o Flaenau Gwent ddigwyddiad Ysbrydoli, a gefnogwyd gan 38 o fusnesau, i helpu codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).

**Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif**

Mae Addysg, Ysgolion a Gwasanaethau Technegol wedi cydweithio i weithredu Rhaglen Band A Ysgolion y 21ain Ganrif, sydd wedi darparu £20.25m i gefnogi buddsoddiad yn y stad ysgolion.

## Pam fod hyn yn bwysig

Mae gwella ansawdd a darpariaeth addysgu a dysgu yn hanfodol i sicrhau ein bod yn sicrhau canlyniadau uchelgeisiol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau addysg er mwyn cefnogi datblygu economaidd ac adfywio er mwyn rhoi cyfleoedd ar gyfer pobl a busnesau lleol.




## Trosolwg 2018/19

Ym Mlaenau Gwent defnyddir data presenoldeb fel dangosydd dirprwy am lesiant ac ar gyfer y data diweddaraf mae hyn yn dangos y dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| **Presenoldeb ysgolion cynradd** yn 94.3%, cymedrig Cymru yn 94.5% sy'n rhoi Blaenau Gwent yn 2il yn ein teulu o awdurdodau lleol (Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Caerffili a Rhondda Cynon Taf). | **Absenoldeb heb awdurdod** yn rhoi Blaenau Gwent yn 2il yn y teulu ar gyfer 17/18 ar 1.4% gyda chymedrig Cymru yn 13%. | **Absenolwyr cyson** ar gyfer 17/18 yn 1.6%, cymedrig Cymru yn 1.7%, sy'n rhoi Blaenau Gwent yn gydradd 1af yn y teulu. |
| **Presenoldeb ysgolion uwchradd** yn 92.9%, cymedrig Cymru yn 93.8% sy'n rhoi Blaenau Gwent yn 3ydd yn y teulu o 1af yn 16/17. | **Absenoldeb heb awdurdod** ar gyfer 17/18 yn 1.8%, cymedrig Cymru yn 1.6% sy'n rhoi Blaenau Gwent yn 1af yn y teulu. | **Absenolwyr cyson** am 17/19 yn 4.1%, cymedrig Cymru yn 4.1% sy'n rhoi Blaenau Gwent yn 1af yn y teulu. |

## Sut y gwnaethom berfformio

Drwy gydol 2018/19 bu cynnydd sylweddol yng ngweithrediad y blaenoriaethau Addysg ond sylweddolir fod mwy o waith i'w wneud eto i weithredu'r nodau ac amcanion yn llawn.

Erbyn 31 Mawrth 2019 roedd y Cyngor wedi ystyried perfformiad a gweithgaredd ar bob Amcan Llesiant er mwyn dynodi Llwyddiant pob maes. Ym mlwyddyn 1 cafodd y perfformiad ar Addysg ei werthuso fel bod yn llwyddiannus gan fod 86% o'r camau gweithredu yn wyrdd (ar y targed) a 14% yn oren (tu ôl i'r targed). Wrth ystyried tueddiadau gyda'r dangosyddion perfformiad roedd gwelliant mewn pedwar, gostyngiad mewn un ac un yn aros yr un fath.

Mae Addysg yn parhau'n uchel ar agenda'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn anelu i gefnogi agenda llesiant athrawon a disgyblion, yn ogystal â chefnogi gwelliannau mewn cyrhaeddiad.

Cafodd Blaenau Gwent ei gategoreiddiad ysgolion a phroffil arolwg ysgolion gorau erioed; mae pob ysgol gynradd naill ai yn y categori gwyrdd neu felyn (ac eithrio dau oedd eisiau aros yn oren i gael mwy o ddyddiau o gymorth gan fod ganddynt benaethiaid newydd). Mae ein dwy ysgol arbennig yn wyrdd a melyn, mae ein hysgolion uwchradd prif ffrwd yn wyrdd a melyn gyda'n dwy ysgol goch yn datblygu ar gyflymder gwahanol oherwydd cymhlethdod y gwaith sydd ei angen. Fodd bynnag, mae'r ddwy yn gwneud cynnydd.




Mae deilliannau disgyblion 11 a 14 oed yn parhau i wella ar y lefel ddisgwyliedig ac ar lefel uwch ar gyfer disgyblion mwy galluog. Cynyddodd perfformiad ein disgyblion 16 oed mewn TGAU Mathemateg (o 50.25% i 52.9) a L2 (o 41.1% i 44.5%). Cynyddodd 5A*/A o 7.5% i 11.9%.

Mae dwy ysgol arall wedi sicrhau achrediad Cam 5 yn ystod Tymor y Gwanwyn 2019 ac yn awr yn gweithio at y Dyfarniad Ansawdd Cenedlaethol. Yn ychwanegol, daeth dau osodiad cyn-ysgol y cyntaf i gwblhau'r HSPSS ym Mlaenau Gwent. Cawsant eu hachredu ar gyfer pob un o saith agwedd y cynllun, gan sicrhau fod y gosodiad yn ymwreiddio ac yn coleddu iechyd a llesiant o fewn eu bywyd dydd i ddydd.

## Mae Blaenau Gwent yn gweld y ffigurau NEET (heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) isaf erioed ar gyfer pobl ifanc ar ddiwedd Blwyddyn 11

ar **1.5%** gyda chyfartaledd Cymru yn **1.6%**. I roi mwy o dystiolaeth o hyn: mae mwy o bobl ifanc yn aros mewn addysg ar ôl 16 o **86%** i **87.6%**. Cyfartaledd Cymru yw **88.2%**.

Ni chafodd unrhyw ysgolion, a arolygwyd dan y fframwaith newydd, eu rhoi yn y dosbarth dilyn lan gan Estyn gyda llawer o ysgolion yn dangos arfer ardderchog mewn agweddau o'u gwaith.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Trawsnewid Addysgol wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu nifer o brosiectau. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Y Prosiect Seilwaith a Chysylltedd TGCh Addysg a ddechreuodd yn ffurfiol yn 2018. Bydd y prosiect trawsnewidiol hwn yn sicrhau buddsoddiad o tua £56,000 yn y seilwaith TGCh ar draws y stad ysgolion.
- Datblygu llain 3G yn Ysgol Sylfaen Brynmawr.
- Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau £35,195 o'r Cyllid Ysgolion Gwledig i gefnogi un ysgol ym Mlaenau Gwent.
- Tlodi Mislif —dyfarnodd Llywodraeth Cymru y cyllid dilynol i Flaenau Gwent er mwyn mynd i'r afael â thegwch mislif:.

- Cyllid cyfalaf 2017/18 - £13,937
- Cyllid refeniw 2018/19 & 2019/20 £5,236

Defnyddiwyd y cyllid i sicrhau darpariaeth eitemau hylendid menywod am ddim ym mhob ysgol a safle ieuenctid ynghyd â chanolfannau hamdden sydd ar yr un safle â safleoedd ysgol a chynhelir cynllun peilot yn Ward Abertyleri.



Derbyniodd addysg gadarnhad o £47,826 ychwanegol o gyllid refeniw ar gyfer 2019/10 a bydd grwp y prosiect yn defnyddio hyn i gynnal a chynyddu darpariaeth.

Canmolwyd Blaenau Gwent fel enghraifft o arfer gorau gan Lywodraeth Cymru a PHS, yn unol â dull gweithredu prosiect tegwch mislif, sy'n anelu i fynd i'r afael â chyfleusterau, y cynnyrch sydd ar gael, addysg ac ymwybyddiaeth. Caiff y prosiect ei gyflwyno mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a gwasanaethau/sefydliadau trydydd sector a'r sector preifat.

Gwelodd Rhaglen Band A fuddsoddiad o £20.25m yn y stad ysgolion rhwng 2014-19 (50/50 cyllid Llywodraeth Cymru a'r Cyngor). Statws presennol y Rhaglen yw:

**Prosiect Ail-fodelu Ysgol /Gyfun Tredegar - £2.3m**

Mae'r prosiect wedi dod i ben erbyn hyn. Cyflwynwyd sesiwn gweithdy cau/gwerthuso prosiect gydag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn nhymor y gwanwyn, a farnodd fod y prosiect yn enghraifft o arfer gorau yn nhermau:

- gwerth am arian;
- gwaith partneriaeth;
- trefniadau rheoli prosiect; a
- darpariaeth effeithlon ar safle byw.

**Ysgol Gynradd Adeilad Newydd Abertyleri (Campws Stryd Tyleri) - £9.8m**

Cafodd yr adroddiad cau ei gwblhau yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a chynhaliwyd sesiwn gwersi a ddysgwyd yn unol â'r tîm prosiect.



**Prosiect Ailfodelu Ysgol Gynradd Ystruth - £635,900**

Cafodd yr Achos Cyfiawnhad Busnes ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016, gan arwain at fuddsoddiad o £635,900 yn yr ysgol, er mwyn ailfodelu meysydd allweddol i sicrhau fod yr ysgol yn diwallu'r newid yn anghenion y boblogaeth ddisgyblion. Roedd gan y prosiect ffocws penodol ar drawsnewid darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig gan y bydd gwaith ailfodelu helaeth ar y ddarpariaeth canolfan adnoddau. Dechreuodd y prosiect ym mis Hydref 2017 a daeth i ben ym mis Awst 2018 ar amser ac i'r proffil. Mae'r prosiect yn awr o fewn y rhaglen 12 mis diffygion ac atebolrwydd.

**Ysgol Gynradd Adeiladu Newydd Six Bells £8.8m (yn cynnwys £150,000 o gyllid ychwanegol a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019)**

Mae'r prosiect yn cynnwys datblygu ysgol gynradd adeilad newydd 360 lle, fydd yn darparu ar gyfer disgyblion o Gampysau Cynradd Stryd y Frenhines a Bryngwyn. Bydd gan yr ysgol hefyd feithrinfa 60 lle ac uned canolfan adnoddau gyda lle i 9 disgybl.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ar 16 Ionawr 2018 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid y dyrennir £30m (cyllid 100%, heb unrhyw ofyniad arian cyfatebol gan Gynghorau) i gefnogi prosiectau cyfalaf yn neilltuol i hybu'r Gymraeg mewn addysg (cafodd y grant ei weinyddu yn ogystal â'r dyraniadau cyfalaf a gadarnhawyd ym Mand B). Derbyniodd Cyfarwyddiaeth Addysg Blaenau Gwent gadarnhad ym mis Hydef 2018 iddynt fod yn llwyddiannus wrth sicrhau £6m o'r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg.

**Grantiau Teithio Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol/Ôl 16**

Rhoi cyfle i bobl roi sylwadau ar newidiadau arfaethedig i' Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol (dychwelyd i derfynau statudol) a Grantiau Teithio Ôl 16 (dileu grantiau teithio mewn camau) ar gyfer y flwyddyn academaidd yn dechrau ym mis Medi 2019

**1220** cyfanswm ymgynghoreion
**12** sesiwn galw heibio gyda
**442** yn mynychu ar draws y fwrdeistref yn cynnwys Hafan Dysgu Blaenau Gwent, Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent a'r Uwch Gyngor Ysgolion.

**1157** holiadur wedi'u derbyn **Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol: 949 wedi cymryd rhan**
**89%** naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno gyda dychwelyd i'r terfynau statudol
**Cludant Ôl-16 – 1042 wedi cymryd rhan**
**95.5%** naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno gyda'r opsiwn a ffafrir gan y Cynor i ddileu grantiau teithio dros gyfnod.

*Astudiaeth Achos*

## Gwasanaeth Ieuenctid

Bu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn llwyddiannus yn cael ei enwebu ac roedd ar y rhestr fer am ddwy wobr eleni. Daeth y gwasanaeth yn ail yng ngwobr gyntaf erioed 'Gwaith Ysgolion mewn Ysgolion' fel rhan o Wobrau Cenedlaethol Addysgu yng Nghymru. Mae'r wobr yn cydnabod sut mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i ymwreiddio cefnogaeth yn llawn yn yr ysgol uwchradd yn Ebwy Fawr, drwy gynnig cymorth gwaith un i un a grwp, pontio mewn ac allan o'r ysgol, cymorth cwricwlwm amgen mewn canolfannau ieuenctid, cefnogaeth iechyd rhywiol a pherthynas a chysylltiadau gyda'r ddarpariaeth gyda'r nos.

Roedd yr ail enwebiad ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru ac unwaith eto daeth y gwasanaeth yn ail. Mae'r wobr yn cydnabod Open 4 Youth Nights fel prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc gyda'u hiechyd a'u llesiant. Mae'r prosiect yn rhedeg bob 3 mis ar nos Sadwrn, pan mae Canolfan Hamdden Glynebwy ar gau i'r cyhoedd, a phobl ifanc yn cymryd drosodd. Mae gweithwyr ieuenctid yn cynnal amrywiaeth o wahanol sesiynau ac mae'r holl gyfleusterau ar gael.

Mae'r gweithwyr ieuenctid yn cynnal amrywiaeth o wahanol sesiynau ac mae'r holl gyfleusterau ar gael. Ar gyfartaledd mae 250 o bobl ifanc yn mynychu o bob rhan o Flaenau Gwent, caiff nifer y galwadau ymddygiad gwrth-gymdeithasol eu gostwng ar gyfer y noswaith honno ac mae pobl ifanc yn rhoi cyfle i bobl ifanc fwynhau, profiadau newydd a mynediad i gefnogaeth os ydynt ei angen.




*Dim ar gael yn y Gymraeg

***Integreiddio a Chydweithredu*** - Cafodd SPACE-Llesiant ei sefydlu ac mae'n bwynt mynediad sengl ar gyfer llesiant emosiynol yn cynnwys CAMHS. Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynrychioli Addysg yn y cyfarfod wythnosol aml-asiantaeth gyda Teuloedd yn Gyntaf, S-CAMHS, PMHCSS, Heddlu Gwent, YISP a Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent a Seicoleg Clingiol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Roedd ffocws y cyfarfod ar rai o'n disgyblion mwyaf bregus ac mae'n cydweitho mewn ffordd integredig i ddiwallu anghenion disgyblion.

*Astudiaeth Achos*

# Ysgol Gynradd Rhos y Fedwen

Yn Rhos y Fedwen rydym yn credu y gall pawb ohonom lwyddo os yw ysgolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach yn cydweithio mewn partneriaeth gyfartal. Gwyddom na fedrwn wella cyrhaeddiad a llesiant ein dysgwyr ar ein pen ein hunain.

Caiff ein gwaith ei seilio ar ein hegwyddorion creiddiol o barch, uchelgais ac, yn hanfodol, gydraddoldeb a thegwch. Fel gyda'r rhan fwyaf o bethau a wnawn, yn Rhos y Fedwen ein hymagwedd at gydraddoldeb yw croesawu a datblygu cydweithio ystyrlon gyda'n teuluoedd a phartneriaid cymunedol

Wrth weithio tuag at Gymru fwy cyfartal, anelwn ymgysylltu gyda a chefnogi aelodau mwyaf bregus ein cymuned ysgol. Er ein bod yn bennaf yn ysgol un-diwylliant, rydym yn ffodus fod rhai o'n teuluoedd a phartneriaid cymunedol wedi cyfrannu at weithdai diwylliannol sy'n adlewyrchu treftadaeth ein dysgwyr—haka a chelf corff llwyth o Samoa, melysion dathlu Diwali a saris o India, picls a straeon gwerin o Wlad Pwyl, dawnsio o Bortiwgal ac, wrth gwrs, Eisteddfod a dathlu Diwrnod Dantes Dwynwen.

Mae ein Prosiect Pontio'r Cenedlaethau yn un o'r pethau yr ydym yn fwyaf balch ohonynt yn Rhos y Fedwen. Rydym i gyd—staff, disgyblion a rhai rhieni—wedl cael hyfforddiant Cyfeillion Dementia mewn partneriaeth gyda United Welsh a gwirfoddolwyr, mae ein dysgwyr wedi cynllunio a dechrau adeiladu gardd gyfeillgar i dementia.

Mae ein dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 wedi datblygu perthynas gydag aelodau'r gymuned sy'n byw mewn cartref gofal lleol drwy gynllun cyfaill post. Mae grwpiau o blant meithrin yn cael ymweliadau yno i chwarae gemau a chanu caneuon gyda'u ffrindiau newydd.

Cawsom gyfraniad gan Gymdeithas Alzheimer Blaenau Gwent i dalu am gost bws am ddau dymor fel y gallwn sefydlu côr pontio'r cenedlaethau gyda chymuned tai gwarchod yr henoed.

Ar gyfer Dydd y Cofio, gwahoddwyd blwyddyn 6 i weithdy lle gwnaethant ddysgu sut i wneud pabi cerameg ac yn eu tro cawsant eu gwahodd i addysgu'r sgiliau hyn i bobl oedrannus yn y gymuned. Mae'r sgiliau a'r wybodaeth y gwnaethant eu datblygu yn ystod y diwrnod hwnnw yn amhrisiadwy.



# Sut y perfformiodd 'Addysg' yn 2018/19 (blwyddyn academaidd 2017/18)

Ar gyfer pob Amcan Llesiant, mae'r Cyngor wedi dynodi nifer o fesurau perfformiad i ddangos pa mor dda mae darpariaeth yr Amcanion Llesiant yn mynd. Caiff y rhain eu rhannu yn ôl dangosyddion lleol a dangosyddion cenedlaethol. Lle'n bosibl, mae'r Cyngor wedi cymharu'r dangosyddion lleol gyda pherfformiad y llynedd. Caiff y dangosyddion cenedlaethol, a elwir yn Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, eu cyflwyno'n flynyddol i Data Cymru gan bob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd a gellir ei chymharu ar draws Cymru.

*Ni fedrir cymharu pob mesur gan y gall y ffordd y cânt eu cyfrif flwyddyn-ar-flwyddyn.

**Gallwch weld mwy o wybodaeth perfformiad yn www.mylocalcouncil.info

| Mesurau Cenedlaethol Atebolrwydd Cyhoeddus | |
|---|---|
| **18fed yng Nghymru** ar gyfer presenoldeb uchel disgyblion mewn ysgolion cynradd ac 20fed yng Nghymru am bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd. |  |
| **21ain yng Nghymru** am y nifer o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n cyflawni sgôr cyfartalog Cap 9 |  |
| **19eg yng Nghymru** far gyfer ymadawyr blwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) |  |

| Mesurau Cynllun Corfforaethol | |
|---|---|
| Mae'r canran o ysgolion lle mae dyfarniadau arolwg ysgolion a chategorïau ysgolion wedi eu rhoi fel melyn neu wyrdd wedi cynyddu eleni gan 6% gyda 76% o ysgolion yn cael eu categoreiddio felly. |  |
| Mae presenoldeb 4.1% o ddisgyblion ysgol uwchradd Blaenau Gwent yn gyson is na 80%, fodd bynnag mae'r ffigur hwn wedi gwella o 4.8% y llynedd. |  |
| Mae presenoldeb 1.6% o ddisgyblion ysgol cynradd Blaenau Gwent yn gyson is na 80%. |  |
| Mae presenoldeb 1.6% o ddisgyblion ysgol cynradd Blaenau Gwent yn gyson is na 80%. |  |

# Gweithgaredd Allweddol ers mis Ebrill 2019

Cafodd dyraniad rhaglen Band B Blaenau Gwent o tua £19.6m (gyda chyfradd ymyriad o 65/35) ei gymeradwyo gan Banel Cyfalaf Llywodraeth Cymru; fodd bynnag cynhelir achos busnes mewnol ar bob prosiect o fewn y rhaglen ynghyd â'r prosesau statudol yn unol â Fersiwn 2 (2018) Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae Rhaglen Band B Blaenau Gwent yn cwmpasu'r cyfnod 2019/24 ac yn cynnwys y prosiectau blaenoriaeth dilynol



Cafodd rhaglen £20.25m Band A Ysgolion 21ain Ganrif ei chyflwyno'n llawn. Mae'r datblygiadau'n cynnwys cwblhau prosiect Six Bells gyda disgyblion yn symud i'r ysgol ym mis Medi 2019.

- **Blaenoriaeth 1 -** Ailfodelu Ysgol/Cyfnod Uwchradd
- **Blaenoriaeth (i) -** Ysgol Gynradd 360 Lle Cwm Ebwy Fawr
- **Blaenoriaeth (ii) -** Adnewyddu ysgol gynradd (yn unol ag argaeledd cyllid yn dilyn creu ysgol gynradd newydd 360 lle yng nghwm Ebwy Fawr)

Mae cynigion ad-drefnu ysgolion fydd angen ymgynghoriad statudol ar newidiadau i gapasiti Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm a darpariaeth cyfrwng Cymraeg posibl. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar y bu Blaenau Gwent yn llwyddiannus gyda'r grant cyfrwng Cymraeg a gallai hyn arwain at fuddsoddiad o £6m a gaiff 100% o gyllid allanol.

Blaenau Gwent yn parhau i arwain ar Raglen Ysgolion 21ain Ganrif Consortiwm De Ddwyrain Cymru ac yn arwain y grwp academaidd i flwyddyn academaidd 2019/20.

Mae agweddau cynaliadwyedd refeniw'r Gwasanaeth Ieuenctid yn awr yn sefydlog ar gyfer y dyfodol rhagweladwy yn dilyn cymeradwyaeth WEFO i brosiect Ysbrydoli i Gyflawni/ Gweithio hyd at 2023/24. Bydd y prosiect hefyd yn sicrhau £160,000 o gyllid refeniw o Grant Ieuenctid Llywodraeth Cymru.



Cafodd ail-broffilio Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Band B ei gymeradwyo tua £1m yn gysylltiedig gyda'r cynnig am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae cyflwyno busnes achos i Lywodraeth Cymru yn mynd rhagddo a chaiff ei gyflwyno erbyn mis Medi 2019.

Datblygwyd dull gweithredu rhanbarthol cryf ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gyda ffocws ar ddiwygio ADY, alinio darpariaeth, proses a pholisi lle'n bosibl. Dechreuodd gwaith gyda Chydlynwyr ADY ysgolion i ystyried mapio darpariaeth ADY mewn ysgolion. Cynhaliodd ysgoilion asesiad dechreuol yn seiliedig ar ganllawiau Estyn a bydd grwp o ysgolion yn gweitho gyda'r Awdurdod Lleol i symud ymlaen â hyn i sicrhau fod ysgolion yn cyflawni gofynion Estyn yng nghyswllt ADY.






Yn rhanbarthol, mae awdurdodau lleol yn gweithio'n fwy agos ar ADY nag erioed o'r blaen. Caiff hyn ei gydlynu drwy grwp ADY SEWC a gaiff ei gadeirio gan yr SMfl a bydd hynny'n parhau drwy gydol 19/20.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y Cod ADY newydd ar gael ym mis Ionawr. Bydd hyn yn galluogi'r Gwasanaeth Cynhwysiant ac ysgolion, yn ogystal â gwasanaethau eraill, i ddeall yn llawn yr hyn a ddisgwylir ym mis Medi 2020 a rhoi golwg glir ar y cynnydd a wnaethom hyd yma.

Mae'r Tîm Cynhwysiant yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol parthed lleoliad plant sy'n derbyn gofal tu allan i'r sir, fodd bynnag mae angen mwy o waith yng nghyswllt eglurdeb am gyfrifoldeb am gostau addysgol ar leoliadau a gaiff eu gyrru gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae SMfl yn aelod o'r Panel Achosion Cymhleth ac yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau ariannol am leoliadau. Mae hyn yn cefnogi'r angen i'r tîm Plant sy'n Derbyn Gofal (a ddaw dan y Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r Tîm Anghenion Addysgol Arbennig (a ddaw dan Cynhwysiant) i weithio mewn modd cydlynus. Eto mae achosion lle mae achosion yn dod o fewn achosion cymhleth ac mae angen tynhau prosesau yn y maes hwn.



Cafodd yr Adroddiad DBS ar gyfer llywodraethwyr ysgol ei gwblhau a'i rannu gydag ysgolion ar gyfer ei weithredu. Cafodd cynllun gweithredu Parch a Chydnerthedd ei gwblhau a chaiff ei weithredu ar draws y Gyfarwyddiaeth. Cafodd cynnwys y Cyd-adroddiad Perfformiad Diogelu ei adolygu ac mae'n awr yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol ehangach, ac adeiledig ar hynny drwy gydol y flwyddyn. Cafodd polisi Diogelu mewn Addysg 2019/20 hefyd ei adolygu.

# Sut ydym yn olrhain yr hyn a wnawn

Mae defnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a chyrraedd yr Amcanion Llesiant yn golygu newid y ffyrdd y gweithiwn. Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar saith maes corfforaethol allweddol fel rhan o weithredu'r Ddeddf. Islaw mae diweddariad ar y set greiddiol o weithgareddau sy'n gyffredin i lywodraethiant corfforaethol cyrff cyhoeddus, gan gydnabod fod eisiau gwneud mwy eto yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd i ddod.

## Rheoli perfformiad

Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi hen ennill ei blwyf sy'n cefnogi pob agwedd o gynllunio, darparu a gwella gwasanaethau. Fel rhan o hyn, defnyddiwyd Amcanion Llesiant y Cyngor, fel y'u dynodwyd o fewn y Cynllun Corfforaethol, i lunio'r holl gynllunio gwasanaeth ym mhob rhan o'r Cyngor. Datblygwyd 'edau aur' o'r Cynllun Corfforaethol drwy'r sefydliad i gyd.

Fel rhan o'n trefniadau cynllunio busnes, cafodd cynnydd ar yr egwyddorion datblygu cynaliadwy ei gynnwys a rhoddir adroddiad arno ar gyfer pob un o'r Amcanion Llesiant. Ar gyfer 2019/20, caiff cynnydd ar gamau gweithredu'n gysylltiedig â Deddf yr Amgylchedd ei gynnwys hefyd.

Bob chwarter, mae'r Cyngor yn derbyn monitro perfformiad y Cynllun Corfforaethol fel rhan o'r Adroddiad Cyllid a Pherfformiad. Ynghyd â'r adroddiad yma, caiff nifer o adroddiadau perfformiad hefyd eu gwneud yn fewnol a thrwy'r broses ddemocrataidd.

## Cynllunio Ariannol

Cafodd yr Amcanion Llesiant eu cynhyrchu ar adeg o gyfyngiadau ariannol sylweddol a newid radical o fewn y sector cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn adolygu ei reolaeth a'i gynllunio ariannol er mwyn ei alluogi i ddatblygu dull newydd i ddangos yn effeithlon sut y defnyddiwn adnoddau i sicrhau deilliannau hirdymor cynaliadwy i'r cenedlaethau presennol a hefyd genedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn neilltuol o anodd mewn sefyllfa o ddyraniadau adnodd blynyddol gan y Llywodraeth. Fel canlyniad bydd angen addasu newidiadau parhaus yn ystod oes yr Amcanion hyn a'u adolygu ymhellach yn unol â hynny.

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn elfen allweddol o fewn fframwaith cynllunio ariannol y Cyngor. Y fframwaith ariannol yma fydd yn cefnogi cydnerthedd ariannol y Cyngor a sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd cynaliadwy.

Daw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol ynghyd â'r holl ffactorau hysbys sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac mae'n ffurfio'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys golwg ymlaen dros y pum mlynedd nesaf i asesu'r gofynion gwariant sy'n debygol o wynebu'r Cyngor wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol a dangos y gofyniad cyllid y bydd angen ei wneud i sicrhau y gall y Cyngor osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn.

Ar y cam hwn drafft yw dogfennau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a Phontio'r Bwlch ac maent yn cynnig dull gweithredu y Cyngor i ymateb i'r heriau ariannol fydd yn ein hwynebu dros y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn broses ailadroddus ac un a gaiff ei datblygu a'i mireinio wrth i sefyllfa cyllid gan Lywodraeth Cymru ddod yn gliriach ac adolygiadau busnes strategol gael eu datblygu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau sy'n ei wynebu yn y tymor byr, y tymor canol a'r hirdymor ac mae wedi datblygu rhaglen o Adolygiadau Busnes Strategol i fynd i'r afael â bylchau posibl rhwng y cyllid a gwariant a ddisgwylir sy'n anelu i adeiladu cydnerthedd ariannol. Yn seiliedig ar themâu strategol, bydd ein rhaglen Pontio'r Bwlch yn dynodi cyfleoedd arbedion, osgoi costau posibl a ffrydiau refeniw newydd.

Wedi'i gynllunio i gefnogi cyllideb gytbwys, mae ganddo ffocws hefyd ar greu amodau Cyngor masnachol ei naws. Mae hyn yn cynnwys chwilio am ffrydiau refeniw newydd a sicrhau bod adnoddau yn gydnaws gyda hanfodion strategol y Cyngor. Yn dilyn gostyngiadau flwyddyn ar flwyddyn mewn cyllid a chynnydd mewn galw, mae angen i'r Cyngor ailgynllunio ac ail-lunio gwasanaethau er mwyn gostwng costau a chynyddu incwm i'r eithaf.

Mae gan y dull gweithredu hwn bwyslais neilltuol ar:

- Cynyddu potensial cynhyrchu incwm i'r eithaf a chymryd dull gweithredu amlwg fasnachol lle mae'n briodol gwneud hynny;
- Ail-gaffael ac ail-negodi contractau;
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y gall trawsnewid digidol eu rhoi;
- Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau ac eiddo;
- Ystyried pa gamau gweithredu y gallwn eu cymryd i ddylanwadu ar a gostwng galw;
- Edrych am gyfleoedd i gefnogi preswylwyr i wneud mwy drostynt eu hunain;
- Manteisio ar y cyfleoedd i gryfhau cydnerthedd ariannol drwy gefnogi twf yn y fwrdeistref.

| Cyllideb Refeniw | | | |
|---|---|---|---|
| **Portffolio** | **Cyllideb £'000 18/19** | **All-dro Darpariaethol 2018/2019 £'000** | **Amrywiad Ffafriol/Anffafriol £'000** |
| Gwasanaethau Corfforaethol, Rheolaeth Ariannol a Strategaeth | 14,777 | 14,580 | 197 |
| Economi | 1,558 | 1,457 | 101 |
| Addysg | 54,859 | 55,075 | (216) |
| Yr Amgylchedd | 28,863 | 29,325 | (462) |
| Trwyddedu | 71 | 71 | 0 |
| Cynllunio | 1,115 | 1,029 | 86 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 44,147 | 43,924 | 223 |
| **Cyfanswm y Cyngor** | **145,390** | **145,461** | **(71)** |

**Sefyllfa Gyfredol y Gyllideb:**
Mae'r all-dro darpariaethol yn dangos amrywiad anffafriol cyffredinol o £71,000 ar gyllideb 2018/2019. Mae hyn yn sefyllfa ariannol sylweddol well o gymharu gyda sefylfla rhagolwg cyllideb chwarter 3 o £800,000.

| Cyllideb Gyfalaf | | | |
|---|---|---|---|
| **Portffolio** | **Cyllideb £'000 18/19** | **All-dro Darpariaethol 2018/2019 £'000** | **Amrywiad Ffafriol/ (Anffafriol) £'000** |
| Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth | 1,973,621 | 1,987,976 | (14,355) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 614,259 | 614,259 | 0 |
| Addysg | 5,859,437 | 5,859,437 | 0 |
| Yr Amgylchedd (yn cynnwys Hamdden) | 5,414,838 | 5,413,441 | 1,396 |
| **Cyfanswm y Cyngor** | **13,862,155** | **13,875,113** | **(12,958)** |

**Sefyllfa Gyfredol y Gyllideb :**
Mae'r all-dro darpariaethol yn dangos amrywiad anffafriol cyffredinol o £12,958 ar raglen 2018/2019. Mae hyn yn welliant ar y sefyllfa ariannol o gymharu â sefyllfa rhagolwg cyllideb chwarter 3 o £22,167. Gellir priodoli'r sefyllfa well oherwydd na ddigwyddodd costau sgaffaldu a ragwelwyd yn gysylltiedig gyda'r Siop Cwmni, ynghyd â thanwariant bach ar ddau brosiect seilwaith.

**Rheoli Risg** Cynhadaeth Rheoli Risg y Cyngor yw 'Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn defnyddio arferion gorau i ddynodi, gwerthuso a rheoli risgiau mewn ffordd effeithlon o ran cost i sicrhau y cânt eu dileu neu eu rheoli i lefel dderbyniol'.

I sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni gofynion rheoli risg Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru, mae ein dull Rheoli Risg yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i risgiau a hirdymor i ddarpariaeth gwasanaeth a hefyd ein cymuned.

Mae'r Cyngor yn credu fod Rheoli Risg yn elfen hanfodol i sicrhau ei fod yn dod yn sefydliad perfformiad uchel. Rydym yn ymroddedig i sicrhau y caiff Rheoli Risg ei sefydlu ledled y Cyngor gan y bydd rheoli ein risgiau yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau, gwelliannau uniongyrchol i wasanaethau ac i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid, yn ogystal â gwella llywodraethiant a pherfformiad corfforaethol.

**Caffaeliad** Caiff gweithgareddau caffael eu hwyluso gan gydymffurfio o fewn oblygiadau cyfreithiol presennol, a gaiff eu diffinio'n bennaf o fewn y Rheoliadau Contract Cyhoeddus (PCR) 2015. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cymru 2012 (diwygiwyd 2015) ac yn gweithredu ei egwyddorion i'r holl ofynion comisiynu a chaffael.

I gefnogi gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaetha'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn cynnwys Buddion Cymunedol, ar ddechrau pob caffaeliad, mae'r cleient a swyddogion caffael yn penderfynu cwmpas y prosiect ac yn ystyried cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant y Ddeddf a buddion cymunedol, naill ai o fewn y fanyleb a dogfennau'r contract, fel naill ai greiddiol neu heb fod yn greiddiol, yn ogystal ag o fewn y meini prawf dethol a dyfarnu.



**Cynllunio Corfforaethol** Mae'r Cyngor wedi alinio ei holl gynllunio yn llawn i'r Cynllun Corfforaethol sy'n cynnwys yr Amcanion Llesiant. Mae'r rhain yn ganolog i drefniadaeth a chynllunio gwaith y dyfodol a bod strategaethau wedi eu hawlio gyda'r ardaloedd hyn. Cafodd yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy o fewn y templed cynllunio busnes a ddefnyddir ar draws pob maes gwasanaeth. Caiff y pump ffordd o weithio hefyd eu casglu o fewn y Templed Adroddiadau Corfforaethol, cefnogir hyn gan ganllawiau a gaiff ei adolygu a'i rannu yn gyfnodol.



**Gweithlu** Cynhaliodd y Cyngor arolwg staff i gasglu barn staff yn ddiweddar. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i gwblhau'r arolwg, i fyny o 2016. Caiff canlyniadau'r arolwg eu hystyried gan y tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a bydd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu drwy gydol yr hydref. Bydd y sesiynau'n gyfle i staff drafod canlyniadau'r arolwg a rhoi diweddariad ar ein cynllunio busnes a sut ydym yn gweithio i ddynodi arbedion pellach a mynd i'r afael â bylchau mewn cyllid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai ei staff yw yr ased fwyaf. Er mwyn cefnogi staff, mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynllun gwobrau staff fydd yn rhoi hawl i'n haelodau staff ar ddisgownt ar ystod eang o siopau stryd fawr a bwytai.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i hyrwyddo gweithlu iachach a mwy cadarn. Cafodd hyn ei ddangos yn ddiweddar pan fabwysiadodd Cyngor gynllun yn caniatau i unigolion wneud cais am wyliau blynyddol ychwanegol. Mae'r cynllun yn cefnogi aelodau staff i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd cartref drwy roi mwy o hyblygrwydd yng nghyswllt amser wedi'i gynllunio i ffwrdd o'r gwaith.

**Asedau** Mae Cynllun Rheoli Asedau Strategol Blaenau Gwent yn ddogfen statudol sy'n nodi dull gweithredu strategol y Cyngor at ei asedau tir ac eiddo yn dynodi'r ysgogwyr allweddol sy'n effeitho ar sut y caiff eiddo ei reoli a'i gynnal a chadw.



Sylweddolwn fod eiddo yn ased a chost bwysig i'r Awdurdod ond hefyd yn risg sylweddol. Mae'n darparu'r gofodau sylfaenol y caiff gwasanaethau'r Cyngor eu cyflenwi ynddynt ac felly mae angen iddo fod yn addas i'r diben. Mae'r Cynllun yn dynodi cyflwr y portffolio a ffordd glir ymlaen ar gyfer strategaeth y Cyngor ar gyfer eiddo. Mae hyn yn rhoi dull cytbwys a chlir i p'un ai y dylai cadw neu ryddhau eiddo ac felly mae'n llywio penderfyniadau'r Cyngor ar fuddsoddiadau mewn eiddo.

Fel rhan o raglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor, cynhaliwyd rhaglen helaeth o ymgysylltu i sicrhau y caiff y broses ei deall yn llawn. Ymgynghorir ar bob cais gyda'r Aelodau lleol a'r Aelod Gweithredol yn ogystal â Chynghorau Tref a Chymuned ar bob cais - lle bynnag mae hynny'n berthnasol. Cafodd y cyhoedd brofiad i wneud sylwadau. Cafodd y rhaglen heleth hon ei rhoi ar waith er budd y gymuned yn y tymor hirach, gan sicrhau fod cyfleusterau chwaraeon ar gael yn lleol a gaiff eu rhedeg gan y gymuned ac yn cefnogi hirhoedledd yr ardal.

## Gweithio gydag Aelodau Etholedig

Mae'r Cyngor wedi gweithio gydag Aelodau Etholedig er mwyn codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a meithrin hyder yn sut y gellir gweithredu egwyddorion y Ddeddf. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd sesiwn i ystyried sut i ddefnyddio'r Ddeddf yn effeithlon a phryd o fewn Pwyllgorau.

Roedd y sesiwn yn agored i holl Aelodau Pwyllgorau Craffu. Defnyddiodd y sesiwn ryngweithiol adroddiadau a fu drwy'r broses Pwyllgor a rhoddodd Aelodau ystyried i sut y gallent lunio eu cwestiynau yn defnyddio pump ffordd o weithio fel y nodir yn y Ddeddf. Roedd adborth cadarnhaol iawn i'r sesiwn a gofynnodd aelodau i sesiwn bellach gael ei chynnal fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant a datblygu gyfredol.



Cynhaliwyd sesiwn penodol gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwsanaethau Cyhoeddus i'w cefnogi yn eu swyddi, gydag ystyriaeth yn cael ei roi i sut i graffu ar rôl dorfol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hytrach na chyrff unigol.

Wrth symud ymlaen, caiff y pump ffordd o weithio eu cynnwys fel rhan o'r Fframwaith Cymhwysedd Aelodau a gyflwynwyd yn 2016 a'u defnyddio fel rhan o drafodaethau'r Adolygiad Datblygu Personol.

# Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yn nodi'r uchafbwyntiau a darnau sylweddol o waith a wnaed i gefnogi'r gofynion a nodir yn Hysbysiad Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg a gyhyoeddwyd ym mis Medi 2015.



Yn dilyn adolygiad dynodwyd nifer o ganfyddiadau allweddol ac eir ymlaen â'r rhain i sefydlu'r Safonau ymhellach ar draws meysydd gwasanaeth. Y prif ganfyddiadau yw:

- Mae nifer y cwynion a gafodd y Cyngor am gydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r safonau wedi cynyddu o 1 yn 2016/7 i 3 cwyn yn 2017/208 gydag arwyddion yn broblem yn yr holl gwynion.
- Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu yn deillio o ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg i ddiffyg cydymffurfiaeth gyda Safon 84 'Os ydych yn cynnig cwrs addysg sydd ar agor i'r cyhoedd, mae'n rhaid i chi ei gynnig yn Gymraeg'.
- Mae cynnydd bach yn nifer yr aelodau staff sy'n rhugl yn y Gymraeg ac mae dros eu hanner ar gontract parhaol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gydnerthedd ar draws y Cyngor.
- Drwyddi draw nodir fod gan 25% o staff beth gallu yn y Gymraeg, sy'n fan cychwyn cadarnhaol pan fyddwn yn mynd ati i feithrin cydnerthedd a chapasiti.

## *Astudiaeth Achos*

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Helyg oedd yn enillwyr rhanbarthol yn Eisteddfod yr Urdd Gwent gyda'u 'Cân Actol' yn dweud hanes y Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Aeth y grŵp ymlaen i gynrychioli Gwent yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd.



# Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i weithredu Deddf Cydraddoldeb 2010 a chaiff hyn ei ddangos gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol Blaenau Gwent 2016-2020. Mae peth o'r gweithgaredd allweddol hyd yma yn cynnwys:

- Cydnabod Blaenau Gwent gan Gomisiynydd Plant Cymru fel un o'r unig gynghorau yn Gymru i fod wedi cyhoeddi strategaeth a chynllun gweithredu ar hygyrchedd.

- Mae Blaenau Gwent wedi cydweithio gyda Tai Calon, landlord cymdeithasol cofrestredig lleol, yn ogystal â Pride Cymru i weithio gyda chymuned LGBT+ pobl ifanc i ddatblygu Grŵp Cymdeithasol LGBT+. Mae'r rhwydwaith hon, a enwodd y bobl ifanc yn 'Pridentity' yn bodoli fel grŵp cymdeithasol sy'n cynnal ei hunan lle mae pobl ifanc yn cwrdd yn rheolaidd i drafod ffyrdd i wneud y gymuned LGBT+ yn fwy amlwg ledled Blaenau Gwent.

- Cafodd gweithgor Caffael ei sefydlu drwy Rwydwaith Cydaddoldeb Corfforaethol y Cyngor sy'n nodi nifer o flaenoriaethau er mwyn adolygu a gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau caffael. Mae caffael yn 'Ddyletswydd' Benodol i Gymru dan y PSED, yn ei gwneud yn ofynnol i egwyddorion cydraddoldeb gael eu sefydlu yn y fframwaith caffael a gweithgareddau comisiynu diynol. Mae'r gweithgor yn ymchwilio ystyriaethau cydraddoldeb yn unol ag egwyddorion y strategaeth buddion cymunedol, yn ogystal â'r disgwyladau ymrwymiad a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Moesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

- Mae ymgysylltu gyda'r gymuned lleol wedi bod yn gwella ac mae'r grwpiau y gweithiwyd gyda nhw yn cynnwys

  - Grwpiau anabledd, yn cynnwys y fforwm Mynediad i Bawb
  - Y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr
  - Grwpiau LGBT
  - Grwpiau Beichiogrwydd a Mamolaeth
  - Rhwydweithiau Cymorth Lluoedd Arfog
  - Grwpiau Iaith Gymraeg, a
  - Rhwydweithiau Plant a Phobl Ifanc.




## *Astudiaeth Achos - Cysylltiadau Hiliol*

Mae gan Ysgol Gynradd Ystruth bolisi sy'n sicrhau y caiff pawb eu trin yn deg ac yn gyfartal beth bynnag eu cefndir ieitthyddol a diwylliannol. Cymerodd yr ysgol ran mewn gweithdai 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' ac maent wedi ennill Dyfarniad Lefel 2 Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.

Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu ein disgyblion fod ganddynt hawl i fod yn ddiogel a'u bod yn gyfrifol am ofalu am eu diogelwch eu hunain a hefyd ddiogelwch pobl eraill. Er mwyn cadw'n ddiogel rydym yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion i ystyried eu diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch ar reilffyrdd, diogelwch gyda thrydan, diogelwch ar safleoedd adeiladu, perygl 'dieithriaid' a diogelwch ar y rhyngrwyd.


Drwy gydol y flwyddyn byddwn yn paratoi gwersi, gwahodd siaradwyr a dangos ffilmiau a fideos i gyd yn anelu i roi sylw i'r peryglon hyn ac annog plant i annog plant i reoli eu diogelwch eu hunain. Byddwn hefyd yn rhoi gwybodaeth i ddisgyblion ar yr hyn y gallent ei wneud os nad ydynt yn teimlo'n ddiogel.

# Rheoliadau Mewnol ac Allanol

Caiff y Cyngor ei fonitro gan nifer o gyrff rheoleiddiol. Y prif gyrff yw:

- Swyddfa Archwilio Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru, ac
- Estyn.

Mae'r Cyngor yn monitro pob cynnig am welliant y mae'n eu derbyn gan archwilwyr mewnol ac allanol ar sail chwarterol drwy Adroddiad Cyllid a Pherfformiad. Caiff pob un o'r cynigion ei fonitro drwy'r cynllun busnes perthnasol. Yn gyfnodol, cynhelir adolygiad o'r cynigion agored a'i gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol i ystyried pa gynigion all gau gan iddynt gael eu gorffen neu wedi symud i fusnes fel arfer. Yn 2018/19 mae'r Cyngor naill ai wedi gweithio ar neu dderbyn 11 droddiad, pump ohonynt yn lleol a chwech yn genedlaethol.




O'r rhain a chynigion blaenorol ar gyfer gwella a dderbyniwyd, mae'r Cyngor yn monitro 50 cynnig ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor yn anelu i roi adroddiad ar adroddiadau terfynol archwilwyr a'r ymateb gan reolwyr i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ac yna i'r Pwyllgor Archwilio.

**Adroddiad Gwella Blynyddol 2018/19** Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2018/19 fod y Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol yng nghyswllt gwelliant parhaus. Yn seiliedig ar, ac wedi'i gyfyngu i, y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu fod y Cyngor yn debyg o gydymffurfio gyda gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019-20. Yn ystod y flwyddyn ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol.

**Adolygiad Perfformiad Awdurdodau Lleol 2018/19 Arolygiaeth Gofal Cymru** Ym mis Gorffennaf 2019, rhoddodd yr Arolygiaeth grynodeb o'u gwaith ym Mlaenau Gwent drwy gydol 2018/19 a pherfformiad o ba mor dda y cyflawnodd y Cyngor ei swyddogaeth statudol Gwasanaethau Cymdiethasol. Dynododd yr Arolygiaeth nifer o gryfderau a gwelliannau yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.

**Archwiliad Mewnol** Mae Archwiliad Mewnol yn cynnal nifer o adolygiadau ar draws gwasanaethau'r Cyngor a chaiff yr wybodaeth hon ei hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio: http://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/aksblaenau_gwent/users/public/admin/kab71.pl?cmte=AUD

## Datganiad Llesiant

Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru ) 2015 mae'n ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus, dan adran 7 y ddeddfwriaeth, i gyhoeddi Datganiad Llesiant yr un pryd ag y maent yn cyhoeddi eu Hamcanion Llesiant. Fel rhan o'r ddyletswydd yma, mae'n rhaid datblygu adroddiad blynyddol sy'n nodi cynnydd y flwyddyn flaenorol ar weithredu'r Amcanion Llesiant a Gwella. Cyhoeddwyd hyn ym mis Hydref 2018 ac mae ar gael yn: http://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/aksblaenau_gwent/images/att9171.pdf

Ysgrifennwyd yr Amcanion Llesiant i gefnogi cyflawni'r Amcanion Llesiant a bydd eu llwyddiant yn dibynnu ar gyflawni'r Amcanion Llesiant a'r camau gweithredu a mesurau sy'n eu cefnogi.



Caiff cyflawni'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy sy'n cefnogi'r Nodau Llesiant eu dangos o fewn cynlluniau busnes y Cyngor sy'n gweithio i weithredu'r Cynllun Corfforaethol 2018/22.

## Sut y bydd y Cyngor yn llywodraethu ei hun i gyflawni'r Amcanion Llesiant

As part of the requirements of the Future Generations Fel rhan o ofynion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fe wnaeth y Cyngor gwblhau offeryn hunanasesu ar weithredu ein Hamcanion Llesiant. Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio'r offeryn i ddeall sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r Ddeddf ar lawr gwlad er mwyn hyrwyddo egwyddor Datblygu Cynaliadwy, fel y gallwn i gyd symud ymlaen i gyflawni'r saith Nod Llesiant Cenedlaethol.

Mae'r Comisiynydd wedi rhoi ymateb i'r Cyngor ar y cynnydd hyd yma, yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwelliant. Mae'r Cyngor yn anelu i ymateb i'r Comisiynydd o fewn yr adroddiad hwn a bydd yn parhau i weithredu'r gwelliannau hyn dros y blynyddoedd nesaf.

Fel rhan o'n trefniadau llywodraethiant cyfredol, rydym yn monitro gweithredu'r Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Llesiant yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi'i strwythuro'n dda sy'n cynnwys cynllunio busnes, adrodd a hunanarfarnu. Mae'r Cyngor yn gweithredu un system rheoli perfformiad sy'n cynnwys mwyafrif cynllunio'r Cyngor ac yn cadw gwybodaeth mewn lle er mwyn osgoi dyblygu.

Dylai popeth a wnawn gyfrannu at flaenoriaethau'r Cyngor (yr 'edau aur') fel y caiff ein holl ymdrechion ac adnoddau eu cysylltu i ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Cafodd fframwaith cynllunio busnes y Cyngor ei alinio'n strategol o'r Cynllun Corfforaethol drwy'r holl sefydliad fel y gall staff ddeall eu cyfraniad at weithredu.

Mae'n ofyniad corfforaethol fod pob cynllun busnes yn cael ei ddiweddaru o leiaf yn chwarterol. Caiff Cyflawniadau, Heriau, Dangosyddion Perfformiad a Chynnydd ar unrhyw gynigion rheoleiddiol mewnol neu allanol ar gyfer gwella wedyn eu cynnwys o fewn ein Hadroddiad Cyllid a Pherfformiad a gaiff ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gweithredol.

## Sut fydd y Cyngor yn adolygu'r camau i gyflawni'r Amcanion Llesiant

Mae llawer o'r rhaglenni a restrir yn y Cynullun yn uchelgeisiol ac mae rhai yng nghamau cynnar eu datblygiad. Dros bedair blynedd y Cynllun (2018/22), gall fod rhai newidiadau i fesurau a blaenoriaethau a chaiff hyn ei ddynodi drwy ein proses hunanarfarnu gadarn.

Mae Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol y Cyngor, Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Uwch Swyddogion wrthi'n gweithio ar adolygiad o'r polisïau strategol a strategaethau sy'n llywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu nawr ac yn y dyfodol. Efallai y caiff mân newidiadau eu gwneud i'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Corfforaethol fel canlyniad i'r gwaith hyn, rhoddir ystyriaeth i'r hyn y gallwn ei wneud yn wahanol i wneud cyfraniad gwell nid yn unig i'r Nodau Llesiant ac Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ond hefyd i'r deilliannau a llesiant y gymuned yn y dyfodol a sut i sicrhau adnoddau priodol i bob Amcan. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd y prif bwyslais o fewn pob Amcan Llesiant yn newid.

---

## Sut y bydd y Cyngor yn cynnwys cymunedau i sicrhau'r Amcanion Llesiant

Mae Strategaeth Ymgysylltu 2018/22 y Cyngor yn nodi'r ymrwymiad a'r dull ymgysylltu a ddefnyddir gan y Cyngor wrth ymgysylltu gyda'r gymuned, rhanddeiliaid, aelodau etholedig a staff. Mae'r Strategaeth yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn rhoi ymrwymiad i barhau rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r strategaeth yn amlinellu manteision ymgysylltu effeithlon ar gyfer y Cyngor a'r rhai sy'n ymgysylltu gyda ni, wedi'i seilio yn yr Egwyddorion Cenedleathol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Strategaeth Ymgysylltu ar gael yn http://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/aksblaenau_gwent/images/att9468.pdf

**Rydym eisiau i'r rhai sy'n ymgysylltu â ni i:**

- Ddod yn fwy gwybodus am pam y gwnawn yr hyn a wnawn a sut y gwnawn hynny;
- Cael mwy o lais wrth gynllunio gwasanaethau lleol;
- Gwybod fod barn a sylwadau yn bwysig i ni;
- Bod â llawer o hyder ac ymddiriedaeth ynddom; a
- Cymryd diddordeb a pherchnogaeth o bethau sy'n cyfrif.

**Rydym eisiau ymgysylltu'n effeithlon i:**

- Helpu i lunio gwneud gwell penderfyniadau a datrys problemau;
- Cymryd penderfynaidau tryloyw yn seiliedig ar dystiolaeth gref;
- Cefnogi mwy o ymgyfraniad yn y broses ddemocrataidd; ac
- Arwain gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n adlewyrchu angen.

# Gwybodaeth Cyswllt

Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig yn http://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/performance/ ac mewn copi caled drwy wneud cais.

Tîm Perfformiad Corfforaethol Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent Swyddfeydd Bwrdeisiol
Glynebwy
NP23 6XB
Ffôn: 01495 311556
E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk

---

# Rhoi Adborth

Croesawn unrhyw adborth a all fod gennych am Asesiad Perfformiad 2018/19 y Cyngor. Mae eich sylwadau yn bwysig i ni a rydym eisiau gwybod pa wybodaeth yr hoffech ei weld a sut yr hoffech ei gweld yn cael ei hadrodd. Cysylltwch â'r tîm os gwelwch yn dda ar y manylion uchod os hoffech roi adborth ar yr Asesiad, os oes unrhyw wybodaeth ddylai gael ei ystyried i'w chynnwys yn y dyfodol, neu os ydych angen y ddogfen mewn fformat gwahanol e.e. print bras, Braille, fersiwn sain ac yn y blaen.

---

Mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel Datganiad Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, a baratowyd dan adran 7 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac arweinaid cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Asesiad Perfformiad hwn yn amlinellu cyfrifoldeb y Cyngor i gyhoeddi asesiad o berfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 fel yr amlinellir yn adran 15 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Cyngor yn fodlon fod yr wybodaeth a roddir yn y cynllun hwn yn gywir yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael adeg ei gyhoeddi. Cynhaliwyd sgrinio Aessiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar Asesiad o Befformiad 2018/19 y Cyngor.